



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

GŴYS A RHAGLEN

SUMMONS AND AGENDA

ar gyfer

for an

**CYFARFOD ARBENNIG O
GYNGOR SIR YNYS MÔN**

**EXTRAORDINARY MEETING OF
THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY
COUNCIL**

ar

on

DYDD MAWRTH, 28 HYDREF 2025

TUESDAY, 28 OCTOBER 2025

➔ am 2:00 o'r gloch ➔

➔ at 2:00 pm ➔

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.

R H A G L E N

1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhw Aelod neu Swydddog pathed unrhyw eitem o fusnes.

2. RHYBUDD O GYNNIG

- I dderbyn y Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cynghorydd Jeff Evans: -

'Rydym ni fel Grŵp Annibynwyr Môn yn galw ar Gyngor Sir Ynys Môn i gymryd pob cam posibl er mwyn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i ail agor Pont y Borth fel mater o frys.

Cafodd y cau ei wneud heb ymgynghori ymlaen llaw ac heb hysbysu'r Cyngor Sir'.

- I dderbyn y Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cynghorydd Sonia Williams: -

'Mae'r Cyngor yna yn pryderu yn ddybryd am ddiffyg gwytnwch y ddau groesiad presennol dros Y Fenai sydd wedi eu amlygu eu hunain unwaith eto wrth i Pont y Borth orfod cau yn gyfan gwbl unwaith yn rhagor gan adael un croesiad yn unig.

Rydym hefyd yn datgan siom yn Llywodraeth Cymru am eu diffyg i ddal y contractwyr i gyfrif ac am eu amharodwydd i ystyried y cysylltiadau rhwng Môn a'r tir mawr a'r effaith ar drigolion a chymunedau yr Ynys.

Gofynnwn i Llywodraeth Cymru gamu i mewn i gynnig cymorth i fusnesau tref Porthaethwy sydd wedi dioddef llawer oherwydd yr holl broblemau efo'r Bont dros y 3 mlynedd diwethaf. Mae busnesau lletygarwch yn enwedig yn dioddef yn enbyd gan fod y bont ar gau dros nos.'

3. DATGANIAD O'R CYFRIFON 2024/25 A'R ADRODDIAD ISA 260

Cyflwyno'r canlynol, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 23 Hydref 2025: -

- Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swydddog Adran 151 – Datganiad o'r Cyfrifon 2024/25.
- Adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid – Datganiad Llywodraethu Blyneddol 2024/2025.
- Adroddiad Archwilio Allanol ynghylch yr archwiliad o'r datganiadau ariannol 2024/2025. (Adroddiad ISA 260).

4. **AILSTRWYTHURO'R TIM RHEOLI CORFFORAETHOL**

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	CYNGOR SIR YNYS MÔN
DYDDIAD:	28 HYDREF 2025
PWNC:	DATGANIAD CYFRIFON 2024/25
AELODAU PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD ROBIN W. WILLIAMS - DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID
SWYDDOG(ION) ARWEINIOL:	MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
SWYDDOG(ION) CYSWLLT:	CLAIRE KLIMASZEWSKI ClaireKlimaszewski@ynysmon.gov.wales
Natur a Rheswm dros Adrodd Blaen adroddiad ar gyfer cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon, gan roi sylwadau ar y prif faterion sydd wedi codi ers cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer 2024/25.	

1. Cefndir

- 1.1 Cyflwynwyd Datganiad Cyfrifon drafft 2024/25 Cyngor Sir Ynys Môn i archwilyr allanol y Cyngor, Archwilio Cymru, ar gyfer archwiliad ar 30 Mehefin 2025. Mae'r gwaith archwilio manwl bellach wedi'i gwblhau'n sylweddol.
- 1.2 Yn amodol ar gadarnhad Cyngor Sir Ynys Môn, bydd y Cyfrifon yn cael eu llofnodi gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a Chadeirydd y Cyngor ac yn cael eu cyhoeddi ar ôl derbyn barn derfynol yr Archwilydd.

2. Dyddiad cau diwygiedig Llywodraeth Cymru

- 2.1 Y dyddiad cau statudol ar gyfer cwblhau'r cyfrifon archwiledig ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 yw 31 Hydref 2025, sydd fis yn fyrrach nag ar gyfer 2023/24. Roedd Llywodraeth Cymru wedi ymestyn y dyddiadau cau ers 2020 oherwydd effaith Covid-19 ac oherwydd materion cyfrifo technegol a oedd yn effeithio'r holl gynghorau. Mae'n debygol y bydd y dyddiad cau ar gyfer 2025/26 yn 30 Medi 2026, a fydd yn ddychweliad i'r dyddiad cau hanesyddol ar gyfer cwblhau'r cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio.

3. Diwygio'r Cyfrifon ers cyhoeddi'r Cyfrifon Drafft ym mis Mehefin 2025

- 3.1 Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad trylwyr, gan brofi'r trafodion ariannol mewn perthynas â 2024/25 a'r Datganiad Cyfrifon drafft. Mae'r amserlen ar gyfer cau'r cyfrifon a chynhyrchu'r Datganiad Cyfrifon yn gyfyngedig. Felly, mae archwiliad manwl yn hanfodol er mwyn rhoi sicrwydd bod y Datganiad Cyfrifon yn sylweddol gywir ac yn cynrychioli golwg wir a theg ar berfformiad ariannol y flwyddyn.

- 3.2** Nododd y profion archwilio rai newidiadau a oedd eu hangen, a chafodd yr holl wallau perthnasol a argymhellodd y tîm archwilio, heblaw un, eu diwygio i sicrhau bod y cyfrifon yn sylweddol gywir. Mae'r camddatganiad heb ei gywiro yn ymwneud â 32 o asedau sydd â balansau ar yr arian wrth gefn ailbrisio, yn ogystal â balans cronrus i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) a oedd wedi'i drosglwyddo i'r cyfrif addasiad cyfalaf (CAA). Ni ddylai ased gario'r ddau falans ar yr un pryd. Mae angen addasiad o £1.561miliwn rhwng yr arian wrth gefn ailbrisio a'r CAA. Mae'r Cyngor wedi penderfynu peidio â chwblhau'r addasiad hwn gan nad yw'n sylweddol i effeithio ar uniondeb cyffredinol y cyfrifon. Byddai'r addasiad yn golygu angen am adolygiad o asedau hanesyddol, sydd mewn rhai achosion yn dyddio'n ôl i 2014/15, a fyddai'n dasg lafurus ac yn oedi'r gwaith o gwblhau'r cyfrifon hyn. Bydd y tîm cyfrifo yn ail edrych ar hyn yn ystod y misoedd nesaf, gyda'r bwriad o ddatrys y broblem hon ar gyfer 2025/26. Mae gwybodaeth bellach wedi'i chynnwys ar dudalen 7 o ganfyddiadau'r archwilwyr.
- 3.3** Mae crynodeb o'r newidiadau neu'r cywiriadau perthnasol wedi'i gynnwys yn adroddiad Archwilio ISA260 Archwilio Cymru yn Atodiad 2. Mae'r newidiadau mwyaf sylweddol wedi'u crynhoi isod:-
- 3.4** Mae'r Datganiad Cyfrifon wedi effeithio ar alldro'r Cyngor gan £5k, sy'n lleihau'r tanwariant ar gyfer 2024/25 i £3.868m. Mae mwyafrif yr addasiadau'n ymwneud â newidiadau ar y fantolen neu wariant mewn perthynas ag incwm grant na chafodd effaith ar refeniw.
- 3.5** Roedd nifer fach o anheddau'r Cyngor, a gafodd eu cwblhau yn ystod y flwyddyn, wedi'u cynnwys yn y cyfrifon yn ôl y gost yn hytrach na chael eu hailbrisio yn gyntaf. Unwaith mae anheddau'r Cyngor yn weithredol, mae angen eu hailbrisio oherwydd mae eu gwerth teg yn seiliedig ar dai cymdeithasol - gwerth mewn defnydd. Mae addasiad o 41% wedi'i dynnu o werth marchnad holl anheddau gweithredol y Cyngor i adlewyrchu bod mwyafrif y tenantiaethau ar gyfer tai Cyngor yn gcontractau cadarn. Mae hyn yn lleihau eu gwerth gan fod cyfyngiadau oherwydd y tenantiaethau hir hyn. Er na chaniateir y cynllun Hawl i Brynu erbyn hyn, pe byddai'r Cyngor yn dewis gwerthu un neu fwy o anheddau'r Cyngor sy'n wag, byddant yn cael eu hailbrisio i'w gwerthu yn ôl gwerth y marchnad lawn. Oherwydd hyn, cafodd gwerth y tai hyn eu gor-ddatgan gan £3.248m, ac mae addasiad wedi'i gwblhau er mwyn lleihau anheddau'r Cyngor yn ôl y swm hwn.

3.6 Safle Tirlenwi a Chwlfert Penhesgyn

3.6.1 Gofynnir i'r Cyngor gynnwys darpariaethau ar gyfer costau a all godi yn y dyfodol oherwydd digwyddiad blaenorol ar sail amcanbris rhesymol. Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd y ddarpariaeth ar gyfer cyn safle tirlenwi Penhesgyn yn £4.247m. Fodd bynnag, roedd hyn yn cynnwys £2m ar gyfer cwmpiad llwyr posibl y cwlfert ym Mhenhesgyn, a fyddai'n arwain at wastraff heintiedig peryglus a dŵr yn llifo allan o'r safle. Mae'r cwlfert wedi cwmpo yn rhannol, er fod ei gyflwr yn 2023 yn debyg i'r amser y cafodd ei archwilio yn 2003. Os bydd y cwlfert yn cwmpo ymhellach, mae'n anodd amcangyfrif datrysiad ar gyfer hyn a byddai cost sylweddol ar gyfer gosod isadeiledd gor-bwmpio er mwyn lliniaru llifogydd dŵr gwenwynig tra bo'r datrysiad ar gyfer y cwlfert sydd wedi cwmpo yn cael ei gwblhau. Er bod ansicrwydd o ran a fydd y cwlfert yn cwmpo ymhellach, mae dal risg y bydd yn gwneud hynny. Adolygwyd adroddiadau a baratowyd gan ymgynghorwyr y Cyngor ar y safle, ac mae ansicrwydd sylweddol, yn enwedig mewn perthynas â chost y cwlfert pe byddai'n cwmpo. Felly, mae'r £2m gwreiddiol wedi'i drosglwyddo o'r ddarpariaeth i gronfa wrth gefn clustnodedig, a dylid ei gadw tra bod y risg y gall y cwlfert gwmpo yn bodoli a tra bo'r safle dal yn wenwynig.

3.6.2 Aeth y tîm hefyd ati i adolygu'r ddarpariaeth ac, yn seiliedig ar gostau gwirioneddol ar gyfer Ardal 3 Penhesgyn ers Mawrth 2010, mae gwerth y ddarpariaeth ar gyfer Ardal 3 yn uwch na'r angen. Yn ogystal, cynghorodd yr ymgynghorydd ar gyfer y safle bod risg y bydd Ardal 3 hefyd angen ei dadlygru y tu hwnt i'r 30 mlynedd gwreiddiol oedd yn sylfaen ar gyfer y ddarpariaeth. Felly, mae'r ddarpariaeth ar gyfer Ardal 3 wedi'i ymestyn am 5 mlynedd arall. Ar ôl darparu ar gyfer 5 mlynedd ychwanegol, bydd hyn yn arwain at orddarpariaeth gwerth £463k. Mae'r gwarged wedi'i drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn clustnodedig ar gyfer cwlfer Penhesgyn, yn ychwanegol i'r £2m, gan fod y gost pe byddai'r cwlfer yn cwmpo'n llwyr yn debygol o fod yn sylweddol.

3.7 Mae'r nodyn ymrwymiad cyfalaf sylweddol wedi cynyddu £1.345m, er mwyn cynnwys ymrwymiad cyfalaf heb ei ddatgelu yn ymwneud â'r CRT.

3.8 Roedd angen addasiad o £1.013m i leihau gwerth asedau oedd yn cael eu hadeiladu ar ôl i eiddo, sydd wedi'u trosglwyddo yn asedau sy'n cael eu hadeiladu o ran eu gwerth mewn defnydd, yn hytrach na phrisiadau, yn sgil newid defnydd fel tai cymdeithasol. Roedd hyn angen pedwar addasiad pellach i adlewyrchu'r gwerth cywir yn y datganiad cyfrifon.

3.9 Roedd angen addasiadau o ran cyfrifo gwerth £996k i gyfrifo'n gywir gwariant cyfalaf oedd yn ymwneud ag asedau nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor. Roedd rhain yn cynnwys grantiau cyfleusterau i'r anabl, grantiau prynwyr tro cyntaf a chostau'n ymwneud â'r cynllun prynwr tŷ.

3.10 Cwblhawyd addasiad o £917k er mwyn cynyddu gwerth rhai adeiladau a thir i gywiro prisiadau oedd yn cynnwys gwallau o ran y cyfrifiadau a gafodd eu mewnbynnu.

3.11 Nid oedd nifer fach o eiddo, gwerth £888k, wedi'u hadnabod yn flaenorol ar y fantolen ac roedd angen eu hychwanegu ar y gofrestr asedau sefydlog a'r fantolen.

4. Argymhellion

4.1 Derbyn Datganiad Cyfrifon 2024/25 ac awdurdodi Cadeirydd y Cyngor Sir a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i lofnodi'r cyfrifon.

MARC JONES
CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) /SWYDDOG ADRAN 151
28 HYDREF 2025



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Datganiad o'r Cyfrifon 2024/25



Cynnwys

Cyfeirnod	Disgrifiad	Tudalen
	Adroddiad Naratif	1
	Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon	9
	Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Sir Ynys Môn	10
	Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	14
	Dadansoddiad Gwariant a Chyllido	15
	Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn	16
	Y Fantolen	17
	Datganiad Llif Arian	18
	Nodiadau i'r Cyfrifon	19
Nodyn 1	Nodyn ar y Dadansoddiad Gwariant a Chyllido	19
Nodyn 2	Safonau Cyfrifo sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu hyd yma	20
Nodyn 3	Barnau Allweddol wrth weithredu'r Polisiau Cyfrifo	20
Nodyn 4	Rhagdybiaethau a wnaed ynghylch ansicrwydd yn y dyfodol ac amcangyfrifon a ffynonellau eraill o ansicrwydd	21
Nodyn 5	Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen	23
Nodyn 6	Addasiadau rhwng Sail Gyfrifo a Sail Cyllido dan Reoliadau	24
Nodyn 7	Cronfeydd Clustnodedig Wrth Gefn	26
Nodyn 8	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	28
Nodyn 9	Cronfeydd wrth Gefn Na Ellir Eu Defnyddio	28
Nodyn 10	Gwariant Gweithredol Arall	31
Nodyn 11	Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi	31
Nodyn 12	Trethiant ac Incwm Grantiau Amhenodol	31
Nodyn 13	Asedau anghyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar	32
Nodyn 14	Ymrwymïadau Cyfalaf Sylweddol	35
Nodyn 15	Asedau Treftadaeth	35
Nodyn 16	Eiddo Buddsoddiad	36
Nodyn 17	Gwariant a Cyllido Cyfalaf	37
Nodyn 18	Dyledwyr	38
Nodyn 19	Arian Parod a Chywerthoedd Arian	39
Nodyn 20	Credydwyr	39
Nodyn 21	Darpariaethau	39
Nodyn 22	Llif Arian o Weithgareddau Gweithredol	40
Nodyn 23	Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi	40
Nodyn 24	Llif Arian o Weithgareddau Cyllido	40
Nodyn 25a	Dadansoddiad o Natur Gwariant ac Incwm	41

Cyfeirnod	Disgrifiad	Tudalen
Nodyn 25b	Incwm Cylchrannol	41
Nodyn 26	Lwfansau Aelodau	42
Nodyn 27	Cydnabyddiaeth Ariannol i Swyddogion	43
Nodyn 28	Pecynnau Ymadael	45
Nodyn 29	Ffioedd Archwilio Allanol	45
Nodyn 30	Incwm Grantiau	46
Nodyn 31	Partïon Cysylltiedig	48
Nodyn 32	Cronfeydd Ymddiriedol	51
Nodyn 33	Cynllun Pensiwn Athrawon	52
Nodyn 34	Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig Llywodraeth Leol	53
Nodyn 35	Offerynnau Ariannol	59
Nodyn 36	Natur a maint y risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol	64
Nodyn 37	Cyd-bwyllgorau a Chyllidebau Cyfun	68
Nodyn 38	Trefniadau Asiantaeth	70
Nodyn 39	Y Dreth Gyngor	71
Nodyn 40	Trethi Annomestig (TA)	72
Nodyn 41	Rhwymedigaethau Amodol	73
Nodyn 42	Asedau Wrth Gefn	74
Nodyn 43	Prydlesi	74
Nodyn 44	Polisiâu Cyfrifyddu	75
Cyfrif CRT	Cyfrif Refeniw Tai (CRT) - Datganiad Incwm a Gwariant - Datganiad Symudiadau ar Falans y CRT Nodiadau ar y CRT	100
Atodiad 1	Datgeliad Parti Cysylltiedig – Cynrychiolaeth Cydranddeiliaid gyda Sefydliadau Trydydd Parti	104
Atodiad 2	Geirfa	107

Adroddiad Naratif

Cynhyrchir y Datganiad Cyfrifon yn flynyddol i roi gwybodaeth glir am gyllid y Cyngor i etholwyr, trethdalwyr lleol, Aelodau'r Cyngor, gweithwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb.

Nod yr adroddiad naratif hwn, sy'n adran allweddol o'r cyfrifon, yw darparu canllaw effeithiol i'r materion mwyaf arwyddocaol a nodir yn y cyfrifon. Mae hyn er mwyn darparu esboniad teg, cytbwys, a hawdd ei ddeall o sefyllfa ariannol y Cyngor ac i helpu i ddehongli'r datganiadau ariannol.

Daeth Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 i rym ar 31 Mawrth 2015, fel y cawsant eu diwygio gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018. Yn unol â'r rheoliadau hyn, rhaid i Awdurdodau Lleol yng Nghymru baratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â'r rheoliadau hyn ac arferion priodol.

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys: -

Datganiadau Ariannol Craidd: -

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys y datganiadau ariannol craidd, sef:-

1. **Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES)** – sy'n dangos y gost cyfrifo o ddarparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn, gan ddefnyddio arferion cyfrifo a dderbynnir, yn hytrach na'r swm fydd yn cael ei gyllido o'r trethi.
2. **Dadansoddiad Gwariant a Chyllido (EFA)** – sy'n dangos y wybodaeth yn y CIES ond, yn ogystal, mae'n darparu addasiadau cyfrifo sydd yn cael eu canslo allan yn Nodyn 6 er mwyn sicrhau nad yw'r addasiadau yma'n cael ei cyllido gan Drethdalwyr y Dreth Gyngor. Mae'r golofn gyntaf o'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllido yn darparu gwir effaith perfformiad ariannol y flwyddyn ar falansau a chronfeydd wrth gefn y Cyngor a'r CRT.
3. **Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn (MIRS)** – sy'n dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor, wedi ei ddadansoddi yn ôl cronfeydd wrth gefn y gellir eu ddefnyddio a'r rhai na ellir eu defnyddio. Mae'r datganiad yn dangos cost wirioneddol darparu gwasanaethau'r Awdurdod a'r modd y caiff y costau hyn eu cyllido o'r gwahanol gronfeydd wrth gefn.
4. **Y Fantolen** – sy'n dangos gwerth yr asedau a'r rhwymediaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Caiff asedau net eu cyfatebu gan y cronfeydd wrth gefn sydd gan yr Awdurdod.
5. **Datganiad Llif Arian** – sy'n dangos y newidiadau o ran arian a chywerthoedd arian y Cyngor yn ystod cyfnod yr adroddir arno.

Gweledigaeth a Blaenoriaethau Cyngor Sir Ynys Môn

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn awdurdod unedol sy'n gwasanaethu poblogaeth o oddeutu 69,000, mae wedi'i leoli ar arfordir gogleddol Cymru ac mae'n ardal sy'n 276 milltir sgwâr. Ynys Môn yw'r ynys fwyaf yng Nghymru o bell ffordd, a'r seithfed ynys fwyaf ym Mhrydain. Ynys Môn hefyd yw'r ynys fwyaf ym Môr Iwerddon o ran maint, a'r ail ynys fwyaf poblog ym Mhrydain.

Mae'r Cyngor yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan wleidyddiaeth ac mae wedi mabwysiadu model Arweinydd a Chabinet. Roedd gan y Cyngor 35 o Aelodau etholedig yn cynrychioli 14 ward aml-Aelod ar 31 Mawrth 2025. Cynhaliwyd etholiadau ar 5 Mai 2022 ar gyfer holl seddi'r Cyngor, ac ar ôl hynny ffurfiodd yr ymgeiswyr llwyddiannus y Cyngor llawn, a fyddent yn parhau i fod mewn lle tan ddechrau mis Mai 2027. Plaid Cymru yw'r blaid sy'n rheoli yn y Cyngor gyda mwy o Gynghorwyr Plaid Cymru nag unrhyw grŵp neu blaid arall.

Cynllun y Cyngor 2023/28

Mae Cynllun y Cyngor 2023/28 yn amlygu bod gweledigaeth hirdymor y Cyngor yn parhau fel "Creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu". Amcanion strategol cynllun newydd y Cyngor yw:

- Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg;
- Amddiffyn a chefnogi'r rhai sy'n agored i niwed;
- Cynyddu cyrhaeddiad a chyflawniad addysgol;
- Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu cartrefi o ansawdd, fforddiadwy a hygyrch;
- Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys;
- Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

Gellir gweld Cynllun y Cyngor 2023/28 ar y wefan yn y cyfeiriad gwe:

[Cynllun y Cyngor a pherfformiad \(llyw.cymru\)](http://Cynllun.y.Cyngor.a.pherfformiad(llyw.cymru))

Senario Ariannol

Cafodd pob un o'r 22 Cyngor yng Nghymru setliad cyllido gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25, ar gynnydd gyfartaledd Cymru gyfan o 3.3%, gydag Ynys Môn yn derbyn cynnydd o 2.8%. Helpodd hyn y Cyngor i gynyddu'r cyllid ar gyfer gwasanaethau a arweinir gan alw, fel gofal cymdeithasol, ac i gynyddu capasiti mewn gwasanaethau a oedd wedi bod yn destun bron i ddegawd o doriadau yn y gyllideb. Yn ogystal, i ariannu penderfyniadau polisi penodol y mae Llywodraeth Cymru am i Gynghorau eu gweithredu, y prif un yw ariannu'r cyflog byw go iawn i staff gofal.

Gosododd y Cyngor gyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25, a oedd yn gofyn am gynnydd o 9.5% yn Nhreth y Cyngor a defnyddio £4.425m o gronfeydd wrth gefn y Cyngor ei hun. Mae cryn ansicrwydd o hyd ynghylch sefyllfa ariannol 2026/27, ond mae amcangyfrifon cyfredol yn awgrymu na fydd y cyllid sydd ar gael yn ddigonol i dalu'r costau uwch oherwydd chwyddiant a'r galw cynyddol am wasanaethau'r Cyngor. Ar gyfer 2025/26 cyflawnwyd cyllideb cytbwys gyda chynnydd o 8.5% yn y Treth Cyngor a defnyddio £2.459m o arian wrth gefn..

Y Gyllideb

Mabwysiadwyd Cyllideb a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ar gyfer 2024/25 gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2024, ac mae'n rhoi darlun cyffredinol o sefyllfa ariannol y Cyngor ac yn sicrhau bod cyllid y Cyngor yn cael ei ddyrannu i gyflawni ei flaenoriaethau. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gael yn:-

Cyngor Sir Ynys Môn - eitem 8

Roedd y setliad yn well na'r disgwyl yn ystod y rhan fwyaf o'r cam cynllunio'r gyllideb ac roedd yn rhoi £127.586m i'r Cyngor, a oedd yn gynydd o £3.720m mewn arian parod (3.0%). Penderfynodd y Cyngor gynyddu Treth Gyngor Band D 9.5%, a chynyddodd y tâl am eiddo Band D i £1,572.30.

Gosodwyd y gyllideb refeniw ar £184.164m a gyllidir gan setliad, treth cyngor ag arian wrth gefn £4.425m. Penderfynodd y Cyngor hefyd gymeradwyo Strategaeth Gyfalaf 2024/25 a Rhaglen Gyfalaf Gychwynnol 2024/25 o £43.838m, yn ogystal â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25.

Monitro'r Gyllideb

Mae gan y Cyngor weithdrefn sefydledig ar gyfer monitro'r cyllidebau. Mae hyn yn caniatáu i'r Cyngor liniaru unrhyw orwariant a'r effaith sy'n debygol o ddigwydd ar wasanaethau. Gall cyllid ychwanegol gan gronfeydd wrth gefn lle bo hynny'n bosibl, ddarparu ar gyfer achosion lle mae angen galw am wasanaeth. Mae'r wybodaeth am Refeniw a Chyfalaf, ochr yn ochr â'r CRT, yn cael eu hadrodd i'r Is-grŵp Craffu Cyllid, y Pwyllgor Craffu ac yna'r Pwyllgor Gwaith bob chwarter, sy'n hwyluso lefel o her yn ogystal â gallu lliniaru unrhyw effeithiau debygol o ddigwydd ar gyfer gwasanaethau.

Perfformiad

Mae'r Cyngor yn mesur ei berfformiad yn rheolaidd ac mae dolen isod ir adroddiad sy'n dangos perfformiad y Cyngor yn erbyn ei amcanion strategol fel y nodir yng nghynllun y Cyngor.

Cyngor Sir Ynys Môn - Eitem 6 ar y agenda

Gwariant Refeniw

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn nodi gwariant a chyllid y Cyngor yn unol â gofynion cyfrifyddu. Mae'r Cyngor yn mesur perfformiad ariannol yn erbyn gweithgarwch a gynlluniwyd ar ffurf cyfrifon rheoli'r Cyngor. Yn 2024/25, nododd y Cyngor danwariant o £3.868m yn erbyn gweithgaredd arfaethedig o £184,164m (cyllideb net).

Mae'r tabl isod yn adlewyrchu'r gyllideb derfynol ar gyfer 2024/25 ac incwm a gwariant gwirioneddol yn ei erbyn: -

Gwasanaethau	Cyllideb Blynnyddol £'000	Alldro £'000	Amrywiant £'000
Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau	68,918	68,641	(277)
Gwasanaethau Oedolion	38,957	38,021	(936)
Gwasanaethau Plant	14,428	16,376	1,948
Tai	1,653	1,570	(83)
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	20,479	19,768	(711)
Rheoleiddio	6,082	5,422	(660)
Trawsnewid	7,762	6,648	(1,114)
Adnoddau	4,045	4,073	28
Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid Corfforaethol	21,840	19,777	(2,063)
Cyfanswm Cronfa'r Cyngor	184,164	180,296	(3,868)

Mae effaith tanwariant yn golygu bod y Cyngor wedi cynyddu ei gronfeydd wrth gefn cyffredinol gan £3.868m. Yn ogystal â hyn, roedd yr effaith net o arian a ryddhawyd or arian wrth gefn yn ystod yr flwyddyn ag yr defnydd or arian wrth gefn penodol i gydbwyso gyllideb y Cyngor wedi arwain at leihad o £1.313m. Felly mae lefel o arian wrth gefn cyffredinol yn cynyddu i £18.160m ar 31 Mawrth 2025. Defnyddwyd £4.525m o'r gronfeydd wrth gefn cyffredinol i gydbwyso'r gyllideb 2024/25 oherwydd cynnydd yn y costau a'r pwysau. Derbyniodd y Cyngor grantiau ychwanegol sylweddol gan y llywodraeth ar gyfer y pwysau ychwanegol. Fe wnaeth hyn gynhorthwy'r cyngor i gadw ei chronfeydd cyffredinol wrth gefn i lefel rhesymol.

Crynodeb o Symudiadau yng Nghronfeydd Wrth Gefn y Cyngor 2024/25

	Cronfa Wrth gefn Gyffredinol Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd Wrth Cefn Clustnodedi g Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd Wrth Gefn Ysgolion	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	Cronfa wrth Gefn Cyfalaf heb ei gymhwyso	Cronfeydd Wrth Gefn Y Bwrdd Uchelgais	Cronfa Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	Cronfa Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy
Eitemau sy'n effeithio ar Gronfeydd Wrth Gefn y Cyngor 2024/25	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans Agoriadol ar Gronfa Gyffredinol y Cyngor 1 Ebrill 2024	(15,605)	(16,517)	(5,577)	(2,390)	(464)	(587)	(8,189)	(509)	(49,838)
an) wariant 2024/25	(3,868)	-	-	-	-	-	211		(3,657)
Balans y Cyngor ar ôl gor / (tan) wariant	(19,473)	(16,517)	(5,577)	(2,390)	(464)	(587)	(7,978)	(509)	(53,495)
Trosglwyddiadau net o/(i) Cronfeydd wrth gefn ar gyfer cyllid cymeradwy	1,313	(4,242)	503	(226)	(74)	(326)	-	509	(2,543)
Balans y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol ar 31 Mawrth 2025	(18,160)	(20,759)	(5,074)	(2,616)	(538)	(913)	(7,978)	-	(56,038)

Gwariant Cyfalaf

Mae'r rhaglen gyfalaf yn cefnogi amcan ehangach y Cyngor i ddarparu gwasanaethau ac i gefnogi twf economaidd. Ym mis Mawrth 2024, cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf gychwynnol o £43.838m ac, ym mis Gorffennaf 2024, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith bod £15.499m o lithriad o 2023/24 yn cael ei ddwyn ymlaen a'i ychwanegu at gyllideb 2024/25. Rhoddodd hwn gyllideb ddiwygiedig o £59.337m.

Yn ystod y flwyddyn, ychwanegir cynlluniau ychwanegol at y rhaglen capital, i adlewyrchu newidiadau cyllido ac unrhyw gyllid grant ychwanegol a dderbynnir yn ystod y flwyddyn. Ychwanegwyd cyfanswm o £18.910m at y rhaglen gyfalaf. Mae hyn yn dod â chyfanswm y gyllideb Cyfalaf ar gyfer 2024/25 i £78.247m.

Mae'r rhaglen wedi gwneud cynnydd cyson yn ystod y flwyddyn, gan gyflawni cyfradd gyflawni o 87%. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r cynlluniau sy'n weddill yn cael eu cyflawni yn y flwyddyn ariannol nesaf. O'r cyfanswm gwariant hwn o £64.784m, cyfalafwyd £38.760m a'i ychwanegu at werth asedau ym Mantolen y Cyngor. Codwyd y gweddill ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, gan ei fod naill ai i gefnogi asedau nad ydynt o dan berchnogaeth uniongyrchol y Cyngor (£9.761m) neu nad oedd yn cynyddu gwerth yr asedau cyfalaf (£17.034m). Fodd bynnag, gwellaodd y gwariant cyfalaf hwn y cyflwr asedau ac ar sawl prosiect estynnodd oes yr asedau.

Mae IFRS16 Rhentu o 1 Ebrill 2024 yn gofyn i bob awdurdod lleol ychwanegu asedau rhentu, uwchben eithriad rhenti gwerth isel (llai na £10k i'r Cyngor), at gyfrifon y Cyngor yn debyg i asedau a berir, ac roedd y ffigwr yn 2024/25 yn £2.229m.

Derbyniodd y Cyngor swm sylweddol o grantiau cyfalaf yn ystod y flwyddyn gan Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac eraill o £37.883m (£17.981m yn 2023/24). Roedd hyn yn cynnwys £17.2m o grantiau cyfalaf gan Llywodraeth Cymru ar gyfer gwelliant a datblygiad tai'r Cyngor. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i barhau gyda gwelliannau i gyflawni Safonau Ansawdd Tai Cymru a chynyddu nifer tai'r Cyngor ar Ynys Môn. Roedd elwa hefyd o grantiau sylweddol, gan gynnwys £7.9m ar gynlluniau economaidd a adfywio, £8.2m ar bwmpiau gwres carbon isel mewn sawl ysgol a chartrefi gofal, £3.4m o grantiau Ffyrdd, £4.3m ar brosiectau addysgol ynghyd â chyllid ychwanegol ar gyfer sawl prosiect arall.

Mae'r tabl isod yn manylu ar y gwariant cyfalaf, fesul gwasanaeth: -

Gwasanaethau	2023/24 £'000	2022/23 £'000
Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau	8,265	13,159
Gwasanaethau Oedolion	486	296
Tai	1,966	1,450
Tai CRT	27,468	19,806
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	19,026	7,049
Rheoleiddio	7,948	6,784
Trawsnewid	396	486
Ased Rhwymedigaethau Prydles	2,229	-
Cyfanswm Cronfa'r Cyngor	67,784	49,030

Nodyn ynghylch cyfleusterau benthyca cyfredol a benthyca cyfalaf yr Awdurdod:

Cyllidir Gan	2024/25 £'000	Canran %
Benthyca Digefnogaeth	4,323	6.38%
Benthyca a Chefnogaeth	4,243	6.26%
Grantiau Cyfalaf	37,883	55.89%
Derbyniadau Cyfalaf	1,173	1.73%
Cyfraniad Refeniw	9,126	13.46%
Grantiau REFCUS	8,762	12.93%
Benthyciad	119	0.18%
Cronfa Wrth Gefn Cyfalaf	2,155	3.18%
Cyfanswm	67,784	100%

Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan yr Awdurdod £122.082m o Fenthyciadau Allanol (ac eithrio llog cronedig o £1.850m). Yn ogystal, roedd y Cyngor yn dal £1.494m o ddyledion hawl defnyddio ar gyfer y dyfeisiau hawl defnyddio (hawl eu rhentu) i'r Cyngor. Mae hyn yn ymwneud â'r dyledion sydd ar ôl ar 31 Mawrth 2025 ar gyfer dyfeisiau rhent yn £10k neu'n uwch. Mae IFRS16 Rhenti, o 1 Ebrill 2024, yn gofyn i'r holl awdurdodau lleol ychwanegu dyfeisiau rhent, yn ogystal â'r eithriad rhent gwerth bychan (llai na £10k i'r Cyngor), i gyfanswm y Cyngor, yn debyg i assedau yr Cyngor. Mae'r taliadau sy'n weddill dan y rhent neu'r cytundeb wedyn yn cael eu trin fel benthyciadau a'u rhannu rhwng brif ac ailenillion, yn debyg i fenthyciadau traddodiadol.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, Gofyniad Ariannu Cyfalaf yr Awdurdod (GAC), sydd yn ei hanfod yn fesur o angen benthyca sylfaenol y Cyngor, oedd £152.389m, sy'n nodi bod y Cyngor wedi defnyddio £28.813m o'i falansau arian dros ben ei hun i ariannu gwariant cyfalaf. Yn Natganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25, y Terfyn Benthyca Awdurdodedig a gymeradwywyd gan y Cyngor oedd £216m, felly, mae'r Awdurdod ymhell o fewn ei derfyn benthyca.

Cronfeydd wrth gefn, perfformiad ariannol a sefyllfa ariannol

Roedd balans Cronfa Gyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2025 yn £18.160m, sy'n cyfateb i 9.9% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer 2024/25. Nod strategaeth ariannol y Cyngor yw cadw o leiaf 5% o'r gyllideb refeniw net fel Balansau Cyffredinol (£9.208m). O ganlyniad, mae Balans Cyffredinol y Cyngor yn uwch na'r targed. Fodd bynnag, gyda'r pwysau cost a galw presennol sy'n codi'r costau sy'n wynebu'r Cyngor, mae'r llethr hwn yn cynnig mwy o sefydlogrwydd ariannol i'r Cyngor yn enwedig gyda'r materion cyllido sy'n effeithio ar y Llywodraeth a'r holl sefydliadau sector cyhoeddus.

Dangosodd y perfformiad ariannol ar gyfer 2024/25 danwariant net o £3.868m. Mae hyn yn cynnwys gorwariant o rai gwasanaethau megis gorwariant o £1.948m yn y Gwasanaethau Plant sydd wedi profi mwy o alw. Tanwariodd y Gwasanaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo £711k. Roedd y mwyafrif sylweddol o hyn o'r Gwasanaeth Prifffyrdd oherwydd incwm dros ben. Mae'r lefelau uchel parhaus o gyfraddau llog gan Fanc Lloegr yn elwa ar y Cyngor gan fod y llog a dderbynnir o'i fuddsoddiad o arian dros ben yn parhau i gynhyrchu lefelau llog llawer uwch na'r fyddde'r degawd diwethaf.

Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn y llog yn parhau i effeithio'n negyddol ar y cyfle i'r Cyngor fenthylg i'r dyfodol ar gyfer prosiectau cyfalaf gan ei fod yn gostus i fenthylg er gwaethaf y lleihad cymedrol yn y gyfradd sylfaenol gan Fanc Lloegr. Mae hyn oherwydd ansicrwydd o ddigwyddiadau byd-eang. Ni chymerwyd benthylciad allan yn 2024/25 a bydd y Cyngor yn defnyddio balansau arian parod cyhyd â phosibl i arbed costau benthylca er bod hyn yn lleihau'r swm sydd ar gael i'w fuddsoddi.

Cyfrif Refeniw Tai

Roedd balans Cyfrif Refeniw Tai'r Cyngor yn £7.977m. Gan gynnwys y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf ar 31 Mawrth 2025. Mae'r grnafa wedi'i chlustnodi i ariannu cost datblygu eiddo newydd fel y nodir yng Nghynllun Busnes HRA 30 mlynedd y Cyngor. Bydd y cydbwysedd hwn yn oedi'r angen i'r CRT fenthylca ar gyfer adnewyddu neu adeiladu anheddau cyngor newydd. Mae'r CRT wedi cael blwyddyn lwyddiannus iawn o wella, prynu ac adeiladu anheddau cyngor newydd ac oherwydd y lefelau uchel o grantiau allanol nid yw hyn wedi effeithio'n sylweddol ar falansau'r CRT yn 2024/25.

Darpariaethau

Cyfanswm y darpariaethau a oedd gan y Cyngor oedd £4.703m ar 1 Ebrill 2024. Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd y balans o £2.387m i £2.316m. Cynyddodd y ddarpariaeth yswiriant i £581k yn unol â'r angen amcangyfrifedig. Cyfanswm y darpariaethau tymor byr oedd £662k, i ddarparu ar gyfer costau disgwylidig yn y dyfodol a allai godi o rwymedigaethau'r gorffennol. Gostyngwyd cyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer Safle Gwastraff Penhesgyn gan £2.593m oherwydd cost y gwaith gwella a wnaed ar y safle tirlenwi yn 2024/25 a symud £2.464m i arian wrth gen clustnodedig. Dangosir manylion y symudiadau mewn darpariaethau yn Nodyn 21 i'r Cyfrifon - Darpariaethau.

Pensiynau

Cynllun Pensiwn Athrawon - Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r cynllun yn rhoi buddion penodol i athrawon ar ôl iddynt ymddeol ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y costau drwy wneud cyfraniadau yn seiliedig ar ganran o gyflogau pensiynadwy aelodau.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion a gweithwyr eraill, mae'r Cyngor yn cynnig buddion ymddeol drwy gymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae hwn yn gynllun a gyllidir, sy'n golygu bod y Cyngor a gweithwyr yn talu cyfraniadau i'r gronfa, wedi ei gyfrifo ar lefel a fwriedir i gydbwysu rhwymedigaethau'r pensiwn gydag asedau buddsoddi. Ni fydd buddion yn daladwy hyd nes y bydd gweithwyr yn ymddeol, ond mae gan y Cyngor ymrwymiad i wneud y taliadau i'r Gronfa Bensiwn y mae angen eu datgelu ar yr adeg y mae'r gweithwyr yn ennill eu hawl yn y dyfodol.

Mae dau brisiad wedi'u cwblhau ar gyfer y gronfa pensiwn. Mae'r rhain yn cael eu cwblhau gan Actiwari sy'n arbenigwr prisio pensiwn. Y cyntaf yw'r prisiad cyllido sy'n cael ei gwblhau bob tair blynedd. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn ystyried yr asedau gwirioneddol y buddsoddi'r gronfa ynddynt ar y dyddiad prisio ac yn asesu a fydd yr enillion ar yr asedau yn ariannu gwerth yr holl daliadau yn y dyfodol yn llawn i aelodau yn seiliedig ar yr holl fudd-daliadau a enillir hyd at y dyddiad prisio. Yna gostyngir gwerth presennol y rhwymedigaethau, fel bod y gwerth yn cael ei droi i'w gwerth fel ar y dyddiad prisio. Os yw'r prisiad yn cyfrifo nad yw'r gronfa pensiwn yn cael ei hariannu'n llawn, yna bydd cyfraddau cyfraniadau'r Cyngor yn cynyddu i symud tuag at gyllid o 100% dros gyfnod o amser y cytunwyd arno. Os yw'r prisiad yn dangos bod y cynllun yn fwy na 100% wedi'i ariannu, yna gall cyfraniadau i'r gronfa pensiwn leihau.

Yr ail brisiad yw'r prisiad cyfrifeg (a ddefnyddir at ddibenion y cyfrifon hyn) sy'n fwy damcaniaethol ac yn rhagweld beth fyddai atebolrwydd neu ased y Cyngor pe bai'r gronfa pensiwn yn peidio â bodoli. Mae'r prisiad hwn yn seiliedig ar asedau a rhwymedigaethau ar ddyddiad y fantolen. Mae'n ddamcaniaethol oherwydd y rheolau a'r rheoliadau i ddiogelu'r gronfa pensiwn i sicrhau ei bod yn bodoli cyhyd ag y mae rhwymedigaethau'r gronfa pensiwn yn gofyn ac

oherwydd y rhagdybiaethau y mae'n ofynnol i'r Actiwari eu gwneud. Mae hyn yn seiliedig ar ofynion cyfrifyddu nad ydynt yn effeithio ar gronfeydd gwirioneddol y Cyngor. Mae canlyniadau'r prisiad cyllid yn effeithio ar arian y cyngor yn unig.

Y prisiad cyfrifeg pensiwn yw'r gwerth a adroddir bob blwyddyn yn natganiad cyfrifon y Cyngor. Mae rhai taliadau yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, CIES ac adroddir y prisiad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn y fantolen. Fodd bynnag, mae'r rhain yn cael eu gwrthbwysu gan addasiadau yn natganiad y symudiad mewn cronfeydd wrth gefn i'w canslo fel nad oes angen i'r dreth gyngor ariannu'r addasiadau cyfrifeg statudol hyn.

Yn hanesyddol, mae mantolen y Cyngor wedi dangos bod gwerth y Gronfa Bensiwn fel atebolrwydd sylweddol. Mae gwerth teg holl fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiwnau yn cael ei wrthbwysu yn erbyn gwerth presennol rhwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn ond fel arfer nid yw'n ddigon i dalu am holl werth presennol amcangyfrifedig y rhwymedigaethau pensiwn.

Yn debyg i'r llynedd, mae prisiad cyfrifyddu'r Actiwari wedi penderfynu bod gwerth yr asedau yn fwy na gwerth y rhwymedigaethau a bod y Gronfa Bensiwn mewn sefyllfa asedau net. Wrth lunio'r prisiad, mae'r Actiwari yn defnyddio'r gyfradd cynnyrch ar Giltiau'r Llywodraeth fel y gyfradd ddisgownt ar gyfer rhwymedigaethau yn y dyfodol. Wrth i'r gyfradd hon gynyddu, mae'r gyfradd ddisgownt yn cynyddu, sy'n cael yr effaith gyffredinol o leihau gwerth presennol rhwymedigaethau yn y dyfodol.

Fodd bynnag, nid yw'r safon cyfrifo pensiynau IAS19 a ddiweddarwyd gan IFRIC14 yn caniatáu rhoi gwybod am ased net pensiwn ar gyfer pensiynau buddion wedi'u diffinio a ariennir fel Cronfa Bensiwn Gwynedd, gan na all y Cyngor sylweddoli gwerth yr ased ar hyn o bryd. Wrth benderfynu ar y gwerth cario ar y fantolen, mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r cysyniad doeth ac mae ganddo'r sefyllfa asedau net wedi'i haddasu ar rwymedigaethau a ariennir o £139.086m i £0. Fodd bynnag, mae'r actiwari wedi cynghori y dylid dangos atebolrwydd net rhwymedigaethau heb eu hariannu ar y fantolen. Felly, mae atebolrwydd o £9.259m (£10.522m yn 2023/24) wedi'i gynnwys yn yr atebolrwydd pensiynau tymor hir ar y fantolen a ariennir gan y gronfa wrth gefn na ellir ei defnyddio ar bensiynau. Adroddir canlyniadau llawn y prisiad cyfrifeg yn y nodyn Pensiynau Llywodraeth Leol 34 ar dudalen 53.

Porthladd Rhydd

Yn dilyn cais llwyddiannus y Cyngor am statws Porthladd Rhydd, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU bellach wedi cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn. Bydd hyn, yn y man, yn datgloi £25m o arian sbarduno gan y Llywodraeth, gan alluogi'r Porthladd Rhydd i gael ei sefydlu fel endid busnes. Wedi'i arwain gan brif bartneriaid y Porthladd Rhydd – Stena Line a Chyngor Sir Ynys Môn – bydd Porthladd Rhydd Ynys Môn yn cynorthwyo i gefnogi ffyniant economaidd economi Gogledd Cymru a thu hwnt. Bydd y Porthladd Rhydd yn caniatáu i fusnesau awdurdodedig ddod ag eitemau i ardal tollau'r porthladd rhydd gyda llai o waith papur a heb orfod talu tollau tramor. Mae'n bosib hefyd na fydd rhaid i fusnesau cymeradwy dalu tollau mewnforio na thollau cartref. Gallai cwmnïau newydd sy'n sefydlu yn safle treth y Porthladd Rhydd elwa ar ryddhad treth. Dylai'r Porthladd Rhydd ddenu busnesau a buddsoddiad fydd yn arwain at greu cyfleoedd swyddi newydd a llu o fuddion ariannol a buddion eraill. Yn ystod 2024/25, creodd y Cyngor gwmni cyfyngedig drwy warant o'r enw Porthladd Rhydd Ynys Môn Cyfyngedig, mewn parodrwydd ar gyfer datblygu'r Porthladd Rhydd ymhellach i'r cam gweithredol.

Busnes Gweithredol

Paratwir y cyfrifon ar sail 'busnes gweithredol'. Mae hyn yn golygu bod y cyfrifon wedi'u paratoi ar sail bod y Cyngor yn parhau ar ei ffurf bresennol i'r dyfodol. Crëwyd Cyngor Sir Ynys Môn drwy statud / cyfraith yn 1996 a bydd yn parhau ar ei ffurf bresennol hyd nes y caiff ei newid drwy statud. Mae'r cynnydd yn y cronfeydd defnyddiol y Cyngor yn gwella hyfywedd ariannol y Cyngor ac mae'n anhebygol iawn y bydd y Cyngor yn cyflwyno hysbysiad S114 yn y flwyddyn ariannol 2025/26. Rhoddir y hysbysiadau hyn gan Gynghorau sy'n wynebu anawsterau lle mae eu gwariant yn rhagori ar eu hincwm ac maent mewn diffyg cyllideb.

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD CYFRIFON

Cyfrifoldebau Cyngor Sir Ynys Môn

Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn:-

- wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau fod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn y Cyngor hwn, y swyddog yw'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) sydd hefyd wedi'i ddynodi'n Swyddog Adran 151;
- reoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau;
- gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Adran 151

Y Swyddog Adran 151 sydd yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol â'r ymarferion priodol fel y gosodir yn y Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ("Y Côt").

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae'r Swyddog Adran 151 wedi:-

- dewis polisiau cyfrifo priodol ac yna eu defnyddio'n gyson;
- ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus;
- cydymffurfio â Chôt Ymarfer Awdurdod Lleol CIPFA.

Hefyd, mae'r Swyddog Adran 151 wedi:-

- cadw cofnodion cyfrifo priodol ac amserol;
- cymeryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Tystysgrif

Tystiaf fod y Datganiad Cyfrifon yma yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar y dyddiad cyfrifo a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025:

-Llofnodwyd:

Richard Marc Jones FCPFA

CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151

Llofnodwyd:

Cynghorydd Non Dafydd

CADEIRYDD CYNGOR SIR YNYS MÔN

Dyddiedig:

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Sir Ynys Môn

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llifoedd Arian Parod, y Datganiad Symud ar y Cyfrif Refeniw Tai, Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasedd arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31 Mawrth 2025 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cyngor Sir Ynys Môn i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am Cyngor Sir Ynys Môn a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 9, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg ac sy'n cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;

- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu Cyngor Sir Ynys Môn i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Sir Ynys Môn sy'n ymwneud ag:
 - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cofnodi siwrnalau anarferol;
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cyngor Sir Ynys Môn, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Sir Ynys Môn.
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;

- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Sir Ynys Môn, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru

30 Hydref 2025

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd, CF10 4BZ

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw hygyrdded gwefan Cyngor sir Ynys Môn a'r gwaith o gynnal y wefan honno; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am unrhyw newidiadau a allai fod wedi cael eu cyflwyno i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2025

Dengys y datganiad hwn gostau cyfrifo yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â darparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r symiau a gyllidir o'r trethi. Mae'r Gwasanaethau yr adroddir arnynt isod yn seiliedig ar strwythur sefydliadol y Cyngor. Mae'r Cyngor yn codi trethi i gwrdd â gwariant yn unol â rheoliadau, gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Ceir darlun o'r sefyllfa o ran trethi yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Tudalen 20

2024/25			Gwasanaethau	Nodyn	2023/24		
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net			Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000			£'000	£'000	£'000
93,410	(19,892)	73,518	Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau		86,965	(16,625)	70,340
55,416	(17,620)	37,796	Gwasanaethau Oedolion		50,771	(14,649)	36,122
23,108	(6,760)	16,348	Gwasanaethau Plant		20,661	(5,689)	14,972
10,372	(8,162)	2,210	Tai		9,756	(7,810)	1,946
31,689	(9,688)	22,001	Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff		35,261	(9,553)	25,708
21,940	(16,089)	5,851	Rheoleiddio ac Economaidd		17,000	(10,635)	6,365
7,079	(562)	6,517	Trawsnewid		7,157	(302)	6,855
25,884	(14,832)	11,052	Adnoddau		26,527	(16,244)	10,283
2,596	(545)	2,051	Busnes y Cyngor		2,144	(181)	1,963
349	(268)	81	Costau Corfforaethol a Democrataidd		1,145	(773)	372
741	(10)	731	Rheolaeth Corfforaethol		742	-	742
242	-	242	Costau heb eu ddosbarthu		27	-	27
16,364	(23,083)	(6,719)	Cyfrif Refeniw Tai (CRT)		14,978	(21,479)	(6,501)
289,190	(117,511)	171,679	Diffyg ar weithrediadau sy'n parhau		273,134	(103,940)	169,194
		19,279	Gwariant gweithredu arall	10			17,738
		2,031	Cyllido ac incwm a gwariant buddsoddi	11			9,013
		(234,111)	Trethiant ac incwm grant amhenodol	12			(208,221)
		(41,122)	(Gwarged) / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau				(12,276)
		15,865	Colledion amhariad ar asedau anghyfredol sydd wedi eu rhoi yn erbyn y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn				14,102
		(20,007)	Gwarged ar ailbrisio asedau anghyfredol				(50,441)
		139,086	Dileu Ased Pensiwn Net	9c & 34			71,144
		(138,345)	Ailfesur y rhwymedigaeth Pensiwn Net	9c & 34			(59,453)
		(3,401)	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall				(24,648)
		(44,523)	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				(36,924)

DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLIDO

Nod y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid (DGaC) yw dangos gwir effaith perfformiad ariannol y flwyddyn ar falansau'r Cyngor. Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (DIGC) yn cynnwys llawer o addasiadau cyfrifyddu megis dibrisiant ac addasiadau pensiwn, na chaniateir iddynt, yn ôl y gyfraith, gael eu cyllido gan y Dreth Gyngor. Nid yw'r rhain yn gostau gwirioneddol sy'n effeithio ar falansau defnyddiadwy'r Cyngor. Er mwyn sicrhau nad yw'r costau cyfrifyddu hyn yn effeithio ar dalwyr y dreth gyngor a chronfeydd y Cyngor, caiff y costau hyn eu canslo yn yr DGaC ac fe'u dangosir hefyd yn y Datganiad Symud mewn Cronfeydd Wrth Gefn (DSCWG) a Nodyn 6.

2024/25			Gwasanaethau	2023/24		
Gwariant Net a godir i'r Gronfa Cyffredinol a Balansau'r CRT - A = C - B	Addasiadau rhwng Sail Cyllido a Sail Cyfrifo - B	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr -C		Gwariant Net a godir i'r Gronfa Cyffredinol a Balansau'r CRT - A = C- B	Addasiadau rhwng Sail Cyllido a Sail Cyfrifo - B	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - C
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
67,309	6,209	73,518	Cyfarwyddwr Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau	63,418	6,922	70,340
37,626	170	37,796	Gwasanaethau Oedolion	35,341	781	36,122
16,304	44	16,348	Gwasanaethau Plant	14,640	332	14,972
2,254	(44)	2,210	Tai	1,917	29	1,946
16,058	5,943	22,001	Priffydd, Eiddo a Gwastraff	19,853	5,855	25,708
5,250	601	5,851	Rheoleiddio a Economaidd	5,201	1,164	6,365
6,228	289	6,517	Trawsnewid	6,334	521	6,855
11,150	(98)	11,052	Adnoddau	10,195	88	10,283
2,087	(36)	2,051	Busnes y Cyngor	1,925	38	1,963
676	(595)	81	Costau Corfforaethol a Democrataidd	1,361	(989)	372
751	(20)	731	Rheolaeth Corfforaethol	731	11	742
-	242	242	Costau heb eu dosbarthu	-	27	27
16,535	(23,254)	(6,719)	Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	9,489	(15,990)	(6,501)
182,228	(10,549)	171,679	Cost Net Gwasanaethau	170,405	(1,211)	169,194
(188,427)	(24,374)	(212,801)	Incwm a Gwariant Arall	(165,429)	(16,041)	(181,470)
(6,199)	(34,923)	(41,122)	(Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	4,976	(17,252)	(12,276)
(49,838)	Yn cynnwys: Cronfa'r Cyngor CRT		Balans agoriadol y Gronfa Cyffredinol a'r CRT ar 1 Ebrill	(54,814)	Yn cynnwys: Cronfa'r Cyngor CRT	
(6,199)			Llai diffyg ar falans y Gronfa Cyffredinol a'r CRT yn y flwyddyn	4,976		
(56,037)			Balans cau y Gronfa Cyffredinol a'r CRT ar 31 Mawrth	(49,838)		
(48,060)				(41,140)		
(7,977)				(8,698)		
(56,037)				(49,838)		

DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2025

Dengys y Datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor, wedi eu dadansoddi'n 'Gronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny y gellir eu defnyddio i gyllido gwariant neu leihau trethi lleol) a chronfeydd wrth gefn eraill. Mae'r llinell (Diffyg) / Gwarged ar ddarparu gwasanaethau'n dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, gyda manylion pellach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae hwn yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n rhaid eu codi ar Falans Cronfa'r Cyngor i bwrpas pennu'r Dreth Gyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai i bwrpas pennu rhenti. Mae'r llinell '(Gostyngiad)/Cynnydd Net cyn Trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn' clustnodedig yn dangos y symudiad yn y flwyddyn o falansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai cyn i'r Cyngor wneud unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig.

	Balans Cronfa'r Cyngor £'000	Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig Cronfa'r Cyngor (Nodyn 7) £'000	Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaif (Nodyn 8) £'000	Grantiau Cyfalaif heb eu defnyddio £'000	Balansau Ysgollion (Nodyn 7) £'000	Arian wrth Gefn Yr Brwdd Uchelgais £'000	Cyfanswm Cronfa y Cyngor wrth gefn y gellir ei defnyddio £'000	Balans CRT (Datganiadau Ariannol Atodol) £'000	Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig CRT (Nodyn 8) £'000	Cyfanswm cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio gan CTA £'000	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy £'000	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Na ellir eu defnyddio (Nodyn 9) £'000	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn (y Cyngor) £'000
Balans ar 1 Ebrill 2023	14,039	19,637	1,908	407	6,716	-	42,707	12,107	-	12,107	54,814	349,836	404,650
Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn													
Addasiadau i'r balans agoriadol											-		-
Gwarged / (Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau	(150)	-	-	-	-	-	(150)	12,426	-	12,426	12,276	-	12,276
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	24,647	24,647
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(150)	-	-		-	-	(150)	12,426	-	12,426	12,276	24,647	36,923
Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido yn unol â'r rheoliadau (Nodyn 6)	(1,337)	-	482	(407)	-	-	(1,262)	(16,499)	509	(15,990)	(17,252)	17,252	-
Cynnydd / (Gostyngiad) Net cyn trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig	(1,487)	-	482	(407)	-	-	(1,412)	(4,073)	509	(3,564)	(4,976)	41,899	36,923
Trosglwyddiadau i / (o) Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig (Nodyn 7)	3,053	(3,120)	-	464	(1,139)	587	(155)	155	-	155	-	-	-
(Gostyngiad) / Cynnydd yn ystod y flwyddyn	1,566	(3,120)	482	57	(1,139)	587	(1,567)	(3,918)	509	(3,409)	(4,976)	41,899	36,923
Balans ar 31 Mawrth 2024	15,605	16,517	2,390	464	5,577	587	41,140	8,189	509	8,698	49,838	391,735	441,573
Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn													
Addasiadau i'r balans agoriadol													
Gwarged / (Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau	18,360	-	-	-	-	-	18,360	22,762	-	22,762	41,122	-	41,122
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	3,401	3,401
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	18,360	-	-	-	-	-	18,360	22,762	-	22,762	41,122	3,401	44,523
Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido yn unol â'r rheoliadau (Nodyn 6)	(11,202)		226	(464)	-	-	(11,440)	(22,974)	(509)	(23,483)	(34,923)	34,923	-
Cynnydd / (Gostyngiad) Net cyn trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig	7,158	-	226	(464)	-	-	6,920	(212)	(509)	(721)	6,199	38,324	44,523
Trosglwyddiadau net i(o)													
Trosglwyddiadau i / (o) Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig	(4,603)	4,242	-	538	(503)	326	-	-	-	-	-	-	-
(Gostyngiad) / Cynnydd yn ystod y flwyddyn	2,555	4,242	226	74	(503)	326	6,920	(212)	(509)	(721)	6,199	38,324	44,523
Balans ar Mawrth 2025	18,160	20,759	2,616	538	5,074	913	48,060	7,977	-	7,977	56,037	430,059	486,096

FANTOLEN AR 31 MAWRTH 2025

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Cyngor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyngor (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyd-fynd â'r cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal gan y Cyngor. Adroddir ar gronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yn gronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio, h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny y gall y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn y gellir ond ei defnyddio ar gyfer gwariant cyfalaf neu i dalu dyledion). Yr ail gategori o gronfeydd wrth gefn yw'r rheini na all y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu, lle byddai'r arian ond ar gael i ddarparu gwasanaethau petai'r asedau'n cael eu gwerthu (er enghraifft y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn) a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau amseru a ddangosir yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn, llinell 'Addasiadau rhwng Sail Gyfrifo A Sail Gyllido Dan y Rheoliadau'.

Nodyn		31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2024 £'000
Eiddo, offer a chyfarpar	13	580,318	540,785
Asedau Treftadaeth	15	2,299	2,413
Eiddo Buddsoddi	16	10,068	7,484
Asedau Anniriaethol		175	261
Dyledwyr tymor hir	18	1,625	1,032
Asedau hawl defnydd tymor hir	43	1,857	-
Asedau tymor hir		596,342	551,975
Asedau a ddelir i'w gwerthu		833	619
Rhestrau stoc		421	401
Dyledwyr tymor byr	18	67,895	50,651
Buddsoddiadau tymor byr	35a	-	-
Arian a chywerthoedd arian	19	13,571	32,107
Asedau Cyfredol		82,720	83,778
Benthycia tymor byr	35b	(2,206)	(3,341)
Credydwyr tymor byr	20	(41,257)	(40,161)
Darpariaethau tymor byr	21	(749)	(456)
Derbyniadau grantiau ymlaen llaw	30	(13,104)	(10,487)
Rhwymedigaethau hawl defnydd tymor byr	43	(427)	-
Rhwymedigaethau Cyfredol		(57,743)	(54,445)
Credydwyr tymor hir	20	(255)	(166)
Darpariaethau tymor hir	21	(1,567)	(4,247)
Benthycia tymor hir	35b	(121,726)	(121,175)
Derbyniadau grantiau tymor hir ymlaen llaw	30	(1,349)	(3,625)
Rhwymedigaethau tymor hir eraill	34	(9,259)	(10,522)
Rhwymedigaethau hawl defnydd tymor hir	43	(1,067)	-
Rhwymedigaethau tymor hir		(135,223)	(139,735)
Asedau net		486,096	441,573
Cronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio	MIRS	56,037	49,838
Cronfeydd wrth gefn nad na ellir eu defnyddio	9	430,059	391,735
Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn		486,096	441,573

DATGANIAD LLIF ARIAN – AM Y FLWYDDYN A DDAETH i BEN 31 MAWRTH 2025

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian parod a chywerthoedd arian y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol. Dengys y datganiad sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu a defnyddio arian parod a chywerthoedd arian trwy ddosbarthu llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyngor a gyllidir trwy drethiant ac incwm grant neu gan dderbynwyr y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae'r gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli'r all-lif arian ar gyfer adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol. Mae'r llif arian sy'n codi o weithgareddau cyllido'n ddefnyddiol i ragweld yr hawl a fydd gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) ar lif arian y Cyngor yn y dyfodol.

Tudalen 24

	Nodyn	2024/25 £'000	2023/24 £'000
Gwarged /(Diffyg) Net ar Ddarparu Gwasanaethau		41,122	12,276
Eitemau di-arian a godir ar gyfrifon Incwm a Gwariant	22	28,946	37,140
Eitemau arian ni chodir ar gyfrif Incwm a Gwariant	22	(12,774)	(11,980)
Symudiad mewn Asedau Cyfredol net	22	(18,721)	(2,359)
Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu cyllido	22	(38,773)	(26,076)
Llif arian net o Weithgareddau Gweithredu		(200)	9,001
Llif arian net o Weithgareddau Buddsoddi	23	(17,413)	4,518
Llif arian net o Weithgareddau Cyllido	24	(923)	(1,152)
(Gostyngiad)/Cynnydd Net mewn Arian Parod a Chywerthoedd Arian		(18,536)	12,367
Arian Parod a Chywerthoedd Arian ar gychwyn y flwyddyn ariannol		32,107	19,740
Arian Parod a Chywerthoedd Arian ar ddiwedd y flwyddyn ariannol	19	13,571	32,107

NODIADAU I'R CYFRIFON

NODYN 1 – NODYN AR Y DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLIDO

2024/25

Addasiadau o'r Gronfa Cyffredinol i gael Symiau'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau Ar Gyfer Dibenion Cyfalaf £'000	Newid Net Ar Gyfer yr Addasiadau Pensiwn £'000	Gwahaniaethau statudol eraill £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Addysg, Pobl ifanc a Sgiliau	6,127	(375)	457	6,209
Gwasanaethau Oedolion	587	(326)	(91)	170
Gwasanaethau Plant	261	(196)	(21)	44
Tai	35	(47)	(32)	(44)
Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff	6,062	(187)	68	5,943
Rheoleiddio a Economaidd	745	(180)	36	601
Trawsnewid	384	(99)	4	289
Adnoddau	-	(87)	(11)	(98)
Busnes y Cyngor	1	(36)	(1)	(36)
Costau Corfforaethol a Democrataidd	452	(1,047)	-	(595)
Rheolaeth gorfforaethol	-	-	(20)	(20)
Costau Na Ddosbarthwyd	-	242	-	242
Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	(23,084)	(93)	(77)	(23,254)
Cost net Gwasanaethau	(8,430)	(2,431)	312	(10,549)
Incwm a Gwariant arall o'r Dadansoddiad Cyllido	(24,801)	427	-	(24,374)
Gwahaniaeth rhwng y Gronfa Cyffredinol a'r CRT (Gwarged) neu Ddiffyg a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Gwarged) neu Ddiffyg	(33,231)	(2,004)	312	(34,923)

2023/24

Addasiadau o'r Gronfa Cyffredinol i gael Symiau'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau Ar Gyfer Dibenion Cyfalaf £'000	Newid Net Ar Gyfer yr Addasiadau Pensiwn £'000	Gwahaniaethau statudol eraill £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Dysgu Gydol Oes	7,784	(42)	(820)	6,922
Gwasanaethau Oedolion	624	(38)	195	781
Gwasanaethau Plant	222	(22)	132	332
Tai	1	(5)	33	29
Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff	5,796	(20)	79	5,855
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	1,101	(24)	87	1,164
Trawsnewid	484	(12)	49	521
Adnoddau	-	(10)	98	88
Busnes y Cyngor	-	(5)	43	38
Costau Corfforaethol a Democrataidd	(11)	(978)	-	(989)
Rheoli Corfforaethol	-	-	11	11
Costau Na Ddosbarthwyd	-	27	-	27
Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	(16,093)	(14)	117	(15,990)
Cost net Gwasanaethau	(92)	(1,143)	24	(1,211)
Incwm a Gwariant arall o'r Dadansoddiad Cyllido	(16,014)	(27)	-	(16,041)
Gwahaniaeth rhwng y Gronfa Cyffredinol a'r CRT (Gwarged) neu Ddiffyg a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Gwarged) neu Ddiffyg	(16,106)	(1,170)	24	(17,252)

NODYN 2 – SAFONAU CYFRIFO SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND NAD YDYNT WEDI EU MABWYSIADU HYD YMA

Mae'r safonau a gyflwynwyd gan Gòd 2025/26, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol cynnwys datgeliadau yn natganiadau ariannol 2024/25, yn unol â pharagraff 3.3.4.3 o'r Cod, yn cynnwys:

- 2.1 IAS 21 Effaith Newidiadau mewn Cyfraddau Cyfnewid Arian Tramor (Diffyg Cyfnewidiadwyedd)** a gyhoeddwyd ym mis Awst 2023. Mae'r newidiadau i IAS 21 yn egluro sut y dylai endid asesu p'un a yw arian yn gyfnewidiadwy ai peidio a sut y dylai bennu cyfradd cyfnewid pan fo diffyg cyfnewidiadwyedd, yn ogystal â datgelu gwybodaeth sy'n galluogi'r rhai sy'n defnyddio datganiadau ariannol i ddeall effaith arian nad oes modd ei gyfnewid. Ar adegau prin mae'r Cyngor yn prynu nwyddau/gwasanaethau gan sefydliadau tramor. Maent fel arfer yn danysgrifiadau a thrwyddedau â gwerth isel. Mae'r rhain mewn arian cyfnewidiadwy ac felly ni fydd y newidiadau i IAS21 yn effeithio ar y Cyngor.
- 2.2 IFRS 17 Contractau Yswiriant** a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017. Mae IFRS 17 yn disodli IFRS 4 ac mae'n nodi'r egwyddorion ar gyfer cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu contractau yswiriant. Mae hyn yn effeithio ar ddarparwyr yswiriant yn bennaf yn hytrach na chwsmeriaid ond fe all effeithio ar gostau yswiriant y Cyngor os ydi'r gofynion newydd yn effeithio ar sefydlogrwydd ac elw cwmnïau yswiriant.
- 2.3** Mae'r newidiadau yng nghod 2024/25 i'r modd y caiff asedau anfuuddsoddadwy eu mesur yn cynnwys addasu a dehongli IAS 16 *Eiddo, Offer a Chyfarpar* ac IAS 38 *Asedau Anghyffwrddadwy*. Mae'r rhain yn cynnwys nodi tair proses ar gyfer ail werthuso eiddo, offer a chyfarpar, sy'n golygu mynegeo asedau diriaethol anfuuddsoddadwy a phennu gwerth ar asedau anniriaethol gan ddefnyddio'r dull costio hanesyddol. Pwrpas mynegeo gwerth asedau yw sicrhau bod yr ased yn faterol gyfredol. Ni fydd y newidiadau'n effeithio 2024/25 gan nad yw'r newidiadau'n ôl-weithredol.

NODYN 3 – BARNAU ALLWEDDOL WRTH WEITHREDU'R POLISIÂU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisiâu cyfrifo a restrir yn Nodyn 44, mae'r Cyngor wedi gorfod gwneud barnau penodol ynglŷn â thrafodion cymhleth neu rheini sydd yn cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau yn y dyfodol. Y barnau allweddol sydd wedi eu gwneud yn y Datganiad Cyfrifon yw:-

- Mae'r Cyfrifon wedi cael eu paratoi mewn modd sy'n tybio y bydd y swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn parhau i fod yn weithredol am y dyfodol rhagweladwy. Corff llywodraeth leol yw'r Cyngor a grëwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Mae'r Cyngor yn gweithredu o fewn hinsawdd ariannol anodd, yr un modd â phob awdurdod lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, ni cheir unrhyw arwyddion naill ai o berfformiad ariannol yr Awdurdod na chynlluniau Llywodraeth Cymru sy'n tanseilio'r farn y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu fel sefydliad hyfyw yn y dyfodol.
- Mae'r Cyngor wedi penderfynu nad yw nifer o asedau a ddefnyddir i ddibenion cymdeithasol neu ddatblygu economaidd, stad tyddynnod Cyngor yw'r un mwyaf nodedig yn cael eu dal i bwrpas creu incwm neu gynyddu cyfalaf yn unig ac, o'r herwydd, nid ydynt yn cael eu hystyried fel eiddo buddsoddiad. O ganlyniad, caiff yr asedau hyn eu nodi fel Asedau Anghfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar ar y Fantolen.

NODYN 4a – RHAGDYBIAETHAU A WNAED YNGHYLCH ANSICRWYDD YN Y DYFODOL AC AMCANGYFRIFON A FFYNONELLAU ERAILL O ANSICRWYDD

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar ragdybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyngor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Gwneir amcangyfrifon drwy ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir bennu balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r rhagdybiaethau ac amcangyfrifon.

Gellir ystyried yr eitemau canlynol ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2025 fel rhai sydd fwyaf agored i risg o gamgymeriad amcangyfrif yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod: -

Asedau Anghyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar (PPE) - Mae asedau yn cael eu dibrisio dros eu hoes fuddiol yn unol ag arferion safonol cyfrifo. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng y dibrisiant a gwir ddirywiad yr ased ei adlewyrchu ym mhatrymau gwariant y dyfodol. Mae gwybodaeth ynglŷn ag Eiddo, Offer a Chyfarpar wedi ei gynnwys yn Nodyn 13 a nodyn 13b Asedau Seilwaith. Gwerth asedau PPE y Cyngor ar 31 Mawrth 2025 oedd £580.318m (£540.785m 31 Mawrth 2024).

Darpariaethau – Mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaethau sy'n cyfateb i £2.316m (£4.703m ar 31 Mawrth 2024) ar gyfer materion ansicr all arwain at gostau sylweddol mewn blynyddoedd i ddod. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â chostau ôl-ofal ar gyfer safle tirlenwi Penhesgyn a rhwymedigaethau posibl sy'n deillio o hawliadau yswiriant. Ceir manylion llawn yn Nodyn 21.

Rhwymedigaeth Pensiynau – Yn debyg i'r llynedd, mae Actiwari'r Cyngor wedi gwerthfawrogi'r Gronfa Bensiwn i sefyllfa dros ben ac felly ased pensiwn net o £139.086m heb gynnwys rhwymedigaethau pensiwn heb eu hariannu o £9,259m. Mae'r gwarged hwn wedi'i leihau i ddim o ganlyniad i reolau pensiynau sy'n cyfyngu ar adrodd ar ased pensiynau net yn y fantolen. Mae hyn oherwydd newid yn y tybiaethau y mae'r Actiwari wedi'u defnyddio mewn perthynas â'r ffactor disgownt oherwydd cynnydd mewn llog a chyfraddau bond. Defnyddir hyn i gyfrifo faint fydd rhwymedigaethau pensiwn y dyfodol ar brisiau heddiw, fel y gellir ei gymharu â gwerth cyfredol/gwerth marchnadol buddsoddiadau ac asedau. (adroddwyd am ased o £71.145m heb gynnwys rhwymedigaethau heb eu hariannu am y gwerth ar 31 Mawrth 2024). Mae atebolrwydd net o £9.259m (£10.522m ar 31 Mawrth 2024) yn parhau i fod ar atebolrwydd pensiwn am rwymedigaethau heb eu hariannu na ellir eu gwrthbwysu eto'r gwarged ar y gronfa pensiwn.

Mae prisiad cyfrifeg y pensiwn yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â chyfraddau disgownt, codiadau cyflog rhagamcanol, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac enillion disgwylidig ar asedau pensiwn. Mae cwmni o actiwariâu ymgynghorol yn cael ei gyflogi gan y Cyngor gweinyddu i roi cyngor arbenigol ar y rhagdybiaethau sydd i'w cymhwyso. Ceir rhagor o fanylion yn Nodyn 34 a'r adroddiad naratif. Mae'r nodyn yn cynnwys y gwarged, fodd bynnag, fel yr amlinellir yn yr adroddiad naratif, nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y fantolen oherwydd cyfyngiadau a ragnodir gan IAS19 a IFRIC14 ar gyfrifo pensiynau.

Lwfans Colli Nam a darpariaethau Dyledion Gwael – Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan y Cyngor falans o £70.610m (£51.683m yn 2023/24) o ran dyledion net. Awgrymodd adolygiad o'r balans dyledion fod swm amhariad o £8.532m yn briodol ar gyfer dyledion amheus. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng lefel yr amhariad a ddefnyddiwyd a'r gwir sefyllfa ôl-ddyledion ei adlewyrchu ym mhatrwm gwariant y dyfodol. Mae'r ffigwr lwfans colledion amhariad / darpariaeth ar gyfer drwgddyledion wedi ei gynnwys yn y ffigyrau Dyledwyr Tymor Byr yn Nodyn 18.

Mesur Gwerth Teg – Mae y mwyafrif o asedau anghyfredol y Cyngor yn cael eu mesur ar Werth Teg, gyda'r eithriad o isadeiledd sydd werth £71.935m, asedau cymunedol gwerth £259k, asedau sy'n cael eu hadeiladu werth £40.293m ac offer, cerbydau a chyfarpar sydd werth £10.231m. Mae'r rhain i gyd yn cael eu prisio ar gost hanesyddol wedi'i ddibrisio.

Prydlesi – Mae'r Cyngor wedi gweithredu gofynion IFRS16 prydlesi o 1 Ebrill 2024. Mae hyn wedi arwain at amcan o'r cyfnod i rhai prydlesi ble mae contractau newydd yn parhau y tu hwnt i ddyddiad gwreiddiol y prydles. Mae cerbydau a eiddo wedi'u rhentu i leddfu digartrefedd yn tueddu i fod yn brydlesi parhaus. Lle nad yw prydles neu contract gyda mynediad at ased yn benodol am y gyfradd fuddiant wedi'i chynnwys, mae'r Cyngor yn defnyddio cyfradd annuite PWLB ar gyfer cyfnod y prydles, fel ei gyfradd benthyca ychwanegol. Mae llawer o brydlesi yn cael eu gwerthuso ar sail yr fodel costau ond mae rhai asedau, yn enwedig rhai eiddo, yn cael eu gwerthuso ar werth teg. Gweler Nodyn 43 am wybodaeth am asedau gyda hawl i'w defnyddio.

NODYN 4b – ADDASIADAU CYFNOD BLAENOROL, NEWIDIADAU MEWN POLISI'AU CYFRIFYDDU AC AMCANGYFRIFON A GWALLAU

Mae newidiadau mewn polisi'au neu amcangyfrifon cyfrifeg yn cael eu hamlinellu ar wahân uchod. Roedd yr addasiadau cyfnod blaenorol canlynol wedi'u gwneud a'u hailddatgan yn y flwyddyn gymharydd 2023/24.

Lleihad yn figwr gwariant a chyllid cyllideb Gyfun Gogledd Cymru argyfer cartefi gofal I bobl hyn gan Cyngor Bwrdeistrefol Sir Conwy (CBSC) – Nodyn 37

Mae ffigwr cyllido 2023/24 CBSC wedi ei ailddatgan i eithrio cyfraniadau gan gleientiaid, gan leihau'r ffigwr o £2.881m o ganlyniad. Yn y cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio ar gyfer 2023/24 – nodyn 37 Cyllidebau Cyfun, roedd cyfanswm y gwariant ar gostau cartrefi gofal yn £126.922 miliwn. Mae'r tabl yn dangos fod hyn wedi ailddatgan fel £124.041miliwn. Yn debyg iawn, mae cyfanswm y cyllid wedi gostwng o £126.922 miliwn i £124.041 miliwn. Mae gwerth y cyllid gam CBSC wedi lleihau o £18.182 miliwn yn y cyfrifon terfynol sydd wedi eu harchwilio ar gyfer 2023/24 ac wedi eu hailddatgan fel £15.301 miliwn fel y nodir isod.

Nodyn 37 Cyllidebau Cyfun – Ailddatgan 2023/24

Cyllideb Gyfun Gogledd Cymru ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn	2024/25 £'000	2023/24 £'000 (Ailddatgan)
Gwariant		
Costau Cartrefi Gofal*	136,047	124,041
Cyfanswm gwariant	136,047	124,041
Cyllido		
Cyngor Sir Ynys Môn	(7,126)	(7,214)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy*	(18,090)	(15,301)
Cyngor Sir Ddinbych	(12,423)	(11,914)
Cyngor Sir y Fflint	(14,980)	(13,578)
Cyngor Gwynedd	(13,084)	(12,044)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(16,470)	(14,957)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	(53,874)	(49,033)
Cyfanswm a Gyllidwyd	(136,047)	(124,041)
(Gwarged)/Diffyg a drosglwyddwyd i'r gronfa wrth gefn	-	-

*Mae ffigyrau 23/24 cyllid cartrefi gofal Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a chostau cartrefi gofal wedi ei hailddatgan

Mae cyfraniad y Cyngor yn aros yr un fath ac felly ni fyddai'n cael effaith ar gyfrifon 23/24.

NODYN 5 – DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Rhaid i'r Cyngor adrodd am ddigwyddiadau perthnasol sy'n digwydd ar ôl y cyfnod adrodd ar 31 Mawrth 2025 a hyd at y dyddiad y cafodd y cyfrifon terfynol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi ar 30 Hydref 2025.

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau perthnasol rhwng y cyfnod adrodd a'r dyddiad y cyhoeddwyd y cyfrifon drafft.

NODYN 6 – ADDASIADAU RHWNG SAIL GYFRIFO A SAIL CYLLIDO DAN REOLIADAU

2024/25	Cronfeydd wrth Gefn y mae modd eu ddefnyddio							Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn nad oes modd eu defnyddio £'000
	Balans Cronfa'r Cyngor £'000	Gwarchodfa Derbyniadau Cyfalaf £'000	Cronfa Grantiau Cyfalaf Heb ei Gymhwyso £'000	Cyfanswm Cronfa'r Cyngor £'000	Cyfrif Refeniw Tai £'000	Cyfrif Refeniw Tai £'000	Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000	
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:								
Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:								
Taliadau am dibrisiant, amhariad ac amorteiddio asedau anghyfredol	14,647	-	-	14,647	3,700	-	3,700	(18,347)
Colledion aibrisiant ar Eiddo, Offer a Chyfarpar	334	-	-	334	-	-	-	(334)
Symudiadau mewn gwerth marchnad Eiddo Buddsoddiad colled / (ennill)	(2,295)	-	-	(2,295)	-	-	-	2,295
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Anghynwysedig a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(20,453)	-	-	(20,453)	(17,430)	-	(17,430)	37,883
Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud	999	-	-	999	-	-	-	(999)
Dadgydnabod	712	-	-	712	-	-	-	(712)
Swm a gludir o asedau anghyfredol a werthwyd	235	-	-	235	843	-	843	(1,078)
Cynnwys eitemau na ddebydwyd ac na chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:	-	-	-	-	-	-	-	-
Darpariaeth Refeniw Isaf ar gyfer Cyllido Cyfalaf	(1,569)	-	-	(1,569)	(141)	-	(141)	1,710
Darpariaeth Refeniw Isaf ar gyfer prydlesu	(327)	-	-	(327)	(13)	-	(13)	340
Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn balansau'r Cronfa'r Cyngor a CRT	(2,155)	-	-	(2,155)	(9,126)	-	(9,126)	11,281
Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf:	-	-	-	-	-	-	-	-
Elw o werthu asedau anghyfredol	(258)	258	-	-	(632)	632	-	-
Defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf	-	(32)	-	(32)	-	(1,141)	(1,141)	1,173
Defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf	464	-	(464)	-	-	-	-	-
Derbyniadau cyfalaf eraill	-	-	-	-	-	-	-	-
Addasiadau'n ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:	-	-	-	-	-	-	-	-
Swm ble mae'r costau cyllido yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau cyllido priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol	(14)	-	-	(14)	(5)	-	(5)	19
Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn:	(9,680)	226	(464)	(9,918)	(22,804)	(509)	(23,313)	33,231
Addasiadau sy'n cynnwys y Gronfa Bensiynau:								
Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â budd-daliadau ymddeol a ddebyddir neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 34)	10,863	-	-	10,863	(93)	-	(93)	(10,770)
Cyfraniadau pensiwn cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	(12,774)	-	-	(12,774)	-	-	-	12,774
Cyfanswm Addasiadau Pensiynau	(1,911)	-	-	(1,911)	(93)	-	(93)	2,004
Addasiad sy'n cynnwys Cyfrif Addasu Absenoldebau Cronedig				-			-	-
Addasiadau mewn perthynas ag absenoldebau digolledu tymor byr	389			389	(77)		(77)	(312)
Cyfanswm addasiad absenoldebau cronedig	389	-	-	389	(77)	-	(77)	(312)
				-			-	-
Cyfanswm yr addasiadau	(11,202)	226	(464)	(11,440)	(22,974)	(509)	(23,483)	34,923

2023/24	Cronfeydd wrth Gefn y mae modd eu ddefnyddio							Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn nad oes modd eu defnyddio
	Balans Cronfa'r Cyngor	Gwarchodfa Derbyniadau Cyfalaf	Cronfa Grantiau Cyfalaf Heb ei Gymhwyso	Cyfanswm Cronfa'r Cyngor	Cyfrif Refeniw Tai	Cyfrif Refeniw Tai	Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:								
Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:								
Taliadau am dibrisiant, amhariad ac amorteiddio asedau anghyfredol	14,729	-	-	14,729	3,083	-	3,083	(17,812)
Colledion aibrisiant ar Eiddo, Offer a Chyfarpar	1,270	-	-	1,270	275	-	275	(1,545)
Symudiadau mewn gwerth marchnad Eiddo Buddsoddiad colled / (ennill)	5,291	-	-	5,291	-	-	-	(5,291)
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Anghynwysedig a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(17,981)	-	-	(17,981)	(7,006)	-	(7,006)	24,987
Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud	625	-	-	625	-	-	-	(625)
Dadgydnabod	130	-	-	130	-	-	-	(130)
Swm a gludir o asedau anghyfredol a werthwyd	1,058	-	-	1,058	494	-	494	(1,552)
Cynnwys eitemau na ddebydwyd ac na chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:	-	-	-	-	-	-	-	-
Darpariaeth Refeniw Isaf ar gyfer Cyllido Cyfalaf	(1,446)	-	-	(1,446)	(134)	-	(134)	1,580
Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn balansau'r Cronfa'r Cyngor a CRT	(3,576)	-	-	(3,576)	(12,800)	-	(12,800)	16,376
Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf:	-	-	-	-	-	-	-	-
Elw o werthu asedau anghyfredol	(580)	580	-	-	(509)	509	-	-
Defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf	-	(98)	-	(98)	-	-	-	98
Defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf	407	-	(407)	-	-	-	-	-
Derbyniadau cyfalaf eraill	-	-	-	-	-	-	-	-
Addasiadau'n ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:	-	-	-	-	-	-	-	-
Swm ble mae'r costau cyllido yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau cyllido priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol	(15)	-	-	(15)	(5)	-	(5)	20
Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn:	(88)	482	(407)	(13)	(16,602)	509	(16,093)	16,106
Addasiadau sy'n cynnwys y Gronfa Bensiynau:								
Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â budd-daliadau ymddeol a ddebyddir neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 34)	10,824	-	-	10,824	(14)	-	(14)	(10,810)
Cyfraniadau pensiwn cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	(11,980)	-	-	(11,980)	-	-	-	11,980
Cyfanswm Addasiadau Pensiynau	(1,156)	-	-	(1,156)	(14)	-	(14)	1,170
Addasiad sy'n cynnwys Cyfrif Addasu Absenoldebau Cronedig								
Addasiadau mewn perthynas ag absenoldebau digolledu tymor byr	(93)	-	-	(93)	117	-	117	(24)
Cyfanswm addasiad absenoldebau cronedig	(93)	-	-	(93)	117	-	117	(24)
				-			-	-
Cyfanswm yr addasiadau	(1,337)	482	(407)	(1,262)	(16,499)	509	(15,990)	17,252

NODYN 7 – CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODEDIG

	Balans ar	Trosglwyd	Trosglwyd	Balans ar	Balans	Trosglwyd	Trosglwyd	Balans ar
	31/03/2023	diadau	diadau	31/03/2024	Agoriadol	diadau	diadau	31/03/2025
	£'000	Mewn	Allan	£'000	£'000	Mewn	Allan	£'000
		2023/24	2023/24			2024/25	2024/25	
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gwasanaethau - llai na £500k*	5,855	2,780	(1,796)	6,839	5,976	3,183	(1,759)	7,400
Cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gwasanaethau - sydd ers Marwrth 2023 wedi disgyn yn llai na £500k	1,276	215	(697)	794	794	21	(131)	684
Cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gwasanaethau - sydd ers Marwrth 2024 wedi cynyddu i £500k neu fwy								
Gwastraff / Ailgylchu*	-	-	-	-	-	987	-	987
Rhesymoli Ysgolion*	-	-	-	-	402	279	(133)	548
Cronfa Ad-dalu Offer TGCh Addysg*	-	-	-	-	461	150	-	611
Cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gwasanaethau mwy - £500k neu fwy:-								
Cronfa wrth gefn Yswiriant	1,250	98	(98)	1,250	1,250	-	-	1,250
Cyfraniadau refeniw tuag at Gyfalaf nas defnyddiwyd	2,974	810	(2,444)	1,340	1,340	1,626	(1,716)	1,250
Cyfraniadau A106 Datblygwyr Tai	808	187	(155)	840	840	-	(187)	653
Tai Fforddiadwy	617	652	-	1,269	1,269	82	(649)	702
Gwaith Archeolegol yn Wylfa	522	-	(87)	435	435	-	(67)	368
Gwelliannau Hamdden	762	-	-	762	762	-	-	762
Setliad Refeniw Ychwanegol - Ymateb i Gynnydd mewn Chwyddiant	3,177	-	(1,462)	1,715	1,715	-	(723)	992
Addysg Allsirol	500	-	-	500	500	-	-	500
Cartrefi i Ucrain	467	75	(23)	519	519	80	(165)	434
Risk Ad-dalu Treth y Cyngor	-	-	-	-	-	900	-	900
Cyllid o'r Gronfa wrth gefn Cyffredinol ar gyfer Cronfeydd wrth Gefn Cyfalaf	1,429	-	(1,175)	254	254	-	-	254
Cwlfert Safle Penhesgyn	-	-	-	-	-	2,464	-	2,464
Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd	19,637	4,817	(7,937)	16,517	16,517	7,308	(5,530)	20,759
Balansau Ysgolion	6,716	5,654	(6,793)	5,577	5,577	5,223	(5,726)	5,074
Cyfanswm	26,353	10,471	(14,730)	22,094	22,094	12,531	(11,256)	25,833

*Mae tair cronfa wedi cynyddu i dros £500k yn ystod y flwyddyn felly mae balans agoriadol ar gyfer y flwyddyn wedi ei addasu i adlewyrchu hyn.

Y cronfeydd wrth gefn mwyaf arwyddocaol yw:

Gwastraff / Ailgylchu – defnyddir y gronfa yma i ariannu prosiectau rheoli gwastraff yn y dyfodol.

Rhesymoli Ysgolion – i'w ddefnyddio ar gyfer rhesymoli ysgolion.

Cronfa Ad-dalu Offer TGCh Addysg - mae hon ar gyfer ariannu costau amnewid offer TG mewn ysgolion.

Cronfa wrth Gefn Yswiriant – ar gyfer ariannu colledion nad oes yswiriant ar eu cyfer a thaliadau dros ben polisïau yswiriant.

Cyfraniadau Refeniw nas Defnyddiwyd ar gyfer Cyfalaf – cronfa wrth gefn yw hon sydd yn cynnwys cyfraniadau refeniw tuag at brosiectau nad ydynt wedi cael eu cwblhau, neu sydd wedi cael eu cyllido gan grant cyffredinol, er mwyn gostwng costau cyllido cyfalaf. Lle mae prosiectau wedi derbyn cyllid arall, mae'n rhyddhau'r cyfraniad refeniw i gyllido prosiect arall yn y dyfodol, unwaith eto i ostwng costau cyllido cyfalaf.

Cyfraniadau A106 Datblygwyr Tai – cyfraniadau a dderbyniwyd gan ddatblygwyr a fydd yn ael ei ddefnyddio i gyllido prosiectau o fewn termau'r cytundeb.

Tai Fforddiadwy – mae'r gronfa wrth gefn hon ar gyfer ariannu prosiectau fydd yn cynyddu'r stoc o dai fforddiadwy ar Ynys Môn.

Gwaith Archeolegol yn Wylfa – mae hon yn gronfa a sefydlwyd i gwblhau gwaith archeolegol ar y safle, a oedd cyn hynny'n cael ei ddatblygu ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd gan Horizon Nuclear Power Ltd. Cyfyngir hyn i waith y cytunwyd arno rhwng y Cyngor a Horizon.

Gwelliannau Hamdden – cyllidir y gronfa wrth gefn hon o daliad annisgwyl a dderbyniwyd gan CThEM ar ôl i CThEM golli achos llys a oedd yn dadlau na ddylai CThEM gasglu TAW ar wasanaethau hamdden. Derbyniodd y Cyngor ad-daliad o bron i £900k gan CThEM. Defnyddir y balans cyfredol o £762k i gyllido gwelliannau i gyfleusterau Hamdden y Cyngor ar Ynys Môn.

Setliad Refeniw Ychwanegol – mae hwn i ariannu pwysau annisgwyl o ganlyniad i chwyddiant yn ystod y flwyddyn ariannol.

Addysg Allsirol – defnyddir y gronfa hon i leihau'r risg sy'n gysylltiedig â'r gyllideb a arweinir gan y galw ac ariannu cynnydd annisgwyl yn ystod y flwyddyn.

Cartrefi i Wcráin – cymorth i deuluoedd o'r Wcráin i sefydlu bywyd yng Nghymru.

Arian wrth Gefn Risg Treth Cyngor – i ariannu unrhyw ad-daliadau treth gyngor sy'n deillio o apeliadau llwyddiannus gan berchnogion llety hunanarlwyo y trosglwyddwyd eu heiddo o'r gofrestr Trethi Annomestig i'r gofrestr Treth Gyngor o 1 Ebrill 2023 ymlaen.

Cyllid o'r Gronfa wrth gefn Cyffredinol ar gyfer Cronfeydd wrth Gefn Cyfalaf – defnyddir cyllideb sydd heb we wario i gefnogi prosiectau cyfalaf yn unol â gofynion grant.

Cwlfert Safle Penhesgyn – mae hwn i ariannu unrhyw waith atal llifogydd posib ac atgyweirio arwyddocaol posib fydd y cwlfert ar safle Penhesgyn ei angen pe bai'r cwlfert yn methu'n gyfan gwbl yn y dyfodol.

Balansau Ysgolion – Cedwir y balansau hyn ar gyfer defnydd pob ysgol yn unol â'u hamcanion addysgol. Ar 31 Mawrth 2025, roedd pedwar o'r tri deg wyth ysgol gynradd gyda balansau mewn diffyg (dim ar 31 Mawrth 2024). Nid oedd yr un o'r pum ysgol uwchradd mewn sefyllfa ddiffygiol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (dim ar 31 Mawrth 2024), nid yw'r ysgol arbennig mewn sefyllfa ddiffygiol ar 31 Mawrth 2025. Gwerth cyfunol yr ysgolion mewn diffyg yw £194k (£267k ar 31 Mawrth 2024). Gellir cael copïau o'r Datganiadau Adran 52, y mae'n ofynnol i bob Cyngor ei baratoi ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol o dan Adran 52(2) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, gan yr Adain Gyfrifeg, Swyddogaeth Adnoddau, Swyddfeydd y Sir, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW.

NODYN 8 – CRONFA WRTH GEFN DERBYNIADAU CYFALAF

Dyma dderbyniadau arian parod o werthu asedau'r Cyngor. Defnyddir rhain i gyllido gwariant cyfalaf yn y flwyddyn neu i ddwyn ymlaen am flynyddoedd yn y dyfodol. Bydd balans o £2.616m yn cael ei ddwyn ymlaen i 2024/25 i helpu cyllido rhaglen gyfalaf flwyddyn nesaf.

	2024/25 £'000	2023/24 £'000
Balans 1 Ebrill	2,899	1,908
Derbyniadau Cyfalaf yn y Flwyddyn (net o leihad ar gyfer costau gweinyddu)	890	1,089
	3,789	2,997
Llai:		
Derbyniadau a roddwyd o'r neilltu i ad-dalu dyledion	-	-
Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddiwyd i gyllido	(1,173)	(98)
Eraill	-	-
Balans ar 31 Mawrth	2,616	2,899

NODYN 9 - CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO

	31/03/2025 £'000	31/03/2024 £'000
a) Cyfrif Addasu Cyfalaf	238,941	200,735
Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol	(289)	(308)
b) Cronfa Ailbrisant Wrth Gefn	204,192	205,044
c) Cronfa Wrth Gefn Pensiwn	(9,259)	(10,522)
ch) Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol	(3,526)	(3,214)
Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu Defnyddio	430,059	391,735

NODYN 9a – CYFRIF ADDASU CYFALAF

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer cyfrifo defnydd asedau anghyfredol a chyllido'r broses o gaffael, adeiladu, neu wella'r asedau hynny dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda chostau megis dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddiad sy'n cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a gydag arian a symudwyd o'r Gronfa Ailbrisant Wrth Gefn i drosi ffigyrau gwerth teg i sail cost hanesyddol.

Credyd'r y Cyfrif gyda symiau a osodwyd o'r neilltu gan y Cyngor fel cyllid ar gyfer costau caffael, adeiladu, a gwella. Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronnus ar Eiddo Buddsoddiad.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisant cronnus ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y crëwyd y Gronfa Ailbrisant Wrth Gefn i ddal y fath enillion. Mae Nodyn 6 yn rhoi manylion ffynhonnell yr holl drafodion a symudwyd i'r Cyfrif, heblaw am y rheini a oedd yn ymwneud â'r Gronfa Ailbrisant Wrth Gefn.

Cyfrif Addasu Cyfalaf	2024/25		2023/24	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill		200,735		179,955
Gwyrddroad eitemau yn ymwneud â gwariant cyfalaf wedi'u debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:				
Taliadau am ddibrisiant, amhariad ac amorteiddiad asedau anghyfredol	(18,347)		(17,812)	
Asedau sydd wedi eu dad-gydnabod	(712)		(130)	
(Colledion) / Enillion Ailbrisiant ar Eiddo, Offer a Chyfarpar	(334)		(1,545)	
Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud	(999)		(625)	
Symiau o asedau anghyfredol a ddilëwyd ar waredu neu werthiant (yn cynnwys amhariad) fel rhan o'r enilliad/(colled) ar waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(1,078)		(1,552)	
		(21,470)		(21,664)
Symiau addasiad a ddilëwyd o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn		4,994		4,694
Swm net a ddilëwyd o gost asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn		(16,476)		(16,970)
Cyllido cyfalaf a gymhwyswyd yn y flwyddyn:				
Defnydd y Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd	1,173		98	
Defnydd y Gronfa Wrth Gefn Cyfalaf	2,155		3,731	
Grantiau Cyfalaf a chyfraniadau wedi eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr sydd wedi ei gymhwyso i gyllido cyfalaf	37,883		24,987	
Darpariaeth statudol ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf a godwyd yn erbyn balansau Cronfa'r Cyngor a CRT	2,050		1,580	
Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn balansau Cronfa'r Cyngor a CRT	9,126		12,645	
		52,387		43,041
Symudiadau mewn gwerth marchnad Eiddo Buddsoddiad a godwyd yn erbyn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		2,295		(5,291)
Balans ar 31 Mawrth		238,941		200,735

NODYN 9b – CRONFA AILBRISANT WRTH GEFN

Mae'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cynnwys yr enillion a wnaed gan y Cyngor yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offer a Chyfarpar ac Asedau Treftadaeth.

Mae'r balans yn gostwng pan fo asedau gydag enillion cronrus yn cael eu: -

- hailbrisio i lawr neu fod amhariad arnynt a'r enillion yn cael eu colli;
- defnyddio i ddarparu gwasanaethau a'r enillion yn cael eu colli trwy ddibrisiant; neu
- gwaredu a gwireddu'r enillion.

Dim ond enillion ailbrisiant a gronnwyd ers 1 Ebrill 2007 sydd yn y Gronfa wrth Gefn, sef y dyddiad y crëwyd y Gronfa Wrth Gefn.

Mae enillion cronedig a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw'n cael eu cyfuno i'r balans ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Cronfa Ailbrisiant Wrth Gefn	2024/25	2023/24
	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill	205,044	173,399
Ailbrisio asedau a cholledion amhariad na chodwyd ar y Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	4,142	36,339
Gwahaniaeth rhwng dibrisiant werth teg a dibrisiant gost hanesyddol	(4,060)	(4,290)
Balansau ailbrisio ar asedau wedi eu sgrapio neu eu gwaredu	(934)	(404)
Balans ar 31 Mawrth	204,192	205,044

NODYN 9c – CRONFA WRTH GEFN PENSIYNAU

Mae'r Gronfa Wrth Gefn Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer cyfrifo am fuddiannau ôl-gyflogaeth a chyllido buddiannau yn unol â darpariaethau statudol.

Cronfa Wrth Gefn Pensiynau	2024/25 £'000	2023/24 £'000
Balans ar 1 Ebrill	(10,522)	-
Ail-fesur rhwymedigaeth diffinedig net	138,345	59,453
Gwyrddroad eitemau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeoliad wedi'u debydu neu gredydu i'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(10,770)	(10,810)
Cyfraniad pensiwn cyflogwyr a thaliad uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	12,774	11,980
Dileu ased pensiwn net ar 31 Mawrth	(139,086)	(71,145)
Balans ar 31 Mawrth	(9,259)	(10,522)

Mae'r Cyngor yn rhoi cyfrif am fuddiannau ôl-gyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddiannau yn cael eu ennill gan weithwyr sy'n cronni blynnyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddarau'r rhwymedigaethau a gydnabyddir i adlewyrchu chwyddiant, rhagdybiaethau sy'n newid a dychweliadau buddsoddiad ar unrhyw adnoddau a osodir o'r neilltu i gwrdd â'r costau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i fuddiannau a enillir gael eu cyllido fel y bo'r Cyngor yn gwneud cyfraniadau cyflogwr i'r cronfeydd pensiwn neu, yn y diwedd, yn talu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Felly, mae'r balans debyd ar y Gronfa Wrth Gefn Pensiynau yn dangos gwahaniaeth sylweddol yn y buddiannau a enillwyd gan weithwyr y gorffennol a'r presennol a'r adnoddau y mae'r Cyngor wedi eu rhoi o'r neilltu i gwrdd â nhw.

Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd cyllid wedi ei roi o'r neilltu erbyn yr amser y daw'n amser i ni dalu'r buddiannau.

NODYN 9ch – CYFRIF ADDASU ABSENOLDEBAU DIGOLLEDOL CRONNOL

Mae'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn codi ar Falans Cronfa'r Cyngor o Gronni ar gyfer absenoldebau digolledol a enillwyd ond na chymerwyd yn ystod y flwyddyn, e.e., hawliau gwyliau blynnyddol a gariwyd drosodd ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol	2024/25		2023/24	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill		(3,214)		(3,190)
Ailddosbarthu o'r gronfa genedlaethol	25,341	22,823

NODYN 41 – RHWYMEDIGAETHAU WRTH GEFN

Tystysgrif Adroddiad Cyflwr Gosodiad Trydanol (EICR)

Mae Rhan 4 o'r Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn gosod oblygiadau ar landlord i sicrhau bod eu heiddo'n ffit i bobl fyw ynddo. Er bod y Cyngor wedi sicrhau bod y gwiriadau trydanol wedi eu cwblhau, mae oedi wedi bod mewn dyrannu rhai tystysgrifau. Cadarnhaodd dyfarniad yr Uchel Lys yn ddiweddar nad oes unrhyw ad-daliad rhent yn ddyledus ar sail cyfoethogi anghyfiawn, fodd bynnag mae ansicrwydd yn parhau ynghylch a allai unrhyw rwymedigaethau eraill godi.

Targedau Ailgylchu Gwastraff

Mae Llywodraeth Cymru, mewn ymgais i gynyddu ailgylchu, wedi gosod targedau ailgylchu ar gyfer Llywodraeth Leol ers nifer o flynyddoedd. Mae methiant i gyrraedd y targedau yma'n golygu y bydd rhaid i'r Cynghorau hynny dalu dirwy ar sail £200 ar gyfer pob tunnell dros y targed. Methodd Cyngor Sir Ynys Môn a chyrraedd y targed ar gyfer 2022/23 a 2024/25. Gall Llywodraeth Cymru wneud y benderfyniad i beidio gofyn i'r dirwy cael ei dalu.

Hawl Atebolrwydd Cyhoeddus yn erbyn Rhagflaenydd Cyngor Sir Ynys Môn

O ganlyniad i amgylchiadau presennol sydd yn ymwneud â chyn-bennaeth ysgolion yng Ngwynedd, mae Cyngor Gwynedd yn asesu ac yn ystyried ceisiadau atebolrwydd cyhoeddus posib yn erbyn y Cyngor a'i ragflaenydd. Os bydd rhaid i Gyngor Gwynedd setlo hawliadau'n ymwneud â digwyddiadau cyn 31 Mawrth 1996, efallai y bydd rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn wneud cyfraniad, ar radd a gytunwyd arno eisoes, i dalu am ordaliadau polisi ac unrhyw rwymedigaethau sydd ddim yn cael eu cynnwys o dan bolisiâu yswiriant a gymerwyd gan Gyngor Sir Gwynedd gynt. Mae gan Cyngor Gwynedd gronfa wrth gefn wedi ei glustnodi ar gyfer costau hawliadau'n ymwneud â Chyngor Sir Gwynedd gynt, felly bydd ond angen i Gyngor Sir Ynys Môn wneud cyfraniad pe bai'r gronfa wrth gefn yma ddim yn ddigonol i dalu unrhyw gostau sydd i'w hariannu gan y Cyngor.

NODYN 42 – ASEDAU WRTH GEFN

Pridiannau Cyfreithiol

Mae'r Cyngor yn cadw nifer o bridiau cyfreithiol dros eiddo preswyl â pherchenogion preifat, lle darparwyd cefnogaeth i'r prynwyr dan gynlluniau ar gyfer prynu tai â chefnogaeth, gyda'r Cyngor hefo'r hawl am ran o'r enillon ar werthiant yr eiddo. Bydd amrywiaeth yn y gwir swm a dderbynnir, yn seiliedig ar brisiau gwerthu'r eiddo unigol a natur unrhyw alwadau cyfreithiol arall yn eu herbyn byddai, efallai, yn cymryd blaenoriaeth dros bridiant y Cyngor. Mae amseru unrhyw dderbyniadau yn ddibynnol ar unrhyw werthiannau.

Asesiadau Ariannol

Mae oedi wedi bod wrth gwblhau aseuada ariannol defnyddwyr gwasanaeth Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r aseuada yma'n pennu'r ffi, uwchlaw'r isafswm, mae defnyddwyr gwasanaeth yn ei dalu am eu gofal. Gan nad yw'r aseuada yma wedi eu cwblhau, nid yw rhai defnyddwyr gwasanaeth wedi dechrau talu am eu gofal.

NODYN 43 – PRYDLESI

NODYN 43A ASEDAU HAWL I'W DEFNYDDIO

	Tir ac Adeiladau £'000	Cerbydau, Offer a Chyfarpar £'000	Cyfanswm £'000
1 Ebrill 2024	1,401	142	1,543
Ychwanegiadau	527	159	686
Ailbrisiadau	-	-	-
Dibriadau ac Amorteiddiadau	(300)	(72)	(372)
Gwarediadau	-	-	-
Balans ar 31 Mawrth 2025	1,628	229	1,857

NODYN 44 – POLISIÂU CYFRIFO

Yn yr adran hon, ceir manylion am y polisiâu cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer cwblhau'r cyfrifon.

Cyfeirnod Polisi	Teitl Polisi
1	Egwyddorion Cyffredinol
2	Cronni Incwm a Gwariant
3	Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen
4	Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd ac Asedau a Reolir ar y Cyd
5	Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau Mewn Polisiâu Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Chamgymeriadau
6	Treth ar Werth (TAW)
7	Mesur Gwerth Teg
8	Asedau Anghyfredol (Eiddo, Offer a Chyfarpar)
9	Eiddo Buddsoddiad
10	Asedau Anniriaethol
11	Rhestrau Stoc a Chontractau Tymor Hir
12	Arian Parod a Chywerthoedd Arian
13	Offerynnau Ariannol
14	Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn
15	Cronfeydd Wrth Gefn
16	Cydnabyddiaeth Refeniw
17	Llog Mewnol
18	Prydlesau
19	Taliadau i Refeniw ar gyfer Asedau Anghyfredol - Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP)
20	Grantiau a Chyfraniadau gan y Llywodraeth
21	Gwariant Refeniw a Gyllidir gyda Chyfalaf Dan Statud (REFCUS)
22	Gorbenion a Gwasanaethau Cefnogol
23	Arian Tramor
24	Buddiannau'r Gweithwyr
25	Eitemau Eithriadol
26	Cyfrifo am TA (Trethi Annomestig)
27	Incwm a Gwariant Asiantaeth

1. Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor am flwyddyn ariannol 2024/25 a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2025. Mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018, a than y Rheoliadau rhaid eu paratoi'n unol ag arferion cyfrifo priodol. Yr arferion hyn, yn bennaf, yw Côt Ymarfer CIPFA ar Gyfrifo Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2024/25 a Chôt Ymarfer CIPFA ar gyfer Adroddiadau Gwasanaeth 2024/25, ac a ategir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh). Mae'r holl brif bolisiâu cyfrifo wedi cael eu defnyddio'n gyson drwy gydol y flwyddyn. Paratowyd y Datganiad Cyfrifon ar sail "busnes hyfyw".

2. Cronni Incwm a Gwariant

Rhoddir cyfrif am drafodion yn y flwyddyn pryd y digwyddodd, nid pan fydd yr arian yn cael ei dalu neu ei dderbyn. Mae'r dull hwn o gyfrifo croniadau yn darparu sylfaen fwy cyflawn ar gyfer adrodd ar berfformiad ariannol y Cyngor oherwydd mae'n cynnwys ymrwymadau'r Cyngor yn y dyfodol i dalu/derbyn arian am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd erbyn 31 Mawrth 2025 ond nas talwyd amdanynt. Caiff incwm a gwariant eu cyfrifo amdanynt yn y flwyddyn y digwyddodd y gweithgaredd y mae'n berthnasol iddynt, nid pan fo arian yn cael ei dalu neu ei dderbyn, h.y. ar sail gronol. Mae hyn yn golygu fod incwm yn cael ei gofnodi pan gaiff ei ennill ac nid ar adeg ei dderbyn a gwariant pan mae'n digwydd yn hytrach nag ar adeg ei dalu. Fe gynhwysir incwm am werthu nwyddau yn y cyfrifon pan gwblheir y gwerthiant, nid pan dderbynnir yr arian. Caiff incwm o ddarparu gwasanaethau ei gydnabod pan fedr y Cyngor fesur yn ddibynadwy'r ganran o'r trafodyn a gwblhawyd ac, o ganlyniad i hyn, bydd y Cyngor yn cael incwm yn gyfnewid am y gwasanaethau a ddarparwyd. Yn ychwanegol at hyn:-

- Mae cyflenwadau'n cael eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan fo bwloch rhwng dyddiad derbyn cyflenwadau a'u defnyddio, cânt eu cario fel rhestrau stoc ar y Fantolen;
- Mae treuliau yng nghyswllt gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarparwyd gan weithwyr) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fo'r gwasanaethau'n cael eu derbyn yn hytrach na phan fo taliadau'n cael eu gwneud;
- Mae'r llog a dderbynnir ar fuddsoddiadau ac adneuon banc ac sy'n daladwy ar fenthyciadau (gan gynnwys gorddrafftiau banc) yn cael ei gyfrifo fel incwm a gwariant yn seiliedig ar y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach nag fel llif arian parod sy'n cael ei bennu neu ei sefydlu dan y contract; a
- Pan fo refeniw a gwariant wedi'i gydnabod ond dim arian parod wedi'i dalu na'i dderbyn, mae dyledwr neu gredydwr i'r swm perthnasol yn cael ei gofnodi ar y Fantolen. Pan na fydd dyledion o bosib yn cael eu setlo, mae balans y ddyled yn cael ei nodi a chodir ar refeniw am yr incwm na chaiff, o bosib, ei gasglu.

3. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen

Gall pethau ddigwydd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol a all gael effaith sylweddol ar ganlyniadau ariannol y flwyddyn honno. Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y flwyddyn ariannol a'r dyddiad pan fo'r Datganiad Cyfrifon wedi ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Caiff y Datganiad Cyfrifon ei awdurdodi i'w gyhoeddi pan fydd y Swyddog Adran 151 wedi llofnodi'r cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio, ar ôl i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn. Yn unol â'r gyfraith, rhaid cwblhau'r cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio a'u hawdurdodi erbyn 31 Gorffennaf ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Gellir dynodi dau fath o ddigwyddiad:-

- y rheini sy'n rhoi tystiolaeth o'r amgylchiadau oedd yn bodoli ar ddiwedd y flwyddyn ariannol – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau; a
- y rheini sy'n arwydd o amgylchiadau a gododd ar ôl y flwyddyn ariannol – nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau ond, lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith sylweddol, gwneir datgeliad yn y nodiadau ar natur y digwyddiadau a'r effaith y disgwylir iddynt eu cael o safbwynt ariannol.

Nid yw digwyddiadau ar ôl dyddiad awdurdodi'r datganiad ar gyfer ei gyhoeddi yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad Cyfrifon.

4. Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd ac Asedau a Reolir ar y Cyd

Y gweithrediadau a reolir ar y cyd yw'r gwaith hwnnw a wna'r Cyngor ar y cyd â mentrau eraill pan fo defnydd yn cael ei wneud o asedau ac o adnoddau'r mentrau yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyngor yn cydnabod ar ei Fantolen ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau y mae'n eu hwynebu. Caiff y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ei ddebydu gyda'r gwariant hwnnw a'i gredydu gyda'r gyfran o'r incwm y mae'n ei ennill o ganlyniad i weithrediad y fenter.

Asedau a reolir ar y cyd yw eitemau o eiddo, offer neu gyfarpar sydd yn cael eu cydreoli gan y Cyngor a mentrau eraill a phan fo'r asedau'n cael eu defnyddio i sicrhau buddiannau i'r mentrwyr. Nid yw'r fenter ar y cyd yn golygu sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyngor yn cadw cyfrif am ei gyfran ei hun yn unig o'r asedau a reolir ar y cyd, am y rhwymedigaethau a'r treuliau a gaiff ar ei ran ei hun neu ar y cyd ag eraill yng nghyswllt ei fuddiannau yn y fenter ar y cyd a'r incwm a ddaw iddo o'r fenter.

5. Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau Mewn Polisiâu Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Chamgymeriadau

Gall addasiadau ar gyfer cyfnod blaenorol ddeillio o newid mewn polisiâu cyfrifo neu o gywiro camgymeriad materol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol ac yn ystod y blynnyddoedd i ddod a fydd yn cael eu heffeithio gan y newid ac nid ydynt yn achosi addasiad cyfnod blaenorol.

Ni fydd newidiadau i bolisiâu cyfrifo ond yn cael eu gwneud pan mae hynny'n ofynnol dan arferion cyfrifo cywir neu pan fo'r newid yn rhoi gwybodaeth sy'n fwy dibynadwy neu berthnasol o safbwynt effeithiau trafodion, digwyddiadau eraill a'r amodau mewn perthynas â sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol y Cyngor. Pan wneir newid, caiff ei ddefnyddio'n ôl-weithredol (oni ddywedir fel arall) trwy addasu'r balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi ei ddefnyddio erioed.

Mae camgymeriadau materol a ganfyddir yn ffigyrau'r cyfnod blaenorol yn cael eu cywiro'n ôl- weithredol trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

6. Treth ar Werth (TAW)

Mae TAW sy'n daladwy ond yn cael ei gynnwys fel traul i'r graddau nad oes modd ei hawlio oddi ar Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn unig. Mae'r TAW derbyniadwy yn cael ei eithrio o incwm. Mesur Gwerth Teg

7. Mesur Gwerth Teg

Mae Mesur Gwerth Teg SAARh13 yn golygu bod rhaid i'r rhan fwyaf o'r asedau, rhwymedigaethau ac offerynnau ariannol nad ydynt yn gyfredol gael eu prisio ar werth teg, yn aml yn ôl cyfraddau marchnad actif lle mae un ar gael. O safbwynt asedau gweithredol, mae'r safon yn cyflwyno'r cysyniad o werth teg yn seiliedig ar werth cyfredol (yn aml, gwerth mewn defnydd) ar gyfer ailbrisio Eiddo, Offer a Chyfarpar. Mae hyn yn golygu y dylai'r mesur adlewyrchu amodau'r farchnad ar gyfer y gwasanaeth neu'r swyddogaeth ar ddyddiad cyflwyno'r adroddiad. Mae'r safon yn darparu gwahanol ddulliau prisio teg ar gyfer mathau o asedau gwahanol. Yn achos asedau nad ydynt yn rhai gweithredol, h.y. asedau buddsoddi, asedau a ddelir i'w gwerthu ac asedau nad oes mwyach eu hangen, caiff y rhain eu prisio ar eu huchaf ac yn ôl y defnydd gorau y gellir ei wneud ohonynt. Mewn achos lle gellid gwneud defnydd arall ohonynt a fyddai o werth teg uwch, dyna'r gwerth teg a fyddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer prisio asedau nad ydynt yn rhai gweithredol. O dan y côd hwn, nid oes angen ailbrisio asedau isadeiledd yn ôl eu gwerth cyfredol. Yn lle hynny, caiff asedau isadeiledd eu prisio yn ôl y gost hanesyddol dibrisiedig.

Mae'r Awdurdod yn mesur gwerth teg ased neu rwymedigaeth drwy ddefnyddio'r rhagdybiaethau y byddai'r sawl sy'n weithredol yn y farchnad yn eu defnyddio wrth brisio ased neu rwymedigaeth, gan dybio y byddai'r rheini yn gweithredu er eu budd economaidd gorau.

8. Asedau nad ydynt yn Gyfredol (Eiddo, Offer a Chyfarpar)

Cydnabyddiaeth

Mae asedau anghyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar - yn asedau ffisegol sy'n para am flwyddyn neu ragor ac sy'n cael eu defnyddio gan y Cyngor i gefnogi'r ddarpariaeth o nwyddau a gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi pennu isafswm ar gyfer gwariant ar asedau a fydd yn cael ei gategoreiddio fel gwariant cyfalaf. Y swm de-minimus hwn yw £10k. Caiff gwariant ar brynu, creu neu wella asedau anghyfredol ac sy'n costio £10k neu fwy ei gyfalafu ar sail croniadau ar yr amod ei fod yn cwrdd â'r diffiniad uchod o ased anghyfredol. Byddai Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cynnwys asedau megis peiriannau, ni fyddai fel arfer yn cynnwys asedau a ddelir i'w gwerthu oherwydd, fel arfer, byddid yn disgwyl cael gwared ar y rhain o fewn 12 mis.

Gall costau'r asedau hyn gynnwys costau cychwynnol eu prynu a'u hadeiladu a chostau dilynol i wella neu i adnewyddu rhan o'r ased. Caiff unrhyw wariant arall a gyfyd yn sgil gynnal a chadw asedau o ddydd i ddydd, yn cynnwys atgyweiriadau a chynnal a chadw, ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth i'r costau hynny godi.

Mesur

Caiff asedau eu mesur yn y lle cyntaf ar gost, yn cynnwys:-

- y pris prynu;
- unrhyw gostau a briodolir i ddod ag ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol i bwrpas ei weithredu yn y dull a fwriadwyd gan reolwyr; ac
- amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y mae'r eitem arno mewn achosion lle mae'n rhaid, er mwyn defnyddio'r ased, ei hail-leoli.

Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthycu a geir tra bo asedau'n cael eu hadeiladu.

Tybir bod cost asedau a gafaelir mewn modd ac eithrio drwy eu prynu yn gost gwerth teg, ac eithrio pan nad oes sylwedd masnachol i'r pryniant (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian y Cyngor). Yn yr achos olaf, pan afaelir ased drwy gyfnewid, cost y pryniant yw swm cario'r ased a roddir i fyny gan y Cyngor.

Yna mae'r asedau'n cael eu cario yn y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:-

- Isadeiledd, asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost dibrisiant hanesyddol;
- Tai Cyngor – gwerth teg, a bennir gan ddefnyddio sail gwerth defnydd presennol ar gyfer tai cymdeithasol (EUV-SH);
- Swyddfeydd y Cyngor – gwerth cyfredol, a bennir gan y swm a delir am yr ased yn ei ddefnydd presennol;
- Adeiladau ysgolion – byddent yn cael eu prisio yn ôl eu gwerth cyfredol wrth gael eu defnyddio ond, oherwydd eu natur arbenigol, fe'u mesurir yn ôl cost amnewid dibrisiant;
- Asedau dros ben – y mesur gwerth cyfredol yw gwerth teg, amcangyfrifir ar y defnydd uchaf a gorau o bersbectif rhai sy'n weithgar ar y farchnad;
- Mae'r holl asedau gweithredol eraill wedi cael eu mesur yn unol â'u gwerth presennol yn seiliedig ar eu gwerth defnydd presennol (EUV). Mae hyn yn golygu mai gwerth cyfredol tir ac adeiladau fyddai'r swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol. Os nad oes marchnad amlwg ar gyfer ased oherwydd ei natur arbenigol neu os nad yw'r math hwnnw o ased yn cael ei werthu'n aml, bydd yr Awdurdod yn amcangyfrif ei werth cyfredol gan ddefnyddio'r dull cost amnewidiol dibrisiedig. Er enghraifft, yn achos eiddo sy'n cynnwys tir ac adeiladau, y gost ddibrisiedig o'i amnewid byddai gwerth marchnad y tir y mae'r adeilad arno ar gyfer ei ddefnydd cyfredol ynghyd â chost gros amnewid yr adeilad llai lwfansau ar gyfer dirywiad ffisegol, darfodedigrwydd ac optimeiddio;
- Caiff asedau a dderbynnir fel rhoddion eu mesur yn y lle cyntaf yn ôl eu gwerth teg. Caiff y gwahaniaeth rhwng gwerth teg ac unrhyw bris a dalwyd ei gredydu i'r llinell Incwm a Gwariant Trethiant a Grant Amhenodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Lle mae amodau ynghlwm wrth unrhyw asedau a gafwyd yn rhodd, caiff yr enillion eu credydu i'r Cyfrif Asedau a gafwyd yn rhodd. Lle mae enillion yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu symud allan o falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn;
- Lle mae rhan neu gydran o ased yn cael ei amnewid, caiff gwerth cario'r hen ran neu gydran ei ddad-gydnabod er mwyn osgoi cyfrif dwbl. Caiff gwerth y gydran newydd ei hychwanegu at y swm sy'n cario. Os nad yw'n ymarferol gwneud penderfyniad ynghylch gwerth cario'r rhan sydd wedi ei amnewid, defnyddir cost y rhan newydd fel arwydd o gost y rhan sydd wedi cael ei amnewid; a
- Os nad yw ased yn cael ei ddal i bwrpas cynhyrchu llif arian, tybir bod gwerth mewn defnydd o leiaf yn gyfartal i gost amnewid gwasanaeth potensial o'r ased.

Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo oes ddefnyddiol fer neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth teg. Fel arfer, mae 'oes defnyddiol byr' yn golygu 7 mlynedd neu lai, er gall fod yn hirach am eitemau arbenigol o offer a chyfarpar.

Mae'r asedau a gynhwysir yn y Fantolen ar werth teg yn cael eu hailbrisio yn ddigon aml i sicrhau nad yw eu swm cario'n faterol wahanol i'w gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn, ond ailbrisio o leiaf bob pum mlynedd. Yn ymarferol, mae'r Cyngor yn prisiau ei asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar ar sail rhaglen dreigl pum mlynedd. Fodd bynnag, caiff asedau sydd â gwerth cario o dros £500k eu hailbrisio bob blwyddyn. Mae cynnydd mewn gwerthoedd asedau'n cydweddu â chredydau i'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i gydnabod enillion heb eu gwireddu. Mewn achosion eithriadol, gellir credydu enillion ailbrisiant i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fônt yn codi o wyrddroi colled a godwyd yn flaenorol ar wasanaeth.

Pan ddynodir lleihad mewn gwerth, cyfrifir amdano trwy:-

- pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion sydd wedi cronni); a
- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisiant a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad ei weithredu'n ffurfiol. Mae'r enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi eu hymgorffori yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Amhariad

Mae gwerth asedau'n cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn am arwydd o amhariad ar werth.

Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau a newidiadau mewn amgylchiadau sy'n rhoi arwydd y gallai amhariad fod wedi digwydd yn cynnwys:-

- dirywiad sylweddol (h.y. mwy na'r disgwyl o ganlyniad i dreigl amser neu ddefnydd cyffredin) yn swm cario'r ased yn ystod y cyfnod, sy'n benodol i'r ased;
- tystiolaeth o ddarfodiad neu niwed ffisegol i ased;
- ymrwymiad gan y Cyngor i ymgymryd ag ad-drefnu sylweddol; a
- newid andwyol sylweddol yn yr amgylchedd statudol neu reoleiddiol arall y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo.

Pan fo arwyddion, ac amcangyfrifir bod gwahaniaethau posib yn faterol, yna amcangyfrifir swm adferadwy'r ased ac, mewn achos lle mae'r swm hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg.

Pan ddynodir colledion amhariad ar asedau a gawsant eu hailbrisio, cyfrifir amdanynt trwy:-

- pan mae balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm yr amhariad yn erbyn yr ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronnus);
- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm yr amhariad yn erbyn yr ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Pan fo colled amhariad yn cael ei wrthdroi wedyn, credydir y gwyrddroad i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, i fyny at swm y golled wreiddiol, wedi ei addasu ar gyfer dibrisiant y byddid wedi ei godi pe na fyddai'r golled wedi ei chydabod. Nodir unrhyw beth dros ben yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn.

Pan mae'r amhariad yn ymwneud ag ased na chafodd ei hailbrisio (h.y. ased â gwerth cario yn seiliedig ar gost hanesyddol), caiff yr amhariad ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Dibrisiant

Darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar er mwyn dyrannu eu symiau dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol benodol (h.y. tir rhydd-ddaliadol) ac asedau nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu). Fodd bynnag, os bydd unrhyw asedau y disgwylir i'w bywydau economaidd defnyddiol fod yn fyrrach neu'n hirach na'r cyfnodau a nodir isod, o ganlyniad i farn broffesiynol neu a ddarperir gan y gweithgynhyrchwr neu a ddangosir fel safon y diwydiant. Gellir codi dibrisiant ar fywyd economaidd defnyddiol y tu allan i'r ffiniau isod.

Cyfrifir dibrisiant ar y seiliau canlynol:-

- anheddau ac adeiladau eraill – dyraniad llinell syth dros gyfnodau o hyd at 75 mlynedd, fel y amcangyfrifir gan y Gwerthwr, fodd bynnag gellir defnyddio mwy na 75 mlynedd os yw'r gwerthwr yn ystyried bod gan asedau oes economaidd ddefnyddiol sy'n fwy na'r 75 mlynedd a ddefnyddir fel arfer.;
- isadeiledd – dyraniad llinell syth dros gyfnodau hyd at 45 mlynedd
- cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar – dyraniad llinell syth dros 5 i 15 mlynedd.

Mewn achos lle mae gan eitem o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar cydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, dibrisir y cydrannau ar wahân.

Mae enillion ailbrisiant hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwerth presennol dibrisiant a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi ei godi yn seiliedig ar eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Ni chodir dibrisiant yn y flwyddyn y prynir yr ased.

Pan fo gan eitem o Eiddo, Peiriannau ac Offer (Ased Nad yw'n Gyfredol) gydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn perthynas â chyfanswm cost yr eitem, mae'r cydrannau'n cael eu dibrisio ar wahân.

Mae cymhwyso hyn yn ymarferol yn gofyn am asesiad yn erbyn y meini prawf isod, er mwyn canfod a yw:-

- Mae'r bywyd defnyddiol economaidd yn wahanol iawn i elfennau eraill yr ased h.y. 15 mlynedd neu fwy;
- Mae gwerth yr ased yn £2m neu'n fwy ac mae'r gydran dros 25% o gyfanswm gwerth yr ased;
- Mae'r bywyd defnyddiol economaidd yn wahanol iawn ond mae'r gwerth yn cynrychioli llai na 25% o gyfanswm gwerth yr ased; bydd y gydran yn cael ei nodi ar wahân os bernir, ym marn y Prisiwr, ei bod yn berthnasol, e.e. lle mae gwerth cydran, dyweder, yn £3m (10%) o'r ased dibrisio sydd â chyfanswm gwerth o £30m.

Os yw'r ased dibrisio yn rhan o grŵp ehangach a ddelir at yr un diben, er enghraifft, canolfannau hamdden, bydd y polisi a argymhellir hwn ar gydrannau yn cael ei gymhwyso i gyfanswm y grŵp ehangach hwn ac nid i bob unigolyn sy'n dibrisio ased o fewn y grŵp.

Asedau y ceir gwared arnynt ac Asedau Anghyfredol a delir i'w Gwerthu

Mae'r asedau hyn yn cael eu marchnata'n rhagweithiol ar gyfer eu gwerthu ac mewn achosion ble y mae'r Cyngor yn disgwyl iddynt gael eu gwerthu yn y 12 mis nesaf. Fe nodir yr asedau yma ar wahân oherwydd bydd y gwerth ar y Fantolen yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Mae'r ased yn cael ei ailbrizio yn union cyn ei ail-gategoreiddio ac yna ei gario ar yr isaf o'r swm hwn a gwerth teg llai costau gwerthu. Caiff gwerth teg asedau anghyfredol a delir i'w gwerthu, eu mesur yn unol â'u lefel uchaf a gorau o ddefnydd. Pan fo gostyngiad dilynol i werth teg llai costau gwerthu, mae'r golled yn cael ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Gwared neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau y cydnabyddir enillion mewn gwerth teg. Ni chodir dibrisiant ar Asedau a delir i'w Gwerthu.

Os nad yw asedau bellach yn cwrdd â'r meini prawf i'w dosbarthu fel Asedau a delir i'w Gwerthu, yna cânt eu hailddosbarthu'n ôl i asedau anghyfredol a'u prisio ar yr isaf o'u swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel rhai y delir i'w gwerthu, addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi cael eu cydnabod petaent ddim wedi cael eu dosbarthu fel rhai a Delir i'w Gwerthu, a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio gwerthu.

Nid yw asedau fydd yn cael eu gadael neu eu sgrapio yn cael eu hailddosbarthu fel Asedau a delir i'w Gwerthu.

Cael Gwared ar Asedau Anghyfredol

Pan ceir gwared ag ased neu pan gaiff ei ddigomisiynu, dilëir swm cario'r ased yn y Fantolen (os yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu Asedau a delir i'w Gwerthu) i linell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r budd neu'r golled ar adeg gwaredu. Caiff y gost hon ei drosglwyddo wedyn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r budd neu golled ar waredu (h.y. wedi ei netio i ffwrdd yn erbyn gwerth cario'r ased adeg cael gwared arno). Mae unrhyw enillion ailbrisiant a gronnwyd i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Mae symiau uwch na £10k a dderbynnir ar gyfer eitem a waredwyd yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf ac ni fedrir ond eu defnyddio wedyn ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd neu eu gosod o'r neilltuo i leihau angen gwaelodol y Cyngor i fenthycu (y gofyniad Cyllido Cyfalaf). Mae derbyniadau yn cael eu neilltuo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Nid yw gwerth dileu gwarediadau'n cael ei godi yn erbyn y Dreth Gyngor, oherwydd darperir yn llawn ar gyfer asedau anghyfredol dan drefniadau ar wahân ar gyfer Cyllido Cyfalaf. Mae symiau'n cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Asedau nad oes eu hangen mwyach

Gwerth teg asedau nad oes eu hangen mwyach yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased neu ei dalu i drosglwyddo rhwymedigaeth mewn trafodiad trefnus rhwng rhai sy'n weithgar yn y farchnad ar adeg mesur. Bydd hyn yn seiliedig ar y defnydd uchaf a gorau a amcangyfrifir gan ddefnyddio mewnbynnau Lefel 1 yn seiliedig ar ddull marchnad / dull prisio tebyg.

Asedau Treftadaeth

Asedau Treftadaeth yw'r rheini y bwriedir eu cadw mewn ymddiriedolaeth i genedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwydiannol, amgylcheddol neu hanesyddol. Maent yn cael eu dal gan y Cyngor yn unol â'i amcanion cyffredinol i warchod treftadaeth Ynys Môn.

Mae'r Cyngor yn berchen ar nifer o asedau treftadaeth diriaethol megis adeiladau hanesyddol a gwaith celf.

Rhoddir gwerth ar Asedau Treftadaeth weithredol (h.y. rheini sydd, ynghyd â chael eu dal am eu nodweddion treftadaeth, hefyd yn cael eu defnyddio gan y Cyngor am weithgareddau arall neu i ddarparu gwasanaethau arall) a chyfrif amdanynt fel asedau gweithredol, yn yr un modd ag asedau arall o'r math cyffredinol yna (e.e. adeiladau gweithredol).

Rhoddir gwerth ar Asedau Treftadaeth ar y sail fwyaf priodol a pherthnasol i'r ased unigol neu ddosbarth yr asedau. Lle nad yw'n ymarferol i gael prisiad ar gost sy'n gymesur â'r buddiannau i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol, mesurir yr Asedau Treftadaeth ar gost hanesyddol (llai unrhyw dibrisiant cronedig, amorteiddio a cholledion amhariad fel sy'n briodol). Lle mesurir Asedau Treftadaeth ar brisiad, fe fesurir y swm cario yn ddigon aml i sicrhau fod y prisiadau yn parhau i fod yn gyfredol, ac ar gyfnodau dim mwy na phum mlynedd. Mewn achos lle na fedrir penderfynu ar gost neu werth Ased Treftadaeth heb fynd i gost anghymesur, ni fydd yr asedau'n cael eu cydnabod yn y Fantolen. Yn lle hynny, bydd yr ased yn cael ei datgelu yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Pan fo Ased Treftadaeth ag oes benodol, darperir dibrisiant ar yr un sail â chategoriâu eraill o asedau (am fanylion, gweler y Polisi Cyfrifo am Ddibrisiant, 8.4 uchod).

Ni ddarperir dibrisiant ar Asedau Treftadaeth sydd ag oes amhenodol a gwerth gweddilliol uchel. Dylid adolygu swm cario Ased Treftadaeth pan fo tystiolaeth o amhariad, er enghraifft, pan mae wedi dioddef dirywiad ffisegol neu wedi cael ei dorri neu pan fo amheuon newydd yn codi ynglŷn â'i ddilysrwydd. Adnabyddir unrhyw amhariad ar yr un sail â dosbarthiadau arall o ased (am fanylion gweler Polisi Cyfrifo 8.3, Amhariad). Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n weithredol i gaffael mwy o Asedau Treftadaeth, ond mae'n ymateb i gyfleoedd i wella ei bortffolio fel maent yn codi. Cedwir y casgliadau celf yn Oriel Ynys Môn, gyda gwaith cynnal a chadw'n cael ei wneud pan fo'r angen. Rhannau o'r casgliad sy'n cael ei arddangos ar unrhyw adeg, tra gellir trefnu i gael mynediad i'r gweddill. Mae'r Eiddo Treftadaeth yn cael eu rheoli a'u cynnal a'u cadw, wrth ystyried eu nodweddion treftadaeth, fel rhan o bortffolio cyffredinol y Cyngor o dir ac adeiladau.

Trin Asedau Ysgol

Cymerir yn ganiataol mai awdurdodau lleol sy'n rheoli'r ysgolion y maent yn eu cynnal. O ganlyniad, caiff asedau, rhwymedigaethau, cronfeydd wrth gefn a llif arian yr ysgolion a gynhelir gan yr Awdurdod eu cynnwys yn natganiadau ariannol y Cyngor.

Ymddiriedolwyr yr ysgol neu'r corff sefydledig sy'n berchen ar, ac yn rheoli, tir ac adeiladau ysgolion a gynorthwyr yn wirfoddol ac ysgolion sefydledig ac, o'r herwydd, ni chânt eu cynnwys ar Fantolen y Cyngor.

Caiff gwariant cyfalaf ar ysgolion cymunedol ei ychwanegu at falansau'r ysgolion hynny. Caiff balansau ysgolion unigol ar 31 Mawrth bob blwyddyn eu cynnwys ym Mantolen y Cyngor oherwydd eiddo'r Cyngor fydd unrhyw gyllidebau datganoledig i'r ysgolion sydd heb eu gwario.

I bwrpas cyfrifo, mae asedau ysgolion dan reolaeth wirfoddol ac ysgolion a gynorthwyr yn wirfoddol fel a ganlyn:-

- Ysgolion Dan Reolaeth Wirfoddol: mae'r tir wedi ei gynnwys ar y Fantolen ond nid yr adeiladau;
- Ysgolion a Gynorthwyr yn Wirfoddol: nid yw'r tir na'r adeiladau wedi eu cynnwys ar y Fantolen; ac
- Yn ychwanegol, nid yw'r tir na'r adeiladau yn Ysgol Sefydledig Caergeiliog wedi eu cynnwys ar y Fantolen oherwydd mae'r asedau hyn wedi eu breinio gydag ymddiriedolwyr yr ysgol.

9. Eiddo Buddsoddiad

Eiddo buddsoddiad yw'r tir a'r adeiladau hynny a ddefnyddir i bwrpas cynhyrchu rhent a/neu ar gyfer cynnydd cyfalaf yn unig. Nid yw'r diffiniad yn cael ei fodloni os ydyw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd i hwyluso darparu gwasanaethau neu i gynhyrchu nwyddau neu pan fo'n cael ei ddal i'w werthu.

Mae eiddo buddsoddiad yn cael eu cydnabod pan mae'n debygol y bydd buddion economaidd cynlluniedig ar gyfer y dyfodol yn llifo i'r Awdurdod ac y gellir mesur mewn modd dibynadwy gost neu werth teg yr eiddo buddsoddiad hwnnw. Caiff eiddo buddsoddiad eu mesur yn ôl cost yn y lle cyntaf ac, wedyn, yn ôl gwerth teg, gan ddibynnu ar faint y gellid ffeirio'r ased rhwng partion gwybodus hyd braich. Yn unol â'r Côt, rhaid prisio Eiddo Buddsoddiad yn ôl y defnydd mwyaf a gorau y gellir ei wneud ohonynt, waeth beth fo bwriadau'r Cyngor ar eu cyfer. Mae hyn yn golygu bod defnydd amgen wedi cael ei ystyried ar gyfer pob eiddo buddsoddiad ac, os byddai modd defnyddio'r eiddo i bwrpas arall a hynny'n codi ei werth teg, yna dylid defnyddio'r gwerth teg hwnnw. Nid yw'r eiddo'n cael ei ddibrisio, yn hytrach caiff eu hailbrisio'n flynyddol yn unol â SAARh13 yn ôl amgylchiadau'r farchnad ar ddyddiad y Fantolen. Mae enillion a cholledion adeg ailbrisio'n cael eu symud i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yr un driniaeth yn union a roddir i enillion a cholledion wrth gael gwared ohonynt.

Mae rhent a dderbynnir am eiddo buddsoddiad yn cael ei gredydu i'r llinell Incwm Cyllido a Buddsoddiad ac yn arwain at gynydd ym malans Cronfa'r Cyngor. Fodd bynnag, dan drefniadau statudol, ni chaniateir i enillion a cholledion a geir yn sgil ailbrisio a gwerthu gael effaith ar falans Cronfa'r Cyngor. Felly, mae'r enillion a'r colledion yn cael eu symud allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i mewn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £10k) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf.

10. Asedau Anniriaethol

Mae asedau anniriaethol yn asedau nad ydynt yn gyfredol, nac yn ariannol, y gellir eu hadnabod ar wahân ond nid oes ganddynt sylwedd ffisegol (er enghraifft, meddalwedd cyfrifiadurol). Caiff y rhain eu rheoli gan y Cyngor oherwydd digwyddiadau yn y gorffennol. Nid yw gwariant ar ddatblygu gwefannau'n cael ei gyfalafu pan fo'r wefan yn cael ei defnyddio'n llwyr neu'n bennaf i hyrwyddo neu i hysbysebu nwyddau'r Cyngor neu ei wasanaethau. Caiff gwariant ar asedau anniriaethol eu cyfalafu pan dybir y bydd buddiannau economaidd yn y dyfodol neu wasanaeth posib yn llifo o'r ased anniriaethol i'r Cyngor. Mae oes economaidd defnyddiol asedau anniriaethol yn cael ei benderfynu gan y gweithiwr proffesiynol perthnasol sy'n arwain ar brynu/datblygu'r ased anniriaethol. Mae oes economaidd ddefnyddiol ased anniriaethol yn fyrrach nag asedau dirweddol, er enghraifft, rhwng pump a saith mlynedd. Mae asedau anniriaethol yn cael eu hamortieiddio ar sail llinell syth dros fywyd economaidd defnyddiol yr ased.

Yn y lle cyntaf, mesurir asedau anniriaethol yn ôl y gost. Nid yw'r symiau'n cael eu hailbrisio oni bai fod modd pennu gwerth yr asedau y mae'r Cyngor yn eu dal drwy droi at y farchnad weithredol. Yn ymarferol, nid oes ased anniriaethol y mae'r Cyngor yn ei ddal yn bodloni'r maen prawf hwn ac, felly, cawn eu cario yn ôl ar gost llai amorteiddio cronedig. Mae swm dibrisiannol ased anniriaethol yn cael ei amorteiddio dros ei oes ddefnyddiol i linell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Rhoddir prawf amhariad ar asedau anniriaethol yn flynyddol a phryd bynnag y ceir arwydd bod amhariad ar yr ased. Mae unrhyw golledion a ganfyddir yn cael eu nodi yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd unrhyw enillion neu golledion wrth gael gwared ag ased n anniriaethol eu wrth roi'r gorau iddo yn cael ei nodi yn erbyn y llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo gwariant ar asedau anniriaethol yn gymwys i'w ystyried fel gwariant cyfalaf i ddibenion statudol, ni chaniateir i amorteiddio, colledion amhariad nag enillion a cholledion cael gwared â'r asedau gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly, mae'r enillion a'r colledion yn cael eu symud allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i mewn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £10k) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf.

11. Rhestrau Stoc a Chontractau Tymor Hir

Cynhwysir rhestrau stoc yn y Fantolen yn ôl y gost neu'n ôl y gwerth gwerthu net - pa un bynnag o'r ddau sydd isaf. Mae cost rhestrau stoc yn cael ei aseinio trwy ddefnyddio fformiwla gostio 'Cyntaf i Mewn, Cyntaf Allan' (FIFO).

Rhoddir cyfrif am gontractau tymor hir trwy godi ar y Gwarged neu ar y Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn seiliedig ar werth y gwaith neu'r gwasanaeth a dderbynnir dan y contract yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae gwaith sydd yn y broses o gael ei wneud yn cael ei gynnwys yn y Fantolen yn ôl y gost.

12. Arian Parod a Chywerthoedd Arian

Cynrychiolir arian parod gan arian mewn llaw ac adneuo'n gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb ar rybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae cywerthoedd arian yn fuddsoddiadau hynod o hylifol sy'n aeddfedu ymhenn tri mis neu lai o'r dyddiad prynu ac yn rhai y gellir eu trosi'n hawdd i symiau hysbys o arian parod heb beri unrhyw risg o bwys yn sgil newid mewn gwerth.

Yn y Datganiad Llif Arian, dangosir arian parod a chywerthoedd arian net o'r gorddrafftiau banc sy'n daladwy ar alw ac maent yn rhan hanfodol o reolaeth arian parod y Cyngor.

13. Offerynnau Ariannol

Ymrwymadau Ariannol

Mae ymrwymadau ariannol yn cael eu hadnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn barti i'r darpariaethau cytundebol mewn offeryn ariannol, cânt eu mesur i gychwyn ar werth teg, a'u cario ar eu cost wedi'i amorteiddio. Mae costau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) ar gyfer llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n disgowntio'n union y taliadau arian parod a amcangyfrifir yn y dyfodol dros oes yr offeryn i'r swm y cafodd ei gydnabod arno'n wreiddiol.

Ar gyfer y mwyafrif o'r benthyciadau sydd gan yr Awdurdod, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm yn weddill sy'n daladwy (a llog wedi cronni); a'r llog a godir i'r CIES yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthycia.

Pan fo premiymau a disgowntiau wedi eu codi i'r CIES, mae'r rheoliadau yn caniatáu i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei thaenu dros y blynyddoedd i ddod. Mae gan yr Awdurdod bolisi o daenu'r enillion neu'r colledion dros y tymor oedd yn weddill ar y benthyciad yr oedd y premiwm yn daladwy yn ei erbyn, neu yr oedd y disgownt i'w dderbyn pan gafodd ei ad-dalu. Mae cysoniad y symiau a godir i'r CIES i'r taliad net sydd ei angen yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei reoli trwy drosglwyddo i neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn.

Asedau Ariannol

Caiff asedau ariannol eu dosbarthu yn seiliedig ar ddull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae tri phrif ddosbarth o asedau ariannol sef:-

- cost wedi'i amorteiddio;
- gwerth teg trwy elw neu golled (FVPL); a
- gwerth teg trwy incwm cynhwysfawr arall (FVOCI).

Model busnes yr Awdurdod yw dal buddsoddiadau er mwyn casglu llifoedd arian cytundebol.

Felly, mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu fel cost wedi'i amorteiddio, heblaw am y rheini nad yw eu taliadau cytundebol ar ffurf talu'r prifswm a llog yn unig (h.y. lle nad yw'r llifoedd arian ar ffurf offeryn dyled sylfaenol).

Asedau Ariannol wedi eu Mesur ar Gost wedi'i Amorteiddio

Mae asedau ariannol wedi eu mesur ar gost wedi'i amorteiddio yn cael eu hadnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn barti i'r darpariaethau cytundebol mewn offeryn ariannol, a chânt eu mesur i gychwyn ar werth teg. Wedyn cânt eu mesur ar eu cost wedi'i amorteiddio. Mae credydau blyneddol i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) ar gyfer llog sy'n dderbyniadwy yn seiliedig ar swm cario yr ased wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer y mwyafrif o'r asedau ariannol y mae'r Awdurdod yn eu dal, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm yn weddill y gellir ei dderbyn (ynghyd â llog wedi cronni) a'r llog a gaiff ei gredu i'r CIES yw'r swm sydd i'w dderbyn am y flwyddyn yn y cytundeb benthycia.

Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi gwneud nifer o fenthyciadau i weithwyr ar lai na chyfraddau'r farchnad (benthyciadau meddal). Mae'r Cyngor yn defnyddio cyfradd CThEM ar gyfer benthyciadau buddiol i weithwyr fel procsi ar gyfer gwerth y farchnad/cyfradd llog effeithiol. Os yw'r gwahaniaeth rhwng y gyfradd ostyngedig a'r gyfradd llog effeithiol yn fwy na £100k, caiff colled ei gofnodi ar y CIES am werth presennol y llog a fydd yn cael ei ildio dros oes yr offeryn, gan arwain at gost wedi'i amorteiddio is na'r prifswm sy'n weddill.

Caiff llog ei gredu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y CIES ar gyfradd llog effeithiol fymryn yn uwch na'r gyfradd a dderbynnir gan y gweithwyr, ac effaith y gwahaniaeth yw cynyddu cost wedi'i amorteiddio'r benthyciad yn y Fantolen. Mae'n ofynnol yn y darpariaethau statudol mai effaith benthyciadau meddal ar Falans y Gronfa Gyffredinol yw'r llog sy'n dderbyniadwy am y flwyddyn ariannol - mae cysoniad y symiau a gaiff eu debydu neu eu credydu i'r CIES i'r enillion net sydd ei angen yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei reoli trwy drosglwyddo i neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn.

Mae unrhyw enillion a cholledion sy'n codi pan fo ased yn cael ei ddad-gydnabod, yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y CIES.

Model Colled Credyd Disgwyliedig

Mae'r Awdurdod yn cydnabod colledion credyd disgwyliedig ar bob un o'i asedau ariannol a ddelir ar gost wedi'i amorteiddio [neu FVOCI pan fo'n berthnasol], naill ai ar sail 12 mis neu sail oes. Mae'r model colled credyd disgwyliedig ar sail oes (model symledig) hefyd yn gymwys i symiau les sy'n dderbyniadwy ac asedau contract. Dim ond colledion oes sy'n cael eu cydnabod ar gyfer symiau masnach derbyniadwy (dyledwyr) a ddelir gan yr Awdurdod.

Bydd y Cyngor hefyd yn ymestyn y drefn symledig i symiau derbyniadwy ar les a masnach ac asedau contract os oes cydran gyllido sylweddol.

Mae colledion amhariad yn cael eu cyfrifo i adlewyrchu'r disgwyliad efallai na fydd y llifoedd arian yn y dyfodol yn digwydd oherwydd gallai'r benthyciwr fethu talu ei rwymedigaethau. Mae risg credyd yn chwarae rhan hollbwysig wrth asesu colledion. Os yw risg wedi cynyddu'n sylweddol ers i offeryn gael ei gydnabod i gychwyn, caiff colledion eu hasesu ar sail oes. Os yw'r risg heb gynyddu'n sylweddol, neu os yw parhau yn isel, caiff colledion eu hasesu ar y sail colledion disgwylidig dros 12 mis.

Mae Môn Ddyledwyr roedd y canrannau drwg dyledion canlynol yn berthnasol:-

6 mis i 1 flwyddyn: 50%;
1 flwyddyn i 2 flynedd: 75%;
Dros 2 flynedd: 100%.

Byddai canrannau uwch yn berthnasol i rai dyledwyr, gan ystyried amgylchiadau unigol, e.e. diddymiad cwmni, methdaliad personol.

Dyledwyr a gohiriwyd h.y., ffioedd preswyl y Gwasanaethau Cymdeithasol a gohiriwyd hyd nes y bydd yr eiddo yn cael ei werthu (pan fo tâl ar yr eiddo yn berthnasol), darpariaeth o 10% wedi'i chymhwyso waeth beth fo'u hoedran – er y byddai darpariaeth uwch yn gymwys o dan amgylchiadau penodol e.e. cyflwr presennol eiddo neu werth eiddo neu anghydfod.

Mae SAARh yn ei gwneud yn ofynnol i adnabod dyledion yn gynt (nid yw'r arfer cyfredol yn darparu ar gyfer dyledion yn gynt na chwe mis oed, er y byddai darpariaeth yn cael ei wneud ar gyfer amgylchiadau dyledwyr unigol sy'n hysbys e.e. methdalwr, oedran llai na hyn) ac mae'n rhaid eithrio dyledion sector cyhoeddus (ar hyn o bryd mae dyledion ar gyfer y bwrdd iechyd lleol, praeseptwyr mawr a lleol (cynghorau)/cyrff sy'n codi trethi ac ati, a gweinyddiaethau canolog/datganoledig ac ati wedi eu cynnwys). Gan roi ystyriaeth i SAARh9, mae angen lwfansau amharu colledion diwygiedig ac fe wneir yr ystyriaethau canlynol i gyrraedd y lwfansau diwygiedig:-

Nid yw SAARh9 yn diffinio diffyg ar ddyled, ond mae'n ofynnol i sefydliad ddarparu diffiniad o'r fath sy'n gyson â'i ddibenion rheoli credyd. Defnyddir y diffiniad canlynol at ddibenion y gofyniad lwfans amharu colledion ar gyfer Môn Ddyledion, sy'n ddigon syml ac sy'n gyson â rheolaeth credyd yr Awdurdod –

Mae dyledwyr wedi diffygio ar ddyled (at ddibenion lwfans amharu colledion yng nghyswllt Môn Ddyledwyr) os nad oes taliad wedi'i dderbyn yn erbyn dyled yn y system Dyledwyr Civica (erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn) pan fo oedran y ddyled yn fwy nag 14 diwrnod calendr o'r dyddiad pwynt treth.

Cynigir y lwfansau canlynol ar gyfer cyfnodau o hyd at chwe mis:-

- Diwrnod 1 i 14 niwrnod ar ôl codi'r anfoneb –2%;
- 1 - 30 diwrnod ar ôl y diwrnod dyledus h.y. 15 diwrnod i 45 diwrnod o'r dyddiad pwynt treth - 2.5%;
- 31 - 60 diwrnod ar ôl y diwrnod dyledus h.y. 46 diwrnod i 75 diwrnod o'r dyddiad pwynt treth - 4.5%;
- 61 - 90 diwrnod ar ôl y diwrnod dyledus h.y. 76 diwrnod i 105 diwrnod o'r dyddiad pwynt treth – 7.5%;
- 91 – 168 diwrnod ar ôl y diwrnod dyledus h.y. 106 diwrnod i 182 diwrnod o'r dyddiad pwynt treth – 15%.

Byddai'r Cyngor wedyn yn parhau i ddefnyddio'r canrannau cyfredol ar gyfer dyledion hŷn na chwe mis o'r dyddiad pwynt treth h.y.

- 183 – 365 diwrnod o'r dyddiad pwynt treth –50%;
- 366 – 730 diwrnod o'r dyddiad pwynt treth –75%;
- 731 diwrnod neu fwy o'r dyddiad pwynt treth – 100%.

Taliadau wedi eu gohirio

O 183 diwrnod o'r dyddiad pwynt treth mae'r rhain i gael eu cymhwyso ar 10% YN UNIG ac nid ar y cyfraddau uwch a ddangosir. Dim darpariaeth ar gyfer dyledion gohiriedig sy'n llai na chwech mis oed. Mae gan y Cyngor bridiannau cyfreithiol wedi'u sicrhau yn erbyn cartrefi unigolion, felly, mae'r swm ar gyfer amhariad yn is. Yr enillion neu'r golled amhariad flynyddol fydd y newid mewn colledion credyd disgwyliedig cydol oes dros y flwyddyn.

Gordaliadau Budd-daliadau Tai

Mae gan y Cyngor lwfans colledion amhariad o 90% o'r gordaliad budd-daliadau tai a waned i'r defnyddiwr gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r lwfans colledion amhariad yn uchel oherwydd bod adnoddau ariannol unigolion sy'n derbyn budd-daliadau fel arfer yn brin ac mae'r risg o fethu ag adennill y gordaliadau budd-daliadau'n yn uchel.

Rhenti

Mae'r lwfans colledion amhariad ar gyfer dyledion rhent yn seiliedig ar y swm o arian sy'n ddyledus, gyda dyledion uwch ar ganrannau uwch oherwydd bod y risg o beidio ag ad-dalu yn cynyddu wrth i'r ddyled gynyddu. Bydd lwfans colledion amhariad yn cael ei gosod ar y symiau dyledus ym mhob band. Mae bandiau a chanrannau'r lwfans colledion amhariad fel a ganlyn:

Tenantiaid Presennol

<u>Gwerth yr Ôl-ddyled</u>	<u>Lwfans Colledion Amhariad</u>
£0.01 i £49.99	10%
£50 i £99.99	20%
£100 i £249.99	30%
£250 i £499.99	45%
£500 i £999.99	60%
>£1,000	85%

Gosodir lwfans colledion amhariad o 90% ar gyfer yr holl dyledion gan gyn-denantiaid gan fod y dyledion hyn yn llai tebygol o gael eu hadennill na chan denantiaid presennol.

Asedau Ariannol yn cael eu Mesur ar Werth Teg trwy Elw neu Golled (FVPL)

Mae asedau ariannol sy'n cael eu mesur ar werth FVPL yn cael eu hadnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn barti i'r darpariaethau cytundebol mewn offeryn ariannol, a chânt eu mesur i gychwyn a'u cario ar werth teg. Mae enillion neu golledion gwerth teg yn cael eu hadnabod wrth iddynt gyrraedd yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau.

Mae mesuriadau gwerth teg yr asedau ariannol yn seiliedig ar y technegau canlynol:-

Offerynnau gyda phrisiau'r farchnad wedi'u dyfynnu – pris y farchnad offerynnau eraill gyda thaliadau sefydlog a chanfyddadwy – dadansoddiad llif arian gostyngedig.

Mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur wedi eu categorioedd yn unol â'r tair lefel ganlynol:-

Mewnbynnau Lefel 1 – prisiau wedi'i dyfynnu (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd actif ar gyfer asedau yr un fath y gall yr Awdurdod gael mynediad atynt ar y dyddiad mesur.

Mewnbynnau Lefel 2 – mewnbynnau ar wahân i'r prisiau wedi'u dyfynnu sydd wedi'u cynnwys yn Lefel 1 sy'n ganfyddadwy ar gyfer yr ased, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Mewnbynnau Lefel 3 – mewnbynnau anghanfyddadwy ar gyfer yr ased.

Y Datganiadau Ariannol

Mae unrhyw enillion a cholledion sy'n codi pan fo ased yn cael ei ddad-gydnabod yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Asedau Ariannol ar Gael i'w Gwerthu

Nid oes gan y Cyngor asedau ariannol ar gael i'w gwerthu ac yn annhebygol o gael rhai yn y tymor byr gan ni chynhwysir yr asedau ariannol yma yn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2022/23.

Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn

14. Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo rhywbeth wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddehongliadol i'r Cyngor sy'n debygol o fod angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu wasanaeth posibl, a phan fo modd darparu amcangyfrif dibynadwy o faint y rhwymedigaeth. Er enghraifft, efallai bod y Cyngor yn rhan o achos llys fyddai'n debygol o arwain yn y pen draw at wneud setliad neu dalu iawndal.

Codir darpariaethau fel traul ar y llinell gwasanaeth priodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r Cyngor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan fo taliadau'n cael eu cyflwyno, yn y diwedd, rhoddir nhw yn erbyn y ddarpariaeth a gludir yn y Fantolen. Mae setliadau amcangyfrifedig yn cael eu hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol – pryd y bydd hi'n llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd (neu gwneir setliad llai na'r disgwyl), caiff y ddarpariaeth ei gwrthdroi a'i rhoddi mewn credyd yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Pan fo disgwyl hawlio cyfran neu'r cyfan o'r taliad i setlo'r ddarpariaeth oddi ar barti arall (e.e. oddi ar hawliad yswiriant), caiff ei gydnabod fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol ond os oes sicrwydd go bendant y bydd ad-daliad ar gael os ydyw'r Cyngor yn setlo'r rhwymedigaeth.

Rhwymedigaethau wrth gefn

Mae rhwymedigaeth wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth bosib ar y Cyngor, ond na fydd cadarnhad hyd oni fydd digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld wedi digwydd yn y dyfodol, neu heb ddigwydd, a rheini heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth y Cyngor. Mae rhwymedigaethau wrth gefn hefyd yn codi mewn amgylchiadau ble byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chydabyddir rhwymedigaethau wrth gefn yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon petaent yn codi.

Asedau wrth gefn

Mae ased wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi ased bosib i'r Cyngor, ond na fydd cadarnhad hyd oni fydd digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld wedi digwydd yn y dyfodol, neu heb ddigwydd, a rheini heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth y Cyngor.

Ni chydabyddir asedau wrth gefn yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon ble mae'n debygol y bydd mewnllif o fuddiannau economaidd neu wasanaeth posib.

15. Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r Cyngor yn cadw amryw o gronfeydd wrth gefn sy'n adlewyrchu i ba raddau y mae ei asedau'n fwy na'i ymrwymadau ac unrhyw gyfyngiadau, statudol neu wirfoddol, a roddir ar y defnydd o'r balansau hyn. Mae gan y Cyngor y disgresiwn i osod o'r neilltu symiau penodol fel Cronfeydd wrth Gefn y mae'n dymuno eu clustnodi i ddibenion polisi i'r dyfodol, i ymdrin â materion wrth gefn neu i reoli llif arian. Ceir crynodeb o'r rhan yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Caiff Cronfeydd wrth Gefn eu creu drwy drosglwyddo symiau o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn. Pan ceir traul sydd i'w gyllido o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i'w sgorio yn erbyn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Yna trosglwyddir y gronfa wrth gefn yn ôl i Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn fel nad oes taliad net yn erbyn y Dreth Gyngor ar gyfer y gwariant. Cedwir rhai Cronfeydd wrth Gefn penodol er mwyn rheoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol, offerynnau ariannol, buddiannau ymddeoliad a buddiannau gweithwyr ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau y gellir eu defnyddio i'r Cyngor - eglurir y Cronfeydd wrth Gefn hyn yn y polisiau a'r nodiadau perthnasol.

16. Cydnabyddiaeth Refeniw

Caiff refeniw ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y cafodd ei ennill yn hytrach na phan gafodd yr arian ei dderbyn. Mae hyn yn ymwneud ag incwm a geir o werthu nwyddau (a gynhyrchir gan y Cyngor i ddibenion eu gwerthu neu eu prynu i bwrpas ailwerthu), darparu gwasanaethau (ac eithrio gwasanaethau a wnelont yn uniongyrchol â chontractau adeiladu), llog, breindaliadau a difidendau, trafodion nad oes modd eu cyfnewid (h.y. y Dreth Gyngor) a lle cynt yr oedd rhwymedigaeth wedi'i hadnabod (h.y. credydwr) ar ôl bodloni'r meini prawf cydnabyddiaeth refeniw.

Caiff refeniw ei gydnabod hefyd ar enillion a all godi neu beidio o weithgareddau cyffredin megis enillion ar ail-brisio asedau anghyfredol, enillion ar werthu asedau anghyfredol ac enillion ar asedau ariannol ar-gael i'w-gwerthu. Lle mae'r Awdurdod yn gweithredu fel asiant, dim ond yr incwm a delir i'r Cyngor ar gyfer ei rôl fel asiant fydd yn cael ei gydnabod yn y cyfrifon. Ni fydd y swm sy'n gysylltiedig â'r trydydd parti (sef y prif swm) yn cael ei gynnwys yn y cyfrifon.

Mae referniw'n cael ei gydnabod a'i fesur yn ôl gwerth teg y gydnabyddiaeth a dderbynnir. Dyma'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased neu ei dalu i drosglwyddo rhwymedigaeth mewn trafodiad busnes trefnus rhwng y rhai sy'n weithgar yn y farchnad ar y dyddiad mesur. Bydd ad-daliadau a setliadau ariannol, lle'n berthnasol, yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth fesur gwerth teg y gydnabyddiaeth a gafwyd.

Os yw'r taliadau'n cael eu cyflwyno yn ôl telerau gohiriedig, mae'r gydnabyddiaeth a dderbynnir yn cael ei lleihau i'w gwerth presennol er mwyn sicrhau gwerth teg. Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm hwn a chyfanswm y taliadau a dderbynnir yn cael ei gydnabod fel referniw llog yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau. Mae derbyniadau tymor byr heb raddfa llog dynodedig yn cael eu mesur yn ôl y swm ar yr anfoneb wreiddiol pan fo effaith disgownt yn amherthnasol. Nid oes gwahaniaeth rhwng dyddiad cyflenwi a dyddiad talu yn achos trafodion digontract a rhai lle nad oes cyfnewid yn digwydd h.y. referniw yng nghyswllt y Dreth Gyngor a threthi cyffredinol ac, felly, mesurir y trafodion hyn yn ôl y symiau llawn a dderbynnir yn eu cylch.

17. Llog Mewnol

Buddsoddir balansau arian gan y Cyngor yn unol â'i pholisïau Rheoli Trysorlys a Buddsoddi ac fe gronnir a chredydir y llog i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Credydir llog i'r cronfeydd ymddiriedol a chronfeydd trydydd parti eraill ar sail y raddfa llog cyfartaleddig a enillwyd gan y Cyngor. Mae rhai cronfeydd wrth gefn yn derbyn llog trwy drosglwyddiad sydd wedi ei glandro ar yr un sail.

18. Prydlesi

Yr awdurdod fel lesddeiliad

Mae contractau'n cael eu dynodi'n brydlesi gan yr awdurdod ar sail eu manylion. Mae contractau, a rhannau o gontractau, gan gynnwys y rhai a ddisgrifir fel contractau ar gyfer gwasanaethau, yn cael eu dadansoddi er mwyn penderfynu p'un a ydynt yn rhoi'r hawl i reoli'r defnydd o ased a nodwyd, trwy gyfrwng hawliau i dderbyn, i raddau helaeth, holl fuddiannau economaidd neu wasanaeth posib yr ased hwnnw a rheoli ei ddefnydd. Mae'r Cod yn ymestyn cwmipas IFRS 16 Prydlesi er mwyn cynnwys trefniadau lle nad oes unrhyw gydnabyddiaeth yn cael ei dalu, neu lle gwneir taliadau enwol neu isel iawn.

Y mesur cychwynnol

Mae prydlesi'n cael eu cydnabod fel asedau hawl-i-ddefnyddio gydag atebolrwydd cyfatebol ar y dyddiad y mae'r ased a brydlesir ar gael i'w ddefnyddio (neu o 1 Ebrill 2024 os bydd prydlesi presennol yn trosglwyddo). Fel arfer, mae'r prydlesi am gyfnodau penodedig o fwy na blwyddyn, ond efallai y bydd opsiynau i'w hystemyn.

Yn y lle cyntaf, mae'r awdurdod yn cydnabod atebolrwydd prydles yn ôl gwerth presennol taliadau'r brydles, gan ddisgowntio trwy ddefnyddio cyfradd benthyca cynyddrannol yr awdurdod os nad yw'n bosib penderfynu ar y gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles. Bydd cyfradd benthyca gynyddrannol yr awdurdod yn seiliedig ar gyfradd blwydd-dal y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLb) ar gyfer yr un cyfnod â thymor y brydles. Mae taliadau prydles a gynhwysir yn y mesur o atebolrwydd y brydles yn cynnwys:

- taliadau sefydlog, yn cynnwys taliadau sefydlog gwirioneddol ('in-substance')
- taliadau prydles newidiol sy'n ddibynnol ar fynegai neu gyfradd, ac a fesurir yn y lle cyntaf gan ddefnyddio'r brif fynegai neu gyfradd ar y dyddiad mabwysiadu
- symiau y disgwylir iddynt fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol
- y pris gweithredol o dan opsiwn prynu y mae'r awdurdod yn gymharol sicr o'i weithredu
- taliadau prydles mewn cyfnod adnewyddu dewisol os yw'r awdurdod yn gymharol sicr o arfer opsiwn i ymestyn y brydles

- dirwyon am ddod â phrydles i ben yn gynnar, oni bai bod yr awdurdod yn gymharol sicr o beidio â dod â'r brydles i ben yn gynnar.

Mae'r ased hawl-i-ddefnyddio yn cael ei fesur yn ôl swm atebolrwydd y brydles, wedi'i addasu ar gyfer unrhyw daliadau a wnaed, ynghyd ag unrhyw gostau uniongyrchol a gafwyd er mwyn datgymalu'r ased dan sylw a'i symud oddi ar y safle, neu adfer yr ased dan sylw ar y safle, a thynnu cost unrhyw gymhellion prydles a dderbyniwyd.

Er hynny, ar gyfer prydlesi sydd â thaliadau isel iawn, taliadau enwol neu ddim taliadau o gwbl, mae'r ased yn cael ei fesur yn ôl gwerth teg.

Mesuriadau dilynol

Wedi hynny, mae'r ased hawl-i-ddefnyddio'n cael ei fesur gan ddefnyddio'r model gwerth teg. Mae'r awdurdod o'r farn bod y model cost yn ddirprwy rhesymol oni bai am:

- asedau sy'n cael eu dal o dan brydlesi anfasnachol
- prydlesi lle nad yw adolygiadau rhent o reidrwydd yn adlewyrchu amodau'r farchnad
- prydlesi sydd â thelerau o fwy na phum mlynedd nad ydynt yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer adolygiadau rhent
- prydlesi lle bydd adolygiadau rhent yn cael eu cynnal ar gyfnodau o fwy na phum mlynedd.

Ar gyfer y prydlesi hyn, mae'r ased yn cael ei gario ar swm wedi'i ailbrisio. Yn y datganiadau ariannol hyn, mae asedau hawl-i-ddefnyddio sy'n cael eu dal o dan brydlesi mynegrifol wedi cael eu haddasu ar gyfer newidiadau yn y fynegai berthnasol, tra bod asedau sy'n cael eu dal o dan brydlesi taliadau isel iawn neu brydlesi lle nad oes taliad o gwbl wedi cael eu prisio gan ddefnyddio prisiau'r farchnad neu brisiau rhent ar gyfer tir neu eiddo cyfatebol.

Mae'r ased hawl-i-ddefnyddio'n cael ei ddibrisio mewn llinell syth dros gyfnod byrrach, sef tymor y brydles sy'n weddill ac oes ddefnyddiol yr ased dan sylw ar y dyddiad mabwysiadu.

Wedi hynny, mae atebolrwydd y brydles yn cael ei fesur yn ôl cost wedi'i hamorteiddio, gan ddefnyddio'r dull llog gwirioneddol. Bydd yr atebolrwydd yn cael ei ail-fesur pan fydd:

- newid yn y taliadau prydles yn y dyfodol oherwydd newid yn y mynegai neu gyfradd
- newid yn amcangyfrif y grŵp o'r swm y disgwylir iddo fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol
- yr awdurdod yn newid ei asesiad o ph'un a fydd yn arfer opsiwn i brynu, ymestyn neu derfynu, neu
- taliad prydles sefydlog gwirioneddol ('in-substance') diwygiedig.

Pan ddigwydd ail-fesuriad o'r fath, gwneir addasiad cyfatebol i swm cario'r ased hawl-i-ddefnyddio, ac mae unrhyw addasiad pellach sydd ei angen oherwydd yr ail-fesuriad yn cael ei gofnodi yn y datganiad incwm.

Eithriad ar gyfer gwerth isel a phrydles fer

Yn unol â'r hyn y mae'r Cod yn ei ganiatáu, mae'r awdurdod yn eithrio prydlesi:

- ar gyfer eitemau isel eu gwerth sydd yn costio llai na £10,000 pan fyddant yn newydd, ar yr amod nad ydynt yn ddibynol iawn ar eitemau eraill, neu wedi eu cyplysu gydag eitemau eraill, a
- mae ganddynt dymor o lai na 12 mis (yn cynnwys y cyfnod lle na ellir canslo'r brydles ynghyd ag unrhyw opsiynau i ymestyn y mae'r awdurdod yn gymharol sicr o'u harfer, ac unrhyw opsiynau terfynu y mae'r awdurdod yn gymharol sicr o beidio eu harfer).

Gwariant ar brydlesi

Mae gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys llog, dibrisiad llinell syth, unrhyw amhariadau ar yr ased a newidiadau yn y taliadau prydles newidiol nad ydynt wedi eu cynnwys yn y mesur o atebolrwydd yn ystod y cyfnod y digwyddodd y digwyddiad sbarduno. Mae taliadau prydles yn cael eu cofnodi fel debyd yn erbyn yr atebolrwydd. Mae rhenti ar gyfer prydlesi eitemau isel eu gwerth neu fyrrach na 12 mis yn cael eu trin fel costau.

Nid yw dibrisiant ac amhariadau'n gostau yn erbyn y dreth gyngor, gan fod darpariaeth lawn yn cael ei gwneud ar gyfer costau asedau nad ydynt yn rhai cyfredol o dan drefniadau cyllido cyfalaf ar wahân. Mae symiau felly'n cael eu neilltuo i'r cyfrif addasiadau cyfalaf o falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad ar y Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Yr awdurdod fel lesydd

Mae prydlesi'n cael eu dynodi'n brydlesi cyllid os yw telerau'r brydles yn trosglwyddo, i raddau helaeth, yr holl risgiau a gwobrau yn gysylltiedig â bod yn berchen ar yr eiddo neu offer a pheiriannau o'r lesydd i'r lesddeiliaid. Mae'r holl brydlesi eraill yn cael eu dynodi'n brydlesi gweithredu.

Prydlesi Cyllid

Os yw'r awdurdod yn caniatáu prydles cyllid ar gyfer eiddo neu offer a pheiriannau, mae'r ased perthnasol yn cael ei dynnu o'r Fantolen fel gwarediad. Pan fydd y brydles yn cychwyn, mae swm cario'r ased yn y Fantolen (boed yn eiddo, offer a pheiriannau neu asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu) yn cael ei ddileu a'i symud i'r llinell gwariant gweithredu arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw neu golled pan waredir â'r ased. Mae enillion, sydd yn cynrychioli buddsoddiad net yr awdurdod yn y brydles, yn cael ei gofnodi fel credyd ar yr un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a hefyd fel rhan o'r enillion neu golled pan waredir â'r ased (h.y. mae'n cael ei netio yn erbyn gwerth cario'r ased ar adeg ei waredu), ac mae ased prydles (dyledwr hirdymor) cyfatebol yn cael ei gynnwys ar y Fantolen.

Mae rhenti prydlesi derbyniadwy yn cael eu dosbarthu rhwng:

- tâl am gaffael y diddordeb yn yr eiddo - sy'n cael ei gofnodi er mwyn gostwng gwerth dyledwr y brydles (ynghyd ag unrhyw breimymau a dderbyniwyd), ac
- incwm cyllid (wedi'i gredydu i'r llinell incwm a gwariant cyllido a buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Pan waredir ag ased, ni chaniateir, trwy statud, i'r enillion sy'n cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gynyddu balans y Gronfa Gyffredinol ac mae'n rhaid ei drin fel derbyniad cyfalaf. Os oes premiwm wedi'i dderbyn, mae'n cael ei symud o falans y Gronfa Gyffredinol i'r gronfa derbyniadau cyfalaf yn y Datganiad ar y Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Os yw'r swm sy'n ddyledus mewn perthynas ag ased y brydles yn cael ei setlo trwy dalu rhenti yn ystod blynyddoedd ariannol yn y dyfodol, mae'n cael ei symud o falans y Gronfa Gyffredinol i'r gronfa derbyniadau cyfalaf gohiriedig yn y Datganiad ar y Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Pan dderbynnir y rhenti yn y dyfodol, mae'r elfen ar gyfer y derbyniad cyfalaf ar gyfer gwaredu'r ased yn cael ei ddefnyddio i ostwng gwerth dyledwr y brydles. Ar yr adeg hon, mae'r derbyniadau cyfalaf a ohiriwyd yn cael eu trosglwyddo i'r gronfa derbyniadau cyfalaf.

Pan fydd ased yn cael ei waredu, nid yw'r gwerth sy'n cael ei ddileu yn gost yn erbyn y dreth gyngor, gan fod darpariaeth lawn yn cael ei wneud ar gyfer costau asedau nad ydynt yn asedau cyfredol o dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Mae symiau'n cael eu priodoli, felly, i'r cyfrif addasiadau cyfalaf o falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad ar y Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Prydlesi Gweithredu

Os yw'r awdurdod yn caniatáu prydles gweithredu ar gyfer eiddo neu offer a pheiriannau, mae'r ased yn cael ei gadw ar y Fantolen. Mae incwm rhent yn cael ei gofnodi fel credyd ar y llinell gwariant gweithredu arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae unrhyw gredyd yn cael ei wneud ar sail llinell syth dros oes y brydles, neu i'r gwasanaeth unigol os yw'n cael ei gychwyn gan wasanaeth, hyd yn oed os nad yw'n cyd-fynd â phatrwm taliadau (e.e. mae premiwm yn cael ei dalu ar gychwyn y brydles). Mae costau uniongyrchol cychwynnol yn gysylltiedig â negodi a threfnu'r brydles yn cael eu hychwanegu at swm cario'r ased perthnasol a chodir amdanynt fel cost dros gyfnod y brydles ar yr un sail ag incwm rhent.

19. Taliadau i Refeniw ar gyfer Asedau Anghyfredol

Mae gwasanaethau a gwasanaethau cefnogol yn gyfrifol am y symiau canlynol er mwyn cofnodi gwir gost dal asedau anghyfredol yn ystod y flwyddyn:-

- Dibrisiant asedau a ddefnyddir gan y Gwasanaeth;
- Ailbrisio a cholledion amhariad ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes unrhyw enillion cronedig yn y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn y gellir dileu'r colledion yn ei herbyn; a
- Amorteiddio asedau anniriaethol sydd i'w priodoli i'r gwasanaeth.

Nid yw'n ofynnol i'r Cyngor godi'r dreth gyngor i dalu am y costau hyn. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i neilltuo cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at ei ofyniad benthyca cyffredinol. Felly, disodlir y costau hyn gan y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP) trwy drafodyn addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru reoliadau newydd yn 2008/09 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer MRP, gan gynnwys opsiwn i ddarparu MRP dros oes ased. Mae'r polisi hefyd yn caniatáu gohirio'r MRP tan y comisiynir yr ased.

Cyfrifir darpariaeth y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn hanesyddol fel 2% o Ofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) CRT. Yn 2015, newidiodd Llywodraeth Cymru'r penderfyniad i ganiatáu mwy o opsiynau ar sut i gyfrifo cost MRP CRT. Argymhellwyd y bydd defnyddio'r dull oes ased yn rhoi'r NPV uchaf ar gyfer benthyciadau gyda chefnogaeth a digefnogaeth, a'r opsiwn mwyaf fforddiadwy ar gyfer cenedlaethau presennol a'r dyfodol yw'r opsiwn lle mae'r blwydd-dal yn seiliedig ar oes ased 60 mlynedd gan ddefnyddio cyfradd fenthyca ar gyfartaledd y Cyngor o 4.58%. Felly, ar gyfer benthyciadau CRT gyda chefnogaeth a digefnogaeth mae'r dull oes ased dros gyfnod o 60 mlynedd ar gyfradd llog o 4.58% yn cael ei weithredu o 1 Ebrill 2022. Bydd hyn yn caniatáu dull mwy darbodus na'r dull cyfredol gan y bydd CFR yn cymryd 60 mlynedd i leihau i sero yn hytrach na 300.

Cofnodir trafodion mewn perthynas ag eiddo buddsoddi yn erbyn llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsodd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

20. Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth

P'un a ydynt yn cael eu talu ar gyfrif, trwy randaliadau neu fel ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti fel rhai sy'n ddyledus i'r Cyngor pan fo sicrwydd rhesymol:-

- y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm â'r taliadau; ac
- y derbynnir y grantiau neu gyfraniadau.

Ni chaiff symiau a gydnabyddir fel rhai sy'n ddyledus i'r Cyngor eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes bydd yr amodau sydd ynghlwm i'r grant neu'r cyfraniad yn cael eu bodloni. Amodau grant yw'r gofynion y mae'n rhaid eu diwallu er mwyn bod yn gymwys i dderbyn y grant, er enghraifft, adeiladu ysgol neu allbynnau allweddol a benodir o fewn yr amodau. Mae unrhyw arian a roddwyd fel grantiau a chyfraniadau, a'r amodau perthnasol heb eu bodloni, yn cael eu cario yn y Fantolen fel credydwy. Pan fo'r amodau'n cael eu bodloni, mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei roddi fel credyd yn y llinell gwasanaeth perthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw priodoladwy) neu fel Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau refeniw heb eu hamgáu a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrddroi o Balans Cronfa'r Cyngor drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan fo grant heb ei ddefnyddio eto i gyllido gwariant cyfalaf, mae'n cael ei symud i'r Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn Na Chawsant Eu Defnyddio. Pan fo wedi'i ddefnyddio, mae'n cael ei symud i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Mae'r symiau yn y Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn Na Chawsant Eu Defnyddio yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf unwaith y cânt eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf.

Mae rhai cyrff sy'n rhoddi grantiau yn gosod cyfyngiadau neu'n pennu i ba bwrpas y gellir defnyddio'r grant ond nid ydynt yn dweud a fydd angen ad-dalu'r grant ai peidio.

21. Gwariant Refeniw a Gyllidir gyda Chyfalaf Dan Statud (REFCUS)

Mae gwariant yr aethpwyd iddo yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu dan ddarpariaethau statudol ond yn wariant nad yw'n creu ased anghyfredol wedi ei godi fel gwariant i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Pan fo'r Cyngor wedi penderfynu cwrdd â chost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu trwy fenthycu, mae trosglwyddiad yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yna'n gwyrddroi'r symiau a godwyd fel nad oes effaith ar lefel y Dreth Gynghor.

22. Gorbenion a Gwasanaethau Cefnogol

Mae costau gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu codi ar y gwasanaethau hynny sy'n cael y buddiant o'r cyflenwad neu o'r gwasanaeth yn unol â threfniadau'r Awdurdod ar gyfer atebolrwydd a pherfformiad ariannol ar gyfer y pwrpas o gyfrifyddu cost llawn ar gyfer dychweliadau ystadegol statudol, er enghraifft, dychweliadau blynyddol RA a RO'r Llywodraeth. Fodd bynnag, ar gyfer monitro'r gyllideb a'r cyfrifon blynyddol statudol, fe eithrir ad-daliadau ac fe adroddir ar wasanaethau corfforaethol a chefnogol fel cylchranau gwasanaeth ac fe'i delir yn gyfrifol am reolaeth cyllideb.

23. Arian Tramor

Mae gan y Cyngor nifer o gynlluniau a gaiff gymorth grant o Ewrop lle mae'r grantiau efallai'n cael eu dyrannu mewn Ewros (mai nifer y cynlluniau hyn yn lleihau). Agorwyd cyfrif banc Ewro i gefnogi'r cynlluniau hyn. Caiff y balans ar y cyfrif hwn ar ddiwedd y flwyddyn ei drosi yn ôl y cyfraddau cyfnewid fel yr oeddynt ar 31 Mawrth, gyda'r enillion neu'r colledion canlyniadol yn cael eu cydnabod yn y linell Incwm a Gwariant Cyllido

a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

24. Buddiannau'r Gweithwyr

Buddiannau sy'n daladwy yn ystod cyflogaeth

Y buddiannau tymor byr i'r gweithwyr yw'r rheini sy'n cael eu talu cyn pen 12 mis i ddiwedd y flwyddyn - buddiannau megis cyflogau wythnosol a misol, gwyliau blynyddol gyda thâl, absenoldeb gwaeledd gyda thâl, taliadau bonws a buddiannau heblaw arian i'r gweithwyr presennol a'r rheini'n cael eu cydnabod fel treuliau i'r gwasanaethau yn ystod y flwyddyn pryd y rhydd y gweithwyr wasanaeth i'r Cyngor. Darperir ffigwr cronrus ar gyfer costau hawliadau gwyliau (neu unrhyw fath o absenoldeb, e.e. amser i ffwrdd *in lieu*) a enillwyd gan weithwyr a'r rheini heb eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn a hawl ganddynt i'w cario drosodd i'r flwyddyn ariannol ddilynol.

Mae'r ffigwr cronrol yn seiliedig ar y cyfraddau perthnasol i gyflogau wythnosol a misol yn y flwyddyn gyfrifo ddilynol, sef pryd y bydd y gweithiwr yn cymryd y budd. I atal amrywiadau gael effaith ar y Dreth Gyngor, mae'r newidiadau blwyddyn ar flwyddyn yn y gost a gynhyrchir gan y cronni yma'n cael ei godi yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau, ond wedyn caiff ei wyrddroi trwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn i'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Cronrol, fel bod buddiannau gwyliau yn cael eu codi yn erbyn refeniw yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau'n digwydd ynddi.

Nid yw'r Cyngor yn rhoddi buddiannau tymor hir i weithwyr h.y. y rheini nad oes disgwyl y byddant yn cael eu talu neu eu setlo cyn pen 12 mis i ddyddiad y Fantolen.

Buddiannau Terfynu

Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Cyngor i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol cyffredin neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol. Codir y buddiannau hyn ar sail gronrol i'r llinell gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan na fedr y Cyngor mwyach dynnu'n ôl y cynnig o'r buddiannau hynny neu mewn achosion lle mae'r Awdurdod yn cydnabod costau ailstrwythuro.

Pan fo buddiannau terfynu'n golygu ychwanegu at bensiynau (fel arfer ar ffurf blynyddoedd ychwanegol), mae darpariaethau statudol yn mynnu bod y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu bensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifiwyd yn unol â'r safonau cyfrifo perthnasol, yn cael ei godi ar Falans y Gronfa Gyffredinol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae angen symud arian i mewn ac allan o'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau er mwyn cael gwared â'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer ychwanegiadau pensiwn a dalwyd fel buddiannau ar adeg terfynu cyflogaeth a rhoi yn eu lle ddebydau ar gyfer yr arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

Buddiannau Ôl-Gyflogaeth

Mae gan weithwyr y Cyngor hawl i fod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn sydd ar wahân i'w gilydd:-

- Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar ran yr Adran Addysg; a
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddiannau diffiniedig i aelodau (lwmp swm ymddeol a phensiwn), a enillwyd tra oedd gweithwyr yn gweithio i'r Cyngor.

Cynllun Pensiwn Athrawon

Oherwydd trefniadau cynllun yr athrawon, nid yw'n bosib fel arfer priodoli'r atebolrwydd am y buddiannau hyn i'r Cyngor. Felly, mae cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid oes yn y Fantolen gydnabyddiaeth yng nghyswllt unrhyw atebolrwydd i dalu buddiannau yn y dyfodol. Codir yn erbyn y llinell Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yng nghyswllt cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Asiantaeth Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Gall unrhyw weithwyr (ac eithrio athrawon) a Chynghorwyr, yn amodol ar feini prawf cymhwyso penodol, ymuno gyda'r Cynllun Pensiwn ar gyfer Llywodraeth Leol. Enw'r Cynllun yw Cronfa Bensiwn Gwynedd a chaiff ei gweinyddu gan Gyngor Gwynedd yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ar ran y cyflogwyr sy'n rhan ohono. Yn unol â Safona Cyfrifo Rhyngwladol (SCRh19), mae'r Cynllun ar gyfer Llywodraeth Leol yn cael ei gyfrif fel cynllun buddiannau diffiniedig.

Mae'r rhwymedigaethau i Gynllun Pensiwn Gwynedd a briodolir i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen yn ôl dull actiwaraid gan ddefnyddio'r dull uned rhagamcanedig - h.y. asesiad o'r taliadau a wneir yn y dyfodol yng nghyswllt buddiannau ymddeoliad a enillwyd hyd yma gan y gweithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau yng nghyswllt cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant y gweithwyr, ayyb., a hefyd ar ragamcanion yng nghyswllt enillion rhagamcanedig y gweithwyr presennol.

Rhoddir disgownt yn erbyn y rhwymedigaethau i lawr i'w gwerth yn ôl prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt real, yn seiliedig ar raddfa dychweliad arwyddol ar fondiau Llywodraeth y DU wedi ei addasu ar gyfer ychwanegiad at y cynnyrch sy'n adlewyrchu'r risg ychwanegol sydd ynghlwm wrth ddefnyddio cynnyrch Bondiau Corfforaethol AA - a adwaenir fel taeniad credyd.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd a briodolir i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg:-

- Stociau a ddyfynnir - pris bid presennol;
- Stociau heb eu dyfynnu - amcangyfrif proffesiynol;
- Stociau fesul uned - pris bid bresennol; ac
- Eiddo – eu gwerth ar y farchnad.

Mae'r newid yn y rhwymedigaethau pensiwn net yn cael ei ddadansoddi fesul pedwar rhan:-

a) Costau gwasanaeth cyfredol - cynnydd yn y rhwymedigaethau oherwydd nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - wedi ei ddyrannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y mae'r gweithwyr yn gweithio iddynt.

b) Costau gwasanaeth y gorffennol - y cynnydd yn y rhwymedigaethau oherwydd penderfyniadau a wnaed eleni ac effaith y rheini yn ymwneud â nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd ym mlynedd y gorffennol - debyd i Warged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r Costau na Ddosberthir. Llog net ar yr ymrwymiad net o ran buddiannau diffiniedig, h.y. y costau llog net i'r Cyngor - mae'r newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad net o ran buddiannau diffiniedig sy'n codi o dreigl amser yn cael ei godi i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae hyn yn cael ei glandro drwy ddefnyddio'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddiwyd i fesur yr ymrwymiad o ran buddiannau diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod, i'r ymrwymiad net diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod (gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad o ran buddiannau diffiniedig net (yr ased) yn ystod y cyfnod fel canlyniad cyfraniadau a thaliadau buddiannau).

c) Atebolrwydd budd-dal (ased) yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd-daliadau).

d) Ail-fesuriad yn cynnwys:-

- Yr enillion ar asedau'r cynllun (ac eithrio unrhyw symiau sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y llog net ar fuddiannau net diffiniedig) sy'n cael ei godi i'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall;
- Enillion a Cholledion Actiwaraid - newidiadau yn yr ymrwymadau pensiwn net sy'n codi am nad yw'r digwyddiadau yn cyfateb i'r rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraid diwethaf neu oherwydd bod yr actiwaraid wedi diweddarau eu rhagdybiaethau. Mae hyn yn cael ei godi i'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

e) Cyfraniadau a dalwyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian parod a dalwyd i mewn fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa pensiwn fel setliad o rwymedigaethau; heb ei gyfrif fel traul.

Mewn perthynas â buddiannau ymddeol, mae darpariaethau statudol yn mynnu bod y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa pensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifwyd yn unol â'r safonau cyfrifo perthnasol, yn cael ei godi ar Falans y Gronfa Gyffredinol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn, mae angen symud arian i mewn ac allan o'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau er mwyn cael gwared â'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddiannau ymddeol a rhoi yn eu lle ddebydau ar gyfer yr arian a dalwyd i'r gronfa pensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol yn y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau felly'n fesur o'r manteision i'r Gronfa Gyffredinol yn sgil yr arfer o gyfrif am fuddiannau ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na phan enillir buddiannau gan weithwyr.

Buddiannau Dewisol

Yn ogystal, mae gan y Cyngor rai pwerau cyfyngedig i dalu buddiannau ymddeoliad dewisol pan fo gweithwyr yn ymddeol yn gynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau y tybir eu bod am godi yn sgil rhoi dyfarniad i unrhyw aelod o staff (gan gynnwys athrawon) yn cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad a gwneir cyfrif amdanynt gan ddefnyddio'r un polisiâu â'r rheini a ddefnyddir yng nghyswllt Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

25. Eitemau Eithriadol

Lle mae hynny'n berthnasol a lle mae eitemau o incwm a gwariant yn sylweddol yng nghyswllt y cyfrifon yma, caiff natur a swm yr eitemau eu datgelu ar wahân naill ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau ar y cyfrifon, gan ddibynnu ar arwyddocâd yr eitemau o ran cael dealltwriaeth o berfformiad ariannol y Cyngor.

26. Cyfrifo am TA (Trethi Annomestig)

Gan fod y Cyngor yn gweithredu fel asiant ar gyfer casglu incwm TA, nid yw'n cynnwys y sefyllfa ariannol o ran y trethdalwyr ac nid yw ond yn adrodd ar y sefyllfa ariannol net gyda Llywodraeth Cymru yn ei Fantolen. Felly, os ydi'r swm a gesglir gan yr Awdurdod oddi ar drethdalwyr TA (net y gost o lwfans casglu) yn fwy na delir i Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth, mae'r swm sydd heb ei dalu eto i Lywodraeth Cymru in cael ei gynnwys yn y Fantolen fel credydwr. Yn yr un modd, os yw'r arian a dalwyd i Llywodraeth Cymru yn fwy na'r arian a gasglwyd gan drethdalwyr TA (net y gost o lwfans casglu), mae'r swm dros ben yn cael ei gynnwys yn y Fantolen fel dyledwr. Mae'r Cyngor yn cadw cofnod o ddyledion TA, lwfansau amhariad, rhagdaliadau a gordaliadau yn ei gofnodion cyfrifon sylfaenol; fodd bynnag, i ddiben y cyfrifon terfynol, caiff y balansau hyn eu cyfuno'n un cyfrif asiantaeth, gyda'r ffigurau ar gyfer dyledwyr/credydwyr yn ymddangos fel ffigur net ar gyfer y gronfa genedlaethol. Cost y lwfans casglu a dderbynnir gan Gyngor Sir Ynys Môn yw incwm y Cyngor sy'n bilio a chaiff ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Nid yw'r arian a gasglwyd gan drethdalwyr TA yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Llif Arian heblaw am yr arian a ddelir yn ôl mewn perthynas â'r lwfans casglu. Mae unrhyw wahaniaeth rhwng yr arian a gasglwyd oddi wrth drethdalwyr TA â'r arian sydd yn cael ei dalu i'r Gronfa Drethi Annomestig yn cael ei gynnwys o fewn y gweithgareddau ariannol yn Natganiad y Llif Arian.

27. Incwm a Gwariant Asiantaeth

Yn unol ag amryfal bwerau statudol, gall Cyngorau gytuno gydag awdurdodau lleol eraill, cwmnïau dŵr ac adrannau'r llywodraeth i wneud gwaith ar eu rhan.

Caiff y corff sy'n gwneud y gwasanaethau asiantaeth ei ad-dalu gan y corff cyfrifol hyd at swm a gymeradwywyd ynghyd ag unrhyw gyfraniad y cytunwyd arno tuag at gostau gweinyddol. Dim ond y symiau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor, er enghraifft y ffioedd a gafwyd am ddarparu gwasanaethau'r asiantaeth, fydd yn cael eu cynnwys yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Cyngor.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi gweithredu yn ystod y flwyddyn fel asiant ar ran:-

Llywodraeth Cymru - casglu Trethi Annomestig (TA) a thalu'r symiau a gasglwyd i Lywodraeth Cymru, llai'r swm a gadwyd yn ôl ar gyfer y lwfans costau casglu;

Llywodraeth Cymru – Benthyciadau Cartrefi Gwag, lle mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant rhwng Llywodraeth Cymru a derbynyddion y Benthyciadau Cartrefi Gwag.

Llywodraeth Cymru - mae'r Cyngor wedi gweithredu fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru wrth dalu Grantiau Busnes Covid i gefnogi busnesau penodedig yn ystod y pandemig yn enwedig i gefnogi busnesau yn ystod y cyfnod clo.

DATGANIAD ARIANNOL ATODOL

CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

Datganiad Incwm a Gwariant am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

	2024/25 £'000	2023/24 £'000
<u>Gwariant</u>		
Rheoli a Chynnal a Chadw - Atgyweirio a Chynnal a Chadw	6,183	5,562
Rheoli a Chynnal a Chadw - Goruchwyllo a Rheoli	6,508	5,783
Rhenti, Ardrethi, Trethi a Thaliadau Eraill	102	90
Dibrisiant, Amhariad a Cholledion Ailbrisio Asedau Anghyfredoll	3,700	3,358
Costau Rheoli Dyled	12	12
Symudiad yn y Ddarpariaeth Amhariad ar gyfer Drwg Dyledion	153	147
Symudiad yng Nghroniad Absenoldebau Cronedig	(76)	117
Addasiad Cyfrifed IAS19	(120)	-
Cyfanswm Gwariant	16,462	15,069
<u>Incwm</u>		
Rhenti Preswyl	(22,184)	(20,702)
Rhenti Dibreswyl	(264)	(246)
Taliadau am Wasanaethau a Chyfleusterau	(176)	(175)
Cyfraniadau tuag at Wariant	(292)	(240)
Arall	(167)	(116)
Cyfanswm Incwm	(23,083)	(21,479)
Gwariant Net Gwasanaethau CRT fel yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yr Awdurdod Cyfan	(6,621)	(6,410)
Cyfran Gwasanaethau CRT o'r Costau Craidd Corfforaethol a Democrataidd	56	56
Gwariant Net Gwasanaethau CRT	(6,565)	(6,354)
Cyfran Gwasanaethau CRT o'r Incwm a Gwariant Gweithredol yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yr Awdurdod Cyfan		
(Ennill) ar werthu Asedau Anghyfredol CRT	211	(15)
Cost llogau pensiwn net	27	-
Llog Taladwy a Thaliadau Cyffelyb	1,380	1,436
Llog ac Incwm o Fuddsoddiad	(385)	(487)
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Derbyniadwy:	-	-
- Lwfans Atgyweiriadau Mawr	(3,816)	(2,690)
- Arall	(13,614)	(4,316)
Gwarged am y Flwyddyn ar Wasanaethau CRT	(22,762)	(12,426)

Datganiad Symudiadau ar Falans y CRT

Eitemau a gynhwysir yn y Cyfrif Incwm a Gwariant CRT ond a eithriwyd o'r symudiad ar Falans CRT am y flwyddyn

	2024/25 £'000	2023/24 £'000
Balans y CRT ar ddiwedd y Cyfnod Adrodd Blaenorol	(8,189)	(12,107)
Diffyg/(Gwarged) am y Flwyddyn ar Wasanaethau CRT	(22,762)	(12,426)
Addasiadau rhwng Seiliau Cyfrifo ac Cyllido yn ôl Statud	22,974	16,499
Gostyngiad/(Cynnydd) Net cyn Trosglwyddiadau i / o Gronfeydd Wrth Gefn	212	4,073
Trosglwyddiadau i / (o) Gronfeydd Wrth Gefn Clwsnodedig	-	(155)
Gostyngiad/ (Cynnydd) Net yn y Flwyddyn ar y CRT	212	3,918
Addasiad i gronfeydd wrth gefn	-	-
Balans y CRT ar ddiwedd y Cyfnod Adrodd Cyfredol	(7,977)	(8,189)

NODIADAU AR Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

NODYN 1 – CYFRIF REFENIW TAI

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn gofnod o wariant ar, ac incwm o, ddarparu tai Cyngor lleol, ac mae ffurf a chynnwys y Cyfrif yn cael ei ragnodi gan statud. Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei "amgáu" a rhaid iddo fod yn hunangynhaliol. Mae cyfraniadau i ac o'r Cyfrif Refeniw Tai (e.e. o Gronfa'r Cyngor) yn cael eu cyfyngu i amgylchiadau arbennig.

NODYN 2 – STOC TAI

Ar 31 Mawrth 2025, roedd y nifer o dai yn 3980, sy'n gynydd o 28 eiddo o blwyddyn 2023/24. Mae'r dadansoddiad yn ôl math o dŷ fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2025	31 Mawrth 2024
Stoc y Cyngor		
Tai	2,137	2,112
Tai Unllawr	1,065	1,066
Fflatiau	770	766
Fflatiau un ystafell	8	8
Cyfanswm Stoc y Cyngor	3,980	3,952

NODYN 3 – GWARIANT CYFALAF CYFRIF REFENIW TAI

	2024/25 £'000	2023/24 £'000
Gwariant Cyfalaf		
Tir	1,388	1,941
Anneddau	24,496	16,827
Arall - Cyfleusterau Anabledd ac Addasiadau	474	422
Arall - Adeiladau Swyddfa	229	-
Arall - Cyfleusterau Gofal Cymdeithasol	909	307
Arall - Garejys	103	308
Arall - Cerbydau	-	-
Arall - Meysydd Parcio	99	-
Cyfanswm	27,698	19,806
Ffynonellau Cyllido		
Grantiau llywodraeth a chyfraniadau eraill	(17,430)	(7,161)
Derbyniadau cyfalaf	(1,141)	-
Cyllido Refeniw Uniongyrchol	(9,127)	(12,645)
Cyfanswm	(27,698)	(19,806)

Defnyddiwyd y Lwfans Atgyweiriadau Mawr o £3.886mm ar gyfer 2024/25 yn llawn yn ystod y flwyddyn (£2.690m yn 2023/24).

NODYN 4 – DIBRISANT, AMHARIAD A COLLEDIION AILBRISIO MEWN PERTHYNAS AG EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

	2024/25 Ailbriso £'000	2024/25 Dibrisiant £'000	2024/25 Cyfanswm £'000	2023/24 Dadgydnabod £'000	2023/24 Dibrisiant £'000	2023/24 Cyfanswm £'000
Tir	-	-	-	-	-	-
Anheddau	-	3,261	3,261	-	2,679	2,679
Eiddo Arall – Asedau Gweithredol	-	418	418	154	404	558
	-	3,679	3,679	154	3,083	3,237

NODYN 5 – DEBYNIADAU CYFALAF

Gwerthwyd pump cartrefi yn 2024/25 gyda derbyniadau cyfalaf o £632k a dderbyniwyd i'r arian wrth gefn derbyniadau cyfalaf (£509k yn 2023/24). Gwerthwyd y rhain ar gyfartaledd rhannu lle mae gan y Cyngor gynnig cyfreithiol am 30% o werth y gweithrediadau pan fo'r amodau o'r cytundeb cyfreithiol yn cael eu bodloni. Nid yw hyn yn cael ei gynnwys yn cyfrifon y Cyngor ar 31 Mawrth 2025 gan fod gwerth 30% y Cyngor yn y dyfodol yn ormodol ansicr er y byddai'n rhaid iddo fod yn sylweddol uwch na gwerth y 30% ar 31 Mawrth 2025. Derbyniodd y Cyngor incwm am 70% o werth y farchnad pan werthwyd y gweithrediadau oherwydd y byddai'n cadw perchnogaeth o 30%.

NODYN 6 – ÔL-DDYLEDION RHENT A LWFANS COLLI NAM

Yn ystod 2024/25, gostyngodd cyfanswm ôl-ddyledion rhent £107k. Dangosir crynodeb o ôl-ddyledion rhent a rhagdaliadau yn y tabl canlynol: -

Ôl-ddyledion Rent	2024/25 £'000	2023/24 £'000
Ôl-ddyledion Tenantiaid Cyfredol	786	718
Ôl-ddyledion Gyn-denantiaid	261	222
Cyfanswm Ôl-ddyledion Rent	1,047	940

Gwnaed lwfans yn y Fantolen ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ar gyfer rhenti, roedd hyn yn £771k (£685k yn 2023/24).

NODYN 7 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Cyngor yn cynnig buddiannau ymddeoliad. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy hyd nes bo'r gweithwyr yn ymddeol, mae gan y Cyngor ymrwymiad i wneud y taliadau sydd angen eu datgelu ar yr adeg mae gweithwyr yn ennill eu hawl ar gyfer y dyfodol. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae hyn yn gynllun a gyllidir, sy'n golygu fod y Cyngor a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, sydd wedi ei chyfrifo ar lefel a fwriedir i gydbwysu rhwymedigaethau'r pensiwn gydag asedau buddsoddiad.

Cydnabyddir cost buddiannau ymddeoliad yng Nghost Net y Gwasanaethau pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan fo'r fath fuddiannau yn cael eu talu yn y pen draw fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r tâl y mae gofyn ei godi yn erbyn y Cyfrif Refeniw Tai wedi ei seilio ar yr arian sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly, mae cost wirioneddol buddiannau ymddeoliad yn cael ei wyrdroi allan o'r Cyfrif Refeniw Tai ar ôl Gwariant Gweithredu Net. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Cyfrif Refeniw Tai yn ystod y flwyddyn:-

Pensiynau	2024/25 £'000	2023/24 £'000
Cost gwasanaeth cyfredol SCR19	673	736
Costau heb eu hariannu	73	70
Cyfanswm costau gwasanaeth SCR19	746	806
Llai: costau gwirioneddol cyflogwr	(866)	(820)
Symudiad l arian wrth gefn pensiynau	(120)	(14)
Cost Gwasanaeth Gyfredol wedi'i gynnwys yn symudiad mewn cronfeydd wrth gefn	120	14
Cost llogau pensiwn net	(27)	-
Cost llogau pensiwn net wedi'i gynnwys yn symudiad mewn cronfeydd wrth gefn	27	-
Cyfanswm yr effaith ar gronfa wrth gefn y gellir ei defnyddio	-	-

DATGELIAD PARTI CYSYLLTIEDIG – CYNRYCHIOLAETH CYDRANDDEILIAID GYDA SEFYDLIADAU TRYDYDD PARTI	
Grŵp Mynediad Ynys Môn	Liz Wood
Sioe Amaethyddol Môn	Dafydd Roberts
Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Ynys Môn a Gwynedd	Alun Roberts
Canolfan Cyngor ar Bopeth Ynys Môn	Robin Wyn Williams
Fforwm Iaith Môn	Gwilym O Jones, Gary Pritchard, Arfon Wyn, Dafydd Roberts
Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (Ynys Môn)	Paul Ellis, John Ifan Jones, Pip O'Neill, Gary Pritchard, Dafydd Rhys Thomas
Grŵp Cyfeirio Cydranddeiliaid Betsi Cadwaladr	Alun Roberts
Pencampwr Anghenion Dysgu Ychwanegol	Arfon Wyn
Pencampwr Diogelu Oedolion	Alun Roberts
Pencampwr Gofalwyr	Trefor Lloyd Hughes MBE
Pencampwr Plant a Phobl Ifanc	Llio Angharad Owen
Pencampwr Plant Mewn Gofal	Dyfed Wyn Jones
Pencampwr Newid Hinsawdd	Geraint ap Ifan Bebb
Pencampwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Alun Roberts
Pencampwr Aelodau	Dylan Rees
Pencampwr Sgriwtini	Douglas Massie Fowlie
Pencampwr Lluedd Arfog	Glyn Haynes
Llys Llywodraethwyr Prifysgol Bangor	Dafydd Roberts
Cwmni Frân Wen	Gary Pritchard
Partneriaeth Cyrchfan Môn	Dafydd Roberts
Cyngor Llyfrau Cymru	Neville Evans
Panel Maethu	Gary Pritchard
Pencampwr Oed Gyfeillgar	Gwilym O Jones
Grŵp Llandrillo/Menai	Dafydd Roberts
Cyd-Bwyllgor GwE	Dafydd Roberts
Panel Mabwysiadu Gwynedd a Môn	Alun Roberts

DATGELIAD PARTI CYSYLLTIEDIG – CYNRYCHIOLAETH CYDRANDDEILIAID GYDA SEFYDLIADAU TRYDYDD PARTI	
Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn	Dyfed Wyn Jones
Pwyllgor Cronfa Bensiynau Gwynedd (Cyngor Gwynedd)	Robin Wyn Williams
Cyngor Cyswllt Cymru WLGA	Carwyn Jones, Robin Wyn Williams
Medrwn Môn	Gary Pritchard
Bwrdd Aelodau Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru (CLAW)	Dafydd Rhys Thomas
Menter Môn	Gary Pritchard
Cyd-Bwyllgor Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru	Dafydd Rhys Thomas
Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (Pwyllgor Lleol Môn)	Trefor Lloyd Hughes MBE, Non Dafydd, Jeff M Evans
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Gary Pritchard
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	Jeff M Evans, John Ifan Jones, Dylan Rees
Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	Jeff M Evans
Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	John Ifan Jones, Dylan Rees
Cymdeithas Tai Gogledd Cymru	Robin Wyn Williams
Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	Non Dafydd
Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru (Gofal a Llesiant)	Gary Pritchard
Grŵp Llywio Adolygiad Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru	Dafydd Rhys Thomas
Cyd-bwyllgor Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru	Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas
Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru	Neville Evans
Ymddiriedolaeth Addysgol Owen Lloyd, Penrhoslligwy	Margaret Murley Roberts
Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (Môn a Gwynedd)	Gary Pritchard
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014)	Gary Pritchard, Alun Roberts
Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel	Alun Roberts
Ymddiriedolaeth yr Harbwr, Caernarfon	Dafydd Rhys Thomas
Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol	Jeff M Evans, Gwilym O Jones, Jackie Lewis, Keith Roberts, Arfon Wyn
Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru	Gary Pritchard, Robin Wyn Williams

DATGELIAD PARTI CYSYLLTIEDIG – CYNRYCHIOLAETH CYDRANDDEILIAID GYDA SEFYDLIADAU TRYDYDD PARTI	
Grŵp Rhanddeiliad y Safle Wylfa	Kenneth Hughes, Aled Morris Jones, Gwilym O Jones, Jackie Lewis, Llio Angharad Owen, Derek Owen, Liz Wood

GEIRFA

ADDASIAD BLWYDDYN FLAENOROL

Mae Addasiad Blwyddyn Flaenorol yn addasiad perthnasol sy'n ymwneud â'r blynyddoedd blaenorol sy'n deillio o newidiadau mewn polisiâu cyfrifo neu gywiriad i gamgymeriadau sylfaenol. Nid yw hyn yn cynnwys cywiriadau cylchol arferol neu addasiadau o amcangyfrifon cyfrifo a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol.

ADNODDAU HYLIFOL

Buddsoddiadau ased cyfredol sy'n rhwydd i'w gwaredu gan y Cyngor heb aflonyddu ar ei fusnes ac sydd naill ai:

- ☐ Yn drosglwyddadwy'n hawdd i symiau hysbys o arian parod ar, neu'n agos at, y swm a gludir; neu
- ☐ Yn cael eu masnachu mewn marchnad weithredol.

AMHARIAD

Lleihad mewn gwerth ased anghyfredol dan ei swm a gludir yn y Fantolen. Fel arfer, mae hyn oherwydd digwyddiad sydd wedi gostwng gwerth ased yn sylweddol, er enghraifft tân neu os mae ased wedi darfod.

ARIAN A NEILLTUIR (APPROPRIATION)

Y symiau a drosglwyddir rhwng y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r cronfeydd refeniw neu gyfalaf wrth gefn.

ARCHWILIO CYFRIFON

Archwiliad annibynnol o faterion ariannol y Cyngor.

ARIAN A CHYWERTHOEDD ARIAN

Dyma'r arian mewn llaw, arian a ordynnwyd, arian a ddelir mewn cyfrifon banc a buddsoddiadau tymor byr (e.e. 3 mis) ac y gellir eu trosi'n rhwydd i symiau ariannol sy'n hysbys.

ASED

Eitem sydd â gwerth i'r Cyngor mewn termau ariannol. Mae asedau'n cael eu categorio fel rhai cyfredol neu rhai nad ydynt yn gyfredol:-

- Bydd ased cyfredol yn cael ei ddefnyddio neu â gwerth isel iawn yn y flwyddyn ariannol nesaf (e.e. arian parod a stoc);
- Mae asedau anghyfredol yn rhoi buddiannau i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n darparu ar eu cyfer am gyfnod o fwy na blwyddyn a gall fod yn ddiriaethol (e.e. canolfan gymuned), neu annirweddol (e.e. trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol).

ASED WRTH GEFN

Mae ased wrth gefn yn ased posib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor.

ASEDAU ANNIRIAETHOL

Gellir diffinio eitem anniriaethol (nid un ffisegol) fel ased pan fo'r mynediad at fuddiannau economaidd i'r dyfodol y mae'n ei gynrychioli'n cael ei reoli gan yr endid adrodd. Mae Asedau Anniriaethol y Cyngor hwn yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol.

ASEDAU CYMUNEDOL

Asedau mae'r Cyngor yn bwriadu eu dal am byth, nad oes iddynt oes ddefnyddiol benodadwy ac a all fod â chyfyngiadau ar eu gwaredu. Enghreifftiau o asedau cymunedol yw parciau ac adeiladau hanesyddol.

ASEDAU ISADEILEDD

Asedau anghyfredol sy'n perthyn i'r Cyngor na ellir eu trosglwyddo na'u gwerthu, y mae gwariant yn adferadwy yn unig drwy ddefnydd parhaus o'r ased a grëwyd. Enghreifftiau yw priffyrdd, llwybrau a phontydd.

ASEDAU GWEITHREDOL

Asedau anghyfredol sy'n cael eu dal a'u meddiannu, defnyddio neu eu treulio gan y Cyngor wrth iddo ddilyn ei strategaeth ac wrth gyflenwi'n uniongyrchol y gwasanaethau hynny y mae ganddo gyfrifoldeb drostynt naill ai'n statudol neu'n ddewisol.

ASEDAU NAD YDYNT YN WEITHREDOL

Asedau anghyfredol a ddelir gan y Cyngor ond nad ydynt yn cael eu meddiannu, defnyddio neu eu treulio'n uniongyrchol wrth gyflenwi gwasanaethau. Enghreifftiau yw eiddo buddsoddiad, asedau yn cael eu hadeiladu neu asedau gwarged i anghenion tra'n disgwyl eu gwerthu neu ailddatblygu.

ASEDAU TREFTADAETH

Ased sydd hefo rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol sydd yn cael ei ddal a'i gynnal yn bennaf am ei gyfraniad at wybodaeth a diwylliant.

BENTHYCA DI-GEFNOGAETH

Gall y Cyngor fenthyca arian ychwanegol i'r benthyca gyda chefnogaeth y Llywodraeth i gyllido ei wariant cyfalaf cyn belled a'i fod yn fforddiadwy a chynaliadwy. Fe lywodraethir y pŵer yma gan Gôd Pwylllog CIPFA, a mae'r Cyngor yn lwyr gydymffurfio â hwn.

BENTHYCA DROS DRO

Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

BENTHYCA GYDA CHEFNOGAETH

Mae'r Cyngor yn benthyca arian i gyllido rhan o'i raglen cyfalaf. Fe adnabyddir y benthycaid gan Lywodraeth Ganolog yn ei glandriad cyllido ar gyfer y Cyngor.

BUDD-DALIADAU TAI

System o gymorth ariannol i unigolion tuag at gostau tai penodol a weinyddir gan awdurdodau, gyda chymhorthdal gan lywodraeth ganolog.

BUDDIANNAU Â DISGRESIWN (PENSIYNAU)

Buddiannau ymddeoliad, nad oes gan y cyflogwr unrhyw rywmedigaeth gyfreithiol, gytundebol neu adeiladol i'w dyfarnu, ac sy'n cael eu dyfarnu'n ôl pwerau dewisol y Cyngor fel y Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau Dewisol) 1996.

BUDDIANNAU YMDDEOLIAD

Bob ffurf o gydnabyddiaeth a roddir gan gyflogwr yn lle gwasanaethau a gyflenwyd gan weithwyr sy'n daladwy ar ôl terfyn y gyflogaeth.

BUDDSODDIADAU (CRONFA BENSIWN)

Bydd buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn yn cael eu cyfrifo yn natganiadau'r gronfa honno. Fodd bynnag, mae'n ofynnol hefyd ar awdurdodau i ddatgelu, fel rhan o ofynion datgelu sy'n ymwneud â buddiannau ymddeoliad, cyfran o asedau'r cynllun pensiwn sy'n gysylltiedig â'u rhwymedigaethau gwaelodol.

BUSNES HYFYW

Y cysyniad fod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi ar y dybiaeth y bydd y Cyngor yn parhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol rhagweladwy.

BWRDD BENTHYCIADAU GWEITHIAU CYHOEDDUS (PWLB)

Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a/neu fwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheini y gall y llywodraeth fenthycu ei hun.

CIPFA

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo. Y prif gorff proffesiynol a rheoleiddiol ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol.

COLLEDION CREDYD

Hwn yw'r gwahaniaeth rhwng y symiau arian sy'n ddyledus i'r Awdurdod yn unol â'r contract a'r holl lif arian ddisgwylir i'r Awdurdod ei dderbyn, wedi ei ddisgowntio ar y raddfa llog effeithiol gwreiddiol.

COLLEDION CREDYD DISGWYLIEDIG 12 MIS

Hwn yw'r cyfran o golledion credyd disgwylidig oes gyfan sy'n cynrychioli'r colledion credyd disgwylidig sy'n deillio o ddiffyg offeryn ariannol sy'n bosib o fewn deuddeng mis ar ôl y dyddiad adrodd.

CONTRACT TYMOR HIR

Contract a ffurfir ar gyfer dylunio, cynhyrchu neu adeiladu ased sylweddol unigol neu ddarpariaeth gwasanaeth (neu gyfuniad o asedau neu wasanaethau sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio prosiect unigol), ble bo'r amser a gymerir i gwblhau'n sylweddol y contract o'r fath fel ei fod yn disgyn i mewn i fwy nag un flwyddyn ariannol.

COST GWASANAETH CYFREDOL (PENSIYNAU)

Y cynnydd mewn gwerth cyfredol o rwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y disgwylir iddo ddeillio o wasanaeth gweithiwr yn y flwyddyn bresennol.

COST GWASANAETH YN Y GORFFENNOL (PENSIYNAU)

Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y cynnydd yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun sy'n gysylltiedig â gwasanaeth gweithiwr mewn blynyddoedd ariannol blaenorol sy'n deillio yn y flwyddyn ariannol bresennol o ganlyniad i gyflwyno neu wella buddiannau ymddeoliad.

COSTAU HEB EU DOSBARTHU

Dyma orbenion nad yw unrhyw ddefnyddiwr yn cael budd ohonynt yn awr ac, fel y cyfryw, nid ydynt yn cael eu dosrannu i wasanaethau.

COST LLOG (PENSIYNAU)

Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig, y cynnydd disgwylidig yn ystod y flwyddyn ariannol o werth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun oherwydd bod y buddiannau yn un flwyddyn ariannol yn agosach at setliad.

CORFFORAETHOL A DEMOCRATAIDD CRAIDD

Mae'r Corfforaethol a Democrataidd Craidd yn cynnwys yr holl weithgareddau penodol y mae awdurdodau lleol yn ymgymryd â nhw oherwydd eu bod yn awdurdodau etholedig, amlbwrpas. Felly, mae cost y gweithgareddau hyn yn uwch na phe byddai cyfres o gyrff annibynnol, un pwrpas, enwebedig yn rheoli'r un gwasanaethau. Felly, nid oes sail resymol dros ddyrannu'r costau hyn i wasanaethau.

COSTAU CYLLIDO CYFALAF

Costau cyllido cyfalaf yw unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o fenthycu i gyllido prosiectau cyfalaf. Tuedda rhain i fod y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a gymerir a'r gost Darparieth Refeniw Isaf (MRP) a godir ar gyllid prosiectau drwy fenthyciadau. Y MRP yw'r isafswm mae'n rhaid codi i'r cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn daparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a symiau arall fenthycwyd gan y Cyngor.

CREDYDWR

Swm sy'n ddyledus i unigolion neu sefydliadau eraill gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y flwyddyn ariannol honno.

CRONFEYDD WRTH GEFN

Croniad gwarged, diffygion a meddiannau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cronfeydd wrth gefn o natur refeniw ar gael a gellir eu gwario neu eu clustnodi ar ddisgresiwn y Cyngor. Ni ellir defnyddio peth cronfeydd wrth gefn cyfalaf, fel y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, i gwrdd â gwariant cyfredol.

CRONFEYDD WRTH GEFN DEFNYDDIADWY

Symiau penodol a osodir o'r neilltu ar gyfer pwrpasau polisi'r dyfodol neu ar gyfer digwyddiadau annisgwyl. Gall eu defnyddio i gyllido gwariant neu i leihau trethi.

CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO

Y cronfeydd wrth gefn a ddefnyddir i amsugno'r gwahaniaeth rhwng y canlyniad o ddefnyddio ymarferion cyfrifo cywir â gofyniad trefniadau statudol ar gyfer cyllido gwariant. Mae cronfeydd wrth gefn o'r fath yn cynnwys enillion a cholledion heb eu gwireddu mewn perthynas ag ail-brisio eiddo, offer a chyfarpar ble mae rhaid gwerthu'r ased cyn i'r gwerth fod ar gael.

CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH

Cronfeydd a weinyddir gan y Cyngor i bwrpasau fel gwobrwyon, elusennau, prosiectau penodol ac ar ran plant dan oed.

CRONIADAU

Symiau a gynhwysir yn y cyfrifon terfynol i gydnabod nwyddau/gwasanaethau a dderbyniwyd yn y flwyddyn neu incwm a gwariant a enillwyd neu yr aethpwyd iddo yn y flwyddyn ariannol, ond nad oedd taliad gwirioneddol wedi ei dderbyn neu ei wneud ar ei gyfer ar 31 Mawrth.

CYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Yr holl symiau a delir i, neu sy'n dderbyniadwy gan, weithiwr a symiau sy'n ddyledus trwy lwfansau treuliau (cyn belled ag y mae'r symiau hynny'n daladwy yn nhreth incwm y DU) a gwerth ariannol unrhyw fuddiannau eraill a dderbyniwyd heblaw mewn arian parod. Mae cyfraniadau pensiwn sy'n daladwy gan y cyflogwr yn cael eu heithrio.

CYFNOD CYFRIFO

Y cyfnod o amser a gynhwysir yn y cyfrifon, fel arfer cyfnod o ddeuddeng mis yn cychwyn ar 1 Ebrill. Diwedd y cyfnod cyfrifo yw dyddiad y Fantolen, fel arfer 31 Mawrth y flwyddyn ddilynol.

CYFRIF REFENIW TAI (CR7)

Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n deillio o'r ddarpariaeth llety tai gan y Cyngor.

CYLLIDEB

Datganiad o faint o gyllid y mae'r Cyngor wedi ei neilltuo i bob gwasanaeth a swyddogaeth i'w wario neu ei godi mewn incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol.

CYLLIDO CYFALAF

Cyllid sydd ar gael i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf yn cynnwys benthycu, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf defnyddiadwy, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd wrth gefn refeniw a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

CYNLLUN PENSIWN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG

Cynlluniau pensiwn ble bo buddiannau a dderbynnir gan y cyfranogwyr yn annibynnol ar y cyfraniadau a dalwyd, ac nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â buddsoddiadau'r cynllun.

CYSONDEB

Y cysyniad fod triniaeth gyfrifo o eitemau tebyg o fewn blwyddyn ariannol ac o un flwyddyn i'r nesaf yr un fath.

DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLIDO

Mae'r datganiad yn anelu i ddangos sut defnyddir gwariant blyneddol a sut y'i gyllidiri o adnoddau. Dangosa'r golofn gynta, y gwariant net a godir i'r Gronfa Gyffredinol a balansau'r CRT, y gwir effaith o'r gost o ddarparu gwasanaethau am y flwyddyn, ac eithrio addasiadau cyfrifo.

DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

Dangosir y datganiad y symudiad o gychyn y flwyddyn i'w diwedd ar gyfer yr holl gronfeydd wrth gefn ddefnyddiadwy a ddelir gan y Cyngor ac y gellir eu defnyddio i gyllido costau'r Cyngor neu i leihau trethiant lleol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn nad oes modd eu defnyddio.

DARPARIAETH

Swm a osodir o'r neilltu yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau neu golledion i'r dyfodol sy'n sicr neu'n debygol iawn, o ddigwydd ond bod y symiau neu'r dyddiadau pryd y byddant yn digwydd yn ansicr.

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Un o brif ddatganiadau ariannol y Cyngor sy'n cofnodi'r holl incwm a gwariant ar gyfer y Cyngor wedi ei gategoreiddio'n unol â gofynion safonol CIPFA fel y gellir cymharu awdurdodau.

DATGANIAD LLIF ARIAN

Mae'r datganiad llif arian yn dangos y newidiadau yn yr arian a'r cywerthoedd ariann sydd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol.

DERBYNIADAU CYFALAF

Yr elw o waredu tir neu asedau anghyfredol. Gellir defnyddio cyfrannau o dderbyniadau cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir i lawr gan y llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

DIBRISANT

Mesur o'r gost o wisgo allan, defnyddio neu fel arall leihau oes economaidd ddefnyddiol asedau anghyfredol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol, p'un a yw hynny o ddefnydd, treuliad amser neu ddarfodiad trwy newidiadau technegol neu rai eraill.

DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng dyddiad y Fantolen a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon Terfynol.

DYCHWELIAD DISGWYLIEDIG AR ASEDAU PENSIWN

Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig a gyllidir, hwn yw'r raddfa dychweliad ar gyfartaledd, yn cynnwys incwm a newidiadau mewn gwerth teg ond yn net o dreuliau cynllun, a ddisgwylir dros weddill oes y rhwymedigaeth gysylltiedig ar yr asedau gwirioneddol a ddelir gan y cynllun.

DYLED NET

Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

DYLEDWR

Swm sy'n ddyledus i'r Cyngor gan unigolion neu sefydliadau eraill am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

ENILLION A CHOLLEDION ACTIWARIAID

I gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y newidiadau mewn gwarged neu ddiffyg actiwaraidd sy'n codi oherwydd: -

- ☐ Nad yw digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r tybiaethau actiwarïaid a wnaethpwyd i'r prisiant diwethaf (enillion a cholledion profiad); neu
- ☐ Fod y tybiaethau actiwaraidd wedi newid.

GRANT CYNNAL REFENIW

Grant a delir gan Lywodraeth Ganolog i awdurdodau, yn cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

GRANTIAU LLYWODRAETH

Grantiau a wneir gan y llywodraeth tuag at naill ai wariant refeniw neu gyfalaf gan ddisgwyl cydymffurfiaid yn y gorffennol neu i'r dyfodol gyda rhai amodau penodol sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor. Gall y grantiau hyn fod yn benodol i gynllun neilltuol neu gall gefnogi gwariant refeniw'r Cyngor yn gyffredinol.

GWAITH YN MYND YN EI FLAEN (WIP)

Cost gwaith a berfformir ar brosiect heb ei orffen ar ddyddiad y Fantolen.

GWARIANT CYFALAF

Gwariant ar brynu ased anghyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu draw i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at, ac nid cynnal yn unig, werth ased presennol anghyfredol. Mae enghreifftiau'n cynnwys : adeiladu ysgol newydd, prynu offer TG, adnewyddu sylweddol cartref gofal.

GWARIANT REFENIW

Treuliau dydd i ddydd o ddarparu gwasanaethau.

GWARIANT REFENIW A GYLLIDIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)

Gwariant y gellir ei ohirio'n gywir (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran natur) ond nad yw'n arwain at, neu'n parhau i gydweddu ag, ased diriaethol. Enghreifftiau o daliadau gohiriedig yw grantiau o natur cyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

GWASANAETHAU ASIANTAETH

Y Gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor i drydydd parti neu ar ran sefydliad arall.

GWERTH GWEDDILLIOL

Gwerth net ased y gellir ei wireddu ar ddiwedd ei oes ddefnyddiol.

GWERTH LLYFR NET

Y swm y mae asedau anghyfredol yn cael eu cynnwys yn y Fantolen, h.y. eu costau hanesyddol neu werth cyfredol llai'r symiau cronus ar gyfer dibrisiant.

GWERTH NET

Gwerth y Cyngor o gyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau.

GWERTH TEG

Gwerth teg ased yw'r pris y gellid ei gyfnewid amdano mewn trafodion hyd braich, llai, ble bo'n berthnasol, unrhyw grantiau derbyniadwy tuag at brynu neu ddefnyddio'r ased.

GWERTH TRETHADWY

Rhent tybiedig blynyddol hereditament, a ddefnyddir i bwrpasau Trethi Annomestig.

ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (MRP)

Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-daliad benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR

Defnyddir y dull gyfradd log sydd mewn grym gweithredol i fesur beth yw gwerth cludadwy ased ariannol neu rwymedigaethau a fesurir yn ôl y gost lai amorteiddio cronedig, ac i ddyrannu incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd log sydd mewn grym yw hwnnw sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau amcangyfrifedig yn y dyfodol dros oes ddisgwyledig yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo'n y lle cyntaf. Mae'r gyfradd log sydd mewn grym yn cael ei diwygio yn ôl y tâl llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor.

Yn achos asedau a rhywmedigaethau ariannol a gludwyd yn ôl y gost gan fod y llog sydd mewn grym yr un faint â'r llog cludo, mae'r gwerth cludo'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronnus.

MATEROLDEB

Y cysyniad y dylai'r Datganiad Cyfrifon gynnwys yr holl symiau y gellid disgwyl iddynt, pe gadewid hwy allan neu eu cam-ddatgan, arwain at lurguniad o'r datganiadau ariannol ac, yn y pen draw, gamarwain defnyddiwr y cyfrifon.

OES ECONOMAIDD DDEFNYDDIOL (UEL)

Y cyfnod dros yr hwn y bydd y Cyngor yn cael buddiannau o ddefnydd ased anghyfredol.

PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Ceir diffiniad manwl o Bartïon Cysylltiedig yn SCRh 24. i bwrpasau'r Cyngor, ystyrir fod partïon cysylltiedig yn cynnwys Llywodraeth Ganolog, Awdurdodau Lleol a chyrff arall, sy'n codi un ai praeseptau neu ardollau ar y Cyngor. Gall partïon cysylltiedig hefyd gynnwys is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig, a cydfenter a phartïon cydfenter ac yn enwedig Aelodau a phrif swyddogion y Cyngor.

Pan yn ystyried pwy sy'n barti cysylltiedig, rhoddir sylw hefyd i drafodion yn gysylltiedig ag aelodau teulu agos neu gartref unrhyw unigolyn a restrir.

PRAESEPT

Yr ardoll a wneir gan awdurdodau praesept ar awdurdodau bilio, sy'n ei gwneud yn ofynnol ar i'r olaf gasglu incwm y Dreth Gyngor ar eu rhan.

PRYDLES ARIANNOL

Prydles sy'n trosglwyddo'n sylweddol risgiau a gwobrwyon perchnogaeth ased anghyfredol i'r prydleswr.

PRYDLES WEITHREDOL

Prydles ble mae'r berchnogaeth o'r ased anghyfredol yn aros gyda'r prydleswr.

RHAGLEN GYFALAF

Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu cynnal dros gyfnod penodol o amser.

RHESTRAU STOC

Eitemau o ddeunyddiau crai a deunyddiau mae'r Cyngor wedi eu caffael ac sy'n cael eu dal gan ddisgwyl defnydd i'r dyfodol. Enghreifftiau yw deunyddiau traul, deunyddiau crai a gwaith sy'n mynd yn ei flaen.

RHWYMEDIGAETH

Rhwymedigaeth yw pan fo gan y Cyngor ddyled i'w thalu i unigolyn neu sefydliad arall.

- ❑ Mae rhwymedigaeth gyfredol yn swm a fydd yn dod yn daladwy neu y gellid ei galw i mewn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, e.e. credydwr neu arian parod wedi'u gordynnu.
- ❑ Mae rhwymedigaeth ohiriedig yn swm sydd, drwy drefniant, yn daladwy tu draw i'r flwyddyn nesaf ar ryw bwynt yn y dyfodol neu i'w dalu i ffwrdd trwy swm blyneddol dros gyfnod o amser.

RHWYMEDIGAETH WRTH GEFN

Mae rhwymedigaeth wrth gefn naill ai'n:-

- ❑ Rhwymedigaeth bosib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor; neu'n
- ❑ Rhwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ble nad yw'n debygol y bydd angen trosglwyddiad o fuddiannau economaidd, neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth gyda dibynadwyedd digonol.

RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN

Rhwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig ar gyfer treuliau sy'n ddyledus ar ôl y dyddiad prisiant. Mae rhwymedigaethau'r cynllun a fesurir yn ystod y dull uned a ragamcenir yn adlewyrchu'r buddiannau mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i'w darparu am wasanaeth hyd at y dyddiad prisiant.

TRETHI ANNOMESTIG (TA)

Mae'r Trethi Annomestig yn ardoll ar fusnesau wedi'i seilio ar raddfa genedlaethol yn y bunt a osodir gan y llywodraeth a'i luosi gan werth trethadwy asessedig yr eiddo dan sylw. Caiff ei gasglu gan y Cyngor ar ran llywodraeth ganolog ac yna ei ailddosbarthu'n ôl i gefnogi cost gwasanaethau.

TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir yn gwneud datgeliad o unrhyw drafodion perthnasol rhwng y Cyngor a Phartïon Cysylltiedig yn ofynnol er mwyn sicrhau fod cydranddeiliaid yn ymwybodol pryd mae'r trafodion hyn yn digwydd a'r swm a goblygiadau hynny.

Y FANTOLEN

Datganiad o werth cywir a theg o'r asedau, rhwymedigaethau a balansau eraill cofnodedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.



Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25

Tudalen 121

Paratowyd gan: Gwasanaeth Trawsnewid

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2025

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Cynnwys

Sgôp y Cyfrifoldeb.....	3
Y Fframwaith Llywodraethu	3
Adolygu Effeithiolrwydd.....	4
Adolygiad Blynyddol o Effeithiolrwydd Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor	5
Casgliad yr Asesiad.....	5
Datganiadau'r Swyddogion Statudol.....	6
Materion Llywodraethiant a nodwyd	8
Cynnydd mewn perthynas â'r Materion Llywodraethiant a Nodwyd Llynedd	8
Gwaith llywodraethu sylweddol arall yn ystod y flwyddyn	12
Materion Llywodraethiant a Nodwyd yn 2024/25.....	13
Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.....	16
Atodiad 1	17
Côd Rheolaeth Ariannol CIPFA (2019).....	17
Materion Llywodraethu Sylweddol	18

Sgôp y Cyfrifoldeb

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei weithredu'n unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif amdano'n briodol, a sut mae'n cael ei ddefnyddio.

Hefyd mae dyletswydd ar y Cyngor dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i wneud trefniadau i sicrhau bod gwelliant parhaus o ran y modd y mae'n gweithredu ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am roi yn eu lle drefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei faterion, gan hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, ac mae hynny'n cynnwys trefniadau i reoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Cymeradwyodd a mabwysiadodd y Cyngor [cod llywodraethu corfforaethol lleol](#) diwygiedig ym mis Mawrth 2022, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE 'Delivering Good Governance in Local Government'.

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio a'r cod ac yn ateb gofynion ymarfer priodol anstatudol sy'n annog cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Hefyd, mae'n diwallu gofynion rheoliad 5 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reolaeth fewnol.

Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd, sy'n rhoi cyfeiriad i ac sy'n rheoli'r awdurdod a'i weithgareddau, a thrwy'r rheiny mae'n atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu â'r gymuned ac yn ei harwain. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro pa mor dda y mae'n cyflawni ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost-effeithiol.

Mae'r system o reolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith honno, ac wedi'i llunio i reoli risg hyd at lefel resymol. Does dim modd iddi gael gwared â phob risg o fethu cyflawni polisiau, nodau ac amcanion a dim ond sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, y gellir ei rhoi o ran effeithiolrwydd.

Nid oes unrhyw newidiadau wedi neud i'r [strwythur pwyllgorau](#) dros y flwyddyn ddiwethaf. Bu un newid i'r [Tîm Arweinyddiaeth a'r Tîm Rheoli Corfforaethol](#) yn ystod y flwyddyn wrth i Aaron Evans olynu Marc Hughes fel Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ym mis Ionawr 2025.

Adolygu Effeithlonrwydd

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gyfrifoldeb am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithlonrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y drefn rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithlonrwydd wedi ei siapio gan waith rheolwyr o fewn yr awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, gan adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, a hefyd gan sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol ac asiantaethau arolygu ac archwilio eraill.

Mae effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu wedi ei werthuso trwy gyfuniad o:-

- canlyniadau adolygiadau a monitro cyson yn ystod y flwyddyn gan swyddogion a phwyllgorau;
- adolygiad o ddogfennau perthnasol a baratowyd yn ystod y flwyddyn neu yn ymwneud â'r flwyddyn;
- adolygiad o gynnydd yn erbyn Cynllun y Cyngor;
- adolygu adborth gan [Archwilio Cymru](#), [Estyn](#) ac [Arolygaeth Gofal Cymru \(AGC\)](#) a'r [panelau sgriwtini cysylltiedig](#) ar y gwaith sy'n gysylltiedig ag Cyllid, Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol;
- trafodaeth a derbyn sylwadau gan grwpiau o swyddogion ac aelodau gan gynnwys yr Tîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith.

Yn ogystal, mae adolygiadau a monitro rheolaidd yn cynnwys:-

- gweithgarwch rheoli risg ffurfiol, gan gynnwys ystyriaeth benodol i'r risgiau hynny sy'n gysylltiedig â phrosesau llywodraethu;
- [archwilio mewnol](#), y mae eu gwaith yn cynnwys archwilio'r risgiau uchaf a nodwyd yn y Gofrestr Risg Strategol, gan gynnwys rheoli risg, a hynny'n unol â'r strategaeth archwilio mewnol flynyddol ac yn cynnwys gwaith 'dilyn-i-fyny' i sicrhau fod uwch swyddogion yn gweithredu'r argymhellion sydd wedi eu cytuno;
- gwaith Pwyllgorau [Sgriwtini](#) a phwyllgorau eraill y Cyngor gan gynnwys ei bwyllgorau [Safonau](#) a [Llywodraethu ac Archwilio](#);
- barn ac argymhellion archwilwyr allanol y Cyngor ynghyd ag asiantaethau adolygu ac arolygwyr eraill;
- monitro cyson gan aelodau ac uwch-reolwyr o welliant a pherfformiad yn erbyn Cynllun y Cyngor a'r cynlluniau a'r strategaethau cefnogol.

Adolygiad Blyneddol o Effeithiolrwydd Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor

Casgliad yr Asesiad

Mae'r tabl isod yn darparu casgliad yr asesiad ar gyfer 2024/25

Egwyddorion Craidd y Fframwaith	Casgliad yr asesiad
Egwyddor A: Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu'r rheol gyfreithiol	Mae'r Cyngor yn sicrhau bod ganddo broses glir a thryloyw ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n ymgorffori gwerthoedd moesegol cadarn ac yn sicrhau bod penderfyniadau'n gyfreithiol. Mae'r codau ymddygiad yn nodi'r disgwyliadau'n glir o ran uniondeb ac ymddygiad moesegol.
Egwyddor B: Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid	Pwrpas y Cyngor yw gwasanaethu ei drigolion ac mae hynny'n ddibynnol ar ymgysylltu â phob math o randdeiliaid yn effeithiol er mwyn cydweithio'n llwyddiannus. Mae dulliau ymgynghori ac ymgysylltu ar waith i sicrhau bod penderfyniadau'n agored a chynhwysol.
Egwyddor C: Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol	Mae'r Cyngor yn gweithio â chymunedau i gynllunio a diffinio ei ddeilliannau. Wrth sefydlu polisïau a strategaethau, mae'r Cyngor yn ystyried y tymor hir a'r manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol.
Egwyddor D: Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu	Mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau ynglŷn ag ymyraethau yn seiliedig ar ei weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau, gwaith ymgysylltu â chymunedau a rheoleiddwyr ac arbenigedd ei swyddogion. Mae'r dull integredig hwn yn rhoi'r cyfle gorau posib i gyflawni cymaint o'r deilliannau â phosib.
Egwyddor E: Datblygu capasiti'r endid, ynghyd â gallu ei arweinyddion a'r unigolion ynddo	Mae gan y Cyngor strwythurau cadarn ac arweinyddiaeth effeithiol, ynghyd â staff sy'n meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau priodol, i sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithlon ac effeithlon. Mae polisïau a strategaethau clir yn dangos bod gan y Cyngor y gallu i gyflawni ei gyfrifoldebau a bod gan reolwyr ddigon o allu gweithredol.
Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref	Mae gan y cyngor system rheoli perfformiad effeithiol ar waith sy'n sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn effeithlon ac effeithiol. Mae rheoli risg a rheolaethau mewnol yn rhan hanfodol o'r system hon ac mae wedi cael ei chryfhau yn ystod y flwyddyn i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Cyngor newydd yn llwyddiannus. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â <u>Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA</u> .
Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio	Mae aelodau etholedig ac uwch reolwyr y Cyngor yn gyfrifol am y penderfyniadau a'r gwasanaethau a ddarperir, ac mae archwiliadau mewnol ac allanol yn cael eu cynnal i gefnogi prosesau. Mae gweithgareddau'n dryloyw a dealladwy, er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystyrlon. Ni nodwyd unrhyw <u>faterion llywodraethiant sylweddol</u> yn ystod y flwyddyn.

Datganiadau'r Swyddogion Statudol

Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig



Dylan Williams
Prif Weithredwr

"Fel Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn, rydw i'n ymfalchïo yn y ffaith ein bod ni'n sicrhau bod gennym drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith er mwyn cynnal tryloywder, atebolrwydd a darparu gwasanaeth cyhoeddus o'r radd flaenaf. Mae fy rôl yn cynnwys darparu arweiniad a chyfarwyddyd strategol i'r sefydliad, gan weithio'n agos â'r aelodau etholedig, swyddogion a phartneriaid.

Rwyf yn fodlon bod gennym drefniadau llywodraethu cadarn a chynhwysfawr, gan eu bod wedi cael eu datblygu a'u mireinio dros gyfnod o amser i gwrdd ag anghenion y sefydliad, y gymuned a'n rhanddeiliaid wrth iddynt esblygu. Trwy ymgysylltu'n rheolaidd â phob math o randdeiliaid mewnol ac allanol, rydym wedi meithrin diwylliant o rannu gwybodaeth, cyfathrebu a chydweithio agored, sy'n cryfhau'n harferion llywodraethu.

Rydym yn mynd ati'n weithgar i fonitro a chymryd camau priodol i ddatrys materion sy'n codi, gan sicrhau bod ein trefniadau llywodraethu'n parhau i fod yn effeithiol ac yn ymateb i unrhyw newidiadau.

Rwyf yn ffyddiog bod ein fframwaith llywodraethu'n hyrwyddo penderfyniadau cadarn, ymddygiad moesegol, a darparu gwasanaethau effeithiol, er mwyn ein galluogi i gyflawni ein cyfrifoldebau i drigolion Ynys Môn."

Swyddog Adran 151



Marc Jones
Cyfarwyddwr
Swyddogaeth
(Adnoddau)

"Fel Swyddog Adran 151 Cyngor Sir Ynys Môn, mae gennyf gyfrifoldeb hollbwysig dros sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei reoli a'i ddefnyddio'n briodol.

Rydw i'n fodlon bod y trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer rheolaeth ac atebolrwydd ariannol. Trwy gynllunio ariannol diwyd, rheolaeth gyllidebol, a rheolaeth risg effeithiol, rydym yn ymdrechu i sicrhau cynaliadwyedd ariannol y cyngor.

Mae ein trefniadau wedi'u tanategu gan bolisïau a gweithdrefnau ariannol a dulliau rheoli mewnol cadarn sy'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag arferion gorau a gofynion statudol.

Mae adroddiadau a gwaith craffu ariannol gan archwilywyr mewnol ac allanol yn rhoi sicrwydd annibynnol, ac rydym yn mynd i'r afael ag unrhyw feysydd gwella a nodir ar unwaith.

Rwyf yn ffyddiog bod ein trefniadau llywodraethu yn cefnogi dulliau rheoli ariannol darbodus, diogelu adnoddau'r cyngor a'n galluogi i ddarparu gwasanaethau o ansawdd i'r gymuned."

Swyddog Monitro



Lynn Ball
Cyfarwyddwr
Swyddogaeth
(Busnes y Cyngor)

“Fel Swyddog Monitro, un o fy swyddogaethau allweddol yw gweithio’n agos gydag aelodau a swyddogion i hyrwyddo llywodraethu da a gwneud penderfyniadau da ar draws y Cyngor.

Mae gan y Cyngor fframwaith llywodraethu cadarn ar waith a'n nod yw sicrhau bod ein diwylliant gwaith yn adlewyrchu gofynion y fframwaith hwnnw ac yn hyrwyddo atebolrwydd, tryloywder ac uniondeb ein penderfyniadau.

Mae meithrin a hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad moesegol ymhlith aelodau etholedig a swyddogion yn hanfodol er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei gyfrifoldebau llywodraethu da.”

Materion Llywodraethiant a nodwyd
Cynnydd mewn perthynas â'r Materion Llywodraethiant a Nodwyd Llynedd

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r materion llywodraethiant a nodwyd y llynedd ac yn cynnwys diweddariad ar gynnydd:

Camau gweithredu a nodwyd i fynd i'r afael â gwendidau	Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol	Diweddariad ar gynnydd	Statws
1. Rhoi materion yn ymwneud â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar waith yn briodol	Trawsnewid	Y dilyn cytundeb gyda CLILC, bydd y Panel Asesu Perfformiad (PAP) yn cael ei gynnal rhwng y 10fed a'r 13eg o Dachwedd, 2025. Mae gweithgor wedi cael ei sefydlu ac mae gwaith ar y gweill i baratoi'r ddogfen gwmpasu ar gyfer y PAP.	Gwaith wedi cwblhau ar gyfer 24/25
2. Nid yw'r Cyngor yn mapio ei ffynonellau sicrwydd ar hyn o bryd	Trawsnewid / Adnoddau	Ar hyn o bryd mae'r drydedd linell sicrwydd yn cael ei chofnodi yn erbyn y gofrestr risgiau strategol ar y system 4Risk. Fodd bynnag, yn dilyn newidiadau staffio, mae'r trefniadau ar gyfer mapio'r ffynonellau sicrwydd ar y llinell gyntaf a'r ail linell wrthi'n cael eu hadolygu. Bydd unrhyw newidiadau yn sgil yr adolygiad hwn yn cael eu gweithredu yn ystod 25/26.	Ar ei hôl hi
3. Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Deddf Gaffael 2023 newydd.	Adnoddau	Cafodd y Cynllun Strategol Caffael a'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau diwygiedig eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Rhagfyr 2024. Daeth Deddf Caffael 2023 i rym ym mis Chwefror 2025. Cynhaliwyd rhaglen hyfforddi lwyddiannus ddechrau'r flwyddyn, a derbyniodd dros 100 aelod o'r staff hyfforddiant ar y ddeddf caffael newydd a ddarparwyd yn fewnol. Mae llawlyfr caffael a thempledi hefyd ar gael. Mae Rheolwr Caffael wedi cael ei benodi dros dro yn dilyn trafferthion recriwtio.	Gwaith wedi cwblhau ar gyfer 24/25

Camau gweithredu a nodwyd i fynd i'r afael â gwendidau	Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol	Diweddariad ar gynnydd	Statws
4. Mae'n rhaid i'r cyngor ymateb i heriau sydd wedi'u hadnabod wrth gynllunio gweithlu, gan gynnwys proffil oed mewn rhai gwasanaethau a phroblemau recriwtio a chadw staff mewn gwasanaethau eraill.	Trawsnewid	Mae'r Cyngor yn dal i recriwtio ar gyfer yr Uned Darparwyr. Yn ystod 2024/25 roedd y cynllun Denu Talent yn canolbwyntio ar y Gwasanaethau Oedolion, yn benodol ceisio recriwtio i swyddi sy'n anodd eu llenwi. Cymerodd pum person ifanc ran mewn profiad gwaith 10 wythnos o hyd, a phenodwyd dau i swyddi parhaol yn dilyn hynny. Adolygwyd y Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer Rheoli Risgiau'n gysylltiedig â Phobl yn ystod y flwyddyn. Cafodd tudalennau Gyrfaedd newydd eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor (<u>Swyddi a Gyrfaedd</u>). Mae pwyslais o hyd ar geisio cadw staff, yn enwedig mewn meysydd â throsiant uchel. Roedd trosiant staff yn 8% yn ystod 2024/25 o'i gymharu â 9% y flwyddyn flaenorol, ac roedd lefelau cadw staff yn tua 93% ar gyfer 24/25.	Gwaith wedi cwblhau ar gyfer 24/25
5. Mae'n rhaid i'r cyngor reoli a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau bod galw amdanynt, eu bod nhw'n addas at eu diben ac os nad ydynt yn cael eu adnabod, rhaid gweithio i wella safonau.	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Cafodd yr holl gamau lliniaru i reoli RAAC yn adeiladu'r Cyngor eu cwblhau yn ystod y flwyddyn. Cyhoeddwyd y Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-2029 yn ystod y flwyddyn. Cafodd System Rheoli Cyfleusterau drwy Gymorth Cyfrifiadur newydd ei mabwysiadu yn 2024 gyda'r nod o'i defnyddio i reoli asedau, gwaith cynnal a chadw a phrosiectau adeiladu'r Cyngor. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu strategaeth rheoli asedau mân ddaliadau newydd a bwriedir cwblhau'r gwaith yn ystod 2025/26.	Gwaith wedi cwblhau ar gyfer 24/25
6. Mae gwydnwch ariannol y cyngor dan straen oherwydd yr argyfwng costau byw a gostyngiad mewn cyllid.	Adnoddau	Llwyddodd y Cyngor i sicrhau grantiau cyfalaf gwerth £47.748m yn ystod 2024/25, sy'n cyfateb i 61% o'r holl gyllid cyfalaf yn 2024/25. Cafodd y CATC ar gyfer y cyfnod 2025/26 i 2027/28 ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2024, ac mae cyfnod y cynllun wedi cael ei ymestyn o 2 i 3 blynedd.	Gwaith wedi cwblhau ar gyfer 24/25

Camau gweithredu a nodwyd i fynd i'r afael â gwendidau	Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol	Diweddariad ar gynnydd	Statws
		Yn ystod y broses o osod y gyllideb yn gynnar yn 2025 cafodd arbedion gwasanaeth eu cynnig er mwyn ymgynghori arnynt. Bydd modd i arbedion a gafodd eu nodi ond na chafodd eu gweithredu yn 2025/26 gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith fel rhan o'r broses o osod y gyllideb ar gyfer 2026/27. Mae gwaith ar y gweill ar draws y gwasanaethau i ddod o hyd i ffyrdd o symleiddio prosesau er mwyn lleihau costau. Mae cronfa wrth gefn ar gyfer costau newid wedi cael ei sefydlu i ariannu unrhyw gostau'n gysylltiedig â gweithredu newidiadau. Mae enghreifftiau o'r cyllid a ddarparwyd hyd yma'n cynnwys: 1. Incwm Morwrol – i ariannu'r gost o brynu a gosod peiriannau Sglodyn a Rhif Adnabod Personol (Chip & PIN) fel y gall ymwelwyr dalu am wasanaethau â cherdyn ar y traeth. 2. Adolygiad Trafnidiaeth – i ariannu'r gost o gynnal adolygiad allanol o ddarpariaeth trafndiaeth y Cyngor ar draws pob gwasanaeth, gyda'r nod o ganfod newidiadau er mwyn darparu gwasanaeth mwy cydlynol am lai o arian. 3. Porth Mynediad i Ddinasyddion – sy'n caniatáu i Drethdalwyr, pobl sy'n hawlio Budd-daliadau Tai a landlordiaid gael mynediad at eu cyfrifon fel y gallant dderbyn gwybodaeth am eu cyfrif a diweddaru'r Cyngor Yenglin ag unrhyw newidiadau yn electronig	

Camau gweithredu a nodwyd i fynd i'r afael â gwendidau	Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol	Diweddariad ar gynnydd	Statws
7. Parhau i foderneiddio ei seilwaith digidol a seilwaith data.	Trawsnewid	Mae'r <u>Cynllun Digidol Strategol</u> bellach ar waith gyda'r nod o ddarparu cyfarwyddyd a gweledigaeth glir ynglŷn â TG gorfforaethol yn seiliedig ar egwyddorion cyffredinol a meysydd blaenoriaeth y Cyngor o ran darparu gwasanaeth TGCh. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno system ffôn newydd yn llwyddiannus yn y rhan fwyaf o'i swyddfeydd a safleoedd. Cwblhawyd asesiad aeddfedrwydd data yn ystod y flwyddyn ac mae gweithgor wrthi'n gweithio ar y camau nesaf i wella'r data yn cynnwys strategaeth data newydd.	Gwaith wedi cwblhau ar gyfer 24/25

Gwaith llywodraethu sylweddol arall yn ystod y flwyddyn

Dyma rywfaint o'r gwaith llywodraethu sylweddol a gwblhawyd ac sydd heb ei nodi'n flaenorol

Materion llywodraethu a nodwyd	Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol	Diweddariad ar gynnydd
Adolygiad allanol o'n trefniadau Sgriwtini	Busnes y Cyngor	Fe wnaeth yr Awdurdod Lleol gomisiynu adolygiad allanol o'i drefniadau sgriwtini, a gwblhawyd yng nghyd-destun y fframwaith lleol ar lywodraethu corfforaethol. Mae'r argymhellion wedi llywio'n rhaglen datblygu sgriwtini. Bydd y cynnydd yn cael ei fonitro gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini a'r Tîm Arweinyddiaeth. Ceir mwy o wybodaeth yn y fan yma Adroddiad Blynyddol Sgriwtini.
Datblygu Strategaeth Atal Twyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd newydd ar gyfer 2025-28	Adnoddau	Datblygwyd a chymeradwywyd Strategaeth Atal Twyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd newydd yn ystod y flwyddyn. Mae'r strategaeth yn amlinellu gweithgaredd bydd y Cyngor, dan arweiniad y gwasanaeth Archwilio Mewnol, yn ei gyflawni yn ystod y cyfnod 2025-28 i leihau'r risg o dwyll, llwgwrwbrwyo a llygredd o fewn ac yn erbyn Cyngor Sir Ynys Môn. Mae hyn yn cefnogi gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, 2022 (PSIAS), sy'n mynnu bod archwilio mewnol yn gwerthuso'r risg bosib o dwyll a sut y mae'r sefydliad yn rheoli'r risg o dwyll (Safon 2120). Hefyd, mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi bod rhaid i swyddog ariannol cyfrifol y Cyngor (y Swyddog Adran 151) sicrhau bod ei systemau rheoli cyfrifo yn cynnwys mesurau i atal a chanfod gwallau a thwyll.

Materion Llywodraethiant a Nodwyd yn 2024/25

Ni nodwyd unrhyw faterion llywodraethiant sylweddol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2025. Fodd bynnag, mae'r broses asesu wedi nodi'r materion llywodraethiant canlynol a fydd yn cael eu datblygu yn ystod y flwyddyn i ddod.

Materion llywodraethu a nodwyd	Camau gwella a nodwyd	Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol	Beth fydd yn digwydd os na chyflawnir y rhain?	Erbyn pryd
1. Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Deddf Gaffael 2023 newydd.	Rhoi'r camau a gytunwyd yn y Cynllun Strategol Caffael ar waith	Adnoddau	- Gallai methu â chydymffurfio arwain at ddirwyon a chosbau, camau cyfreithiol a chraffu rheoleiddiol - Niwed i enw da'r Cyngor - Methiant bosib o ran y gwasanaeth	Mawrth 2026
2. Mae'n rhaid i'r cyngor ymateb i heriau sydd wedi'u hadnabod wrth gynllunio gweithlu, gan gynnwys proffil oed mewn rhai gwasanaethau a phroblemau recriwtio a chadw staff mewn gwasanaethau eraill.	- Adolygu, diwygio a gweithredu ymgyrch recriwtio ar gyfer Busnes y Cyngor a'r Uned Ddarparu - Gwasanaethau i fyfrio a gweithio gydag Adnoddau Dynol i wneud pob ymdrech i 'dyfu staff eich hunan' trwy gyfleoedd hyfforddi a datblygu sy'n wedyn yn gwella recriwtio a chadw staff. - Cynllun graddedigion Dyfodol Môn – parhau â'r rhaglen yn 25/26 - gan greu cyfleoedd deinamig i raddedigion uchelgeisiol ddatblygu sgiliau arbenigol a dechrau gyrfa gyda'r cyngor.	Trawsnewid	- Methiant bosib o ran y gwasanaeth - Potensial am brinder talent, bylchau mewn sgiliau a throsiant staff uchel - Cynnnydd posibl mewn costau - Niwed i enw da'r Cyngor	Mawrth 2026

Materion llywodraethu a nodwyd	Camau gwella a nodwyd	Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol	Beth fydd yn digwydd os na chyflawnir y rhain?	Erbyn pryd
3. Mae'n rhaid i'r cyngor reoli a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau bod galw amdanynt, eu bod nhw'n addas at eu diben ac os nad ydynt yn cael eu adnabod, rhaid gweithio i wella safonau.	• Adolygu a chyhoeddi cynllun strategol rheoli asedau mân ddaliadau • Parhau i weithredu'r System Rheoli Cyfleusterau drwy Gymorth Cyfrifiadur • Rhesymoli asedau'r cyngor yn unol â'r <u>Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-29</u>	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	• Cynnydd mewn costau cynnal a chadw cysylltiedig • Toriadau iechyd a diogelwch difrifol posibl os bydd asedau'n dirywio • Methiant bosib o ran y gwasanaeth • Colli cyfleoedd i wella gwasanaethau neu gynhyrchu refeniw	Mawrth 2026
4. Mae gwydnwch ariannol y cyngor dan straen oherwydd yr argyfwng costau byw a gostyngiad mewn cyllid.	• Ennill cymaint o'r grantiau sydd ar gael i'r Cyngor â phosib • Monitro ac adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) • Nodi arbedion ar gyfer 2026/27 ymlaen • Parhau i adolygu a symleiddio prosesau i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau a lleihau effaith cyllidebau is	Adnoddau	• Gostyngiad yn y gwasanaethau sydd ar gael i drigolion • Risg o faterion ariannol difrifol • Effaith negyddol ar yr economi leol a chynnydd yn y boblogaeth fregus • Niwed i enw da'r Cyngor • Risg o ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru	Mawrth 2026


Materion llywodraethu a nodwyd	Camau gwella a nodwyd	Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol	Beth fydd yn digwydd os na chyflawnir y rhain?	Erbyn pryd
5. Parhau i foderneiddio ei seilwaith digidol a seilwaith data.	• Datblygu Cynllun Strategol Data gyda'r nod o ddod yn Gyngor sy'n cael ei lywio gan ddata • Parhau i symud ymlaen â'r 4 blaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Strategol Digidol • Datblygu'r rhyngwyneb 'Chatbot' i ddarparu profiad gwell i gwsmeriaid • Adolygu canolfannau cyswllt cwsmeriaid ac ystyried argymhellion i wella profiad y cwsmer	Trawsnewid	• Gwasanaethau aneffeithiol ac aneffeithlon sy'n defnyddio technoleg sydd wedi dyddio i ddarparu gwasanaethau • Risgiau posibl o ran seiberddiogelwch • Cynnydd mewn costau i gynnal systemau etifeddol hŷn • Niwed i enw da'r Cyngor	Mawrth 2027
6. Nid yw'r Cyngor yn mapio ei ffynonellau sicrwydd ar hyn o bryd	• Cynnal adolygiad ar y ffordd orau o adolygu a monitro'r llinell sicrwydd gyntaf a'r ail • Cynnal ymarfer mapio sicrwydd ar gyfer y Cyngor	Trawsnewid / Adnoddau	• Problemau llywodraethu posib heb eu nodi • Methu gwella perfformiad y Cyngor yn barhaus • Methiant bosib o ran y gwasanaeth • Darpariaeth sicrwydd annigonol neu wedi'i ddyblygu	Mawrth 2026

Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol


Rydym wedi ein cyngori ar oblygiadau canlyniad yr adolygiad o effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a bod y trefniadau yn parhau i gael eu hystyried fel rhai sy'n addas i bwrpas yn gyson â'r fframwaith llywodraethu. Mae'r meysydd sydd wedi cael sylw a'r rhai sydd i'w trafod yn benodol trwy weithredu o'r newydd wedi eu hamlinellu yn y ddogfen.

Rydym yn bwriadu cymryd camau priodol i ymdrin â'r gwendidau hyn a'r rhai eraill a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac i wella ymhellach ein trefniadau llywodraethu a sicrwydd yn y flwyddyn sydd i ddod. Fe fyddwn yn monitro gweithrediad y gwelliannau trwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

Ar ran Cyngor Sir Ynys Môn



Cyng. Gary Pritchard
Arweinydd y Cyngor
Gorffennaf 2025



Dylan Williams
Prif Weithredwr
Gorffennaf 2025

Atodiad 1

Côd Rheolaeth Ariannol CIPFA (2019)

Mae Côd Rheolaeth Ariannol CIPFA wedi'i gynllunio i gefnogi arfer da yn y maes rheolaeth ariannol ac i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddangos eu cynaliadwyedd ariannol. Nid yw'r Côd yn rhagnodol ac mae'n seiliedig ar chwe egwyddor sydd wedi eu cefnogi gan safonau penodol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i sicrhau gwytnwch ariannol parhaus Awdurdodau Lleol. Y chwe egwyddor rheolaeth ariannol sy'n sail i'r Côd yw:

- Arweinyddiaeth
- Atebolrwydd
- Tryloywder
- Safonau Proffesiynol
- Sicrwydd
- Cynaliadwyedd

Trosir y chwe egwyddor yn ddwy ar bymtheg o safonau Rheolaeth Ariannol (FM) (a ddynodir o A-Q), wedi'u grwpio'n saith adran. Roedd yn ofynnol i bob awdurdod lleol ddangos cydymffurfiaeth lawn â'r Cod erbyn 31 Mawrth 2022.

Yn dilyn archwiliad mewnol o cydymffurfiaeth y Cyngor gyda'r cod yn Ebrill 2020, cynhaliwyd archwiliad pellach ar Wydnwch Ariannol ym mis Tachwedd 2022 i geisio ateb y cwestiwn a ganlyn: A oes gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i reoli goblygiadau'r toriadau ariannol gwirioneddol i sicrhau y gall barhau i gyflawni ei flaenoriaethau a darparu gwasanaethau o ansawdd?

Dywed yr adroddiad:

“Daeth ein harchwiliad i'r casgliad bod gan y Cyngor fframwaith o fesurau rheoli effeithiol ar gyfer rheoli goblygiadau'r toriadau ariannol gwirioneddol, a hynny o fewn cwmplas ei reolaeth. Er hyn, mae'n amlwg bod y Cyngor yn wynebu penderfyniadau anodd dros y ddwy flynedd nesaf oherwydd yr hinsawdd economaidd heriol ac anrhagweladwy sydd ohoni.

Codwyd un 'Mater/Risg', a oedd angen sylw rheolwyr er mwyn cryfhau'r trefniadau yn y maes hwn a chytunwyd ar gynllun gweithredu gyda'r rheolwyr.

Materion Llywodraethu Sylweddol

Daeth ein hadroddiad Archwilio Mewnol ein hunain ar gyfer 2024/25 i'r casgliad canlynol –

“Am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, barn y Pennaeth Archwilio a Risg yng Nghyngor Sir Ynys Môn yw bod gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.

Er nad ydw i'n ystyried unrhyw feysydd o bryder corfforaethol, mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni, a'u bod yn cael eu monitro.

Nid oes unrhyw amodau ar y farn hon..”

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cyngor Sir Ynys Môn

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2025



Cynnwys

Cynnwys	2
Cyflwyniad	4
Cipolwg ar eich archwiliad	5
Perthnasedd	6
Canfyddiadau Archwilio	7
Tîm archwilio a chydymffurfio moesegol	11
Atodiad 1 – Risgiau archwilio a'r canlyniadau	12
Atodiad 2 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed	18
Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig	26
Atodiad 4 – Llythyr sylwadau	32
Ansawdd archwilio	36
Eich cefnogi chi	37

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru'n derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon nac unrhyw ddefnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cyflwyniad



Adrian Crompton

Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Mae'n dda gennyf rannu fy Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon. Mae'r Adroddiad yn crynhoi prif ganfyddiadau fy archwiliad o'ch adroddiad blynyddol a chyfrifon ar gyfer 2024-25. Mae fy nhîm eisoes wedi trafod y canfyddiadau hyn gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Cyllid – Adnoddau.

Mae fy nhîm wedi cwblhau y gwaith archwilio yn unol a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio dyddiedig 31 Mawrth 2025.

Ers fy Nghynllun Archwilio, rwyf wedi diweddarau perthnasedd i adlewyrchu cyfrifon 2024-25. Nid wyf wedi adnabod unrhyw

risgiau archwilio newydd. Caiff fy ymateb i risgiau a adnabuwyd yn flaenorol ei nodi yn **Atodiad 1**.

Mae'n ofynnol i mi ddarparu barn pa un a yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi'n briodol, a pha un a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg, ym mhob agwedd berthnasol. Caiff fy marn archwilio arfaethedig a'r sail drosti ei hamlinellu ar dudalen 26.

Cyfrifoldeb y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, h.y. y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn fy adroddiad a darparu Llythyr Sylwadau ar fy nghyfer.

Hoffwn estyn fy niolchgarwch i swyddogion a staff Cyngor Sir Ynys Môn am eu cydweithrediad trwy gydol y broses archwilio sydd wedi bod yn amhrisiadwy i allu cwblhau'r archwiliad hwn yn effeithiol.

Cipolwg ar eich archwiliad



Rydym yn bwriadu cyhoeddi **barn ddiamod** ar y cyfrifon

Gweler [Atodiad 4](#)



Nid oes **materion arwyddocaol eraill** i'w nodi.

Gweler y [Canfyddiadau archwilio](#)



Mae **un gamddatganiad heb eu cywiro** yn y cyfrifon yr ydym yn dymuno eu dwyn i'ch sylw

Gweler y [Canfyddiadau archwilio](#)



Bydd yr argymhellion sy'n codi o'n gwaith yn cael eu nodi mewn Memorandwm ar y Cyfrifon a fydd yn cael ei gyfleu i swyddogion maes o law.



Rydym yn anelu at ardystio eich cyfrifon ar **30 Hydref 2025**, sydd cyn y terfyn amser sef **31 Hydref 2025**.

Perthnasedd

Rwy'n defnyddio barn proffesiynol i bennu trothwy perthnasedd i adnabod a chywiro camddatganiadau a allai effeithio ar benderfyniadau defnyddwyr, gan ystyried gwallau ariannol a gofynion datgelu yn ôl y fframwaith cyfrifyddu a'r cyfreithiau perthnasol. Mae fy nhîm yn diweddarau perthnasedd trwy gydol yr archwiliad ac yn yr adroddiad hwn rwy'n cynnwys materion sy'n mynd y tu hwnt i'm trothwy adrodd, a nodir isod.

Perthnasedd

Pennwyd lefel perthnasedd o 1% o wariant gros yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol drafft 2024-25.

Trothwy adrodd (dibwys)

Pennwyd lefel perthnasedd o 5%.

£3.118 miliwn

£0.115 miliwn

Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon. Rydym yn cadarnhau lefelau perthnasedd is ar gyfer y rhain:

Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol

£1,000 (neu'r band agosaf)

Datgeliadau partïon cysylltiedig

£10,000

Canfyddiadau Archwilio

Camddatganiadau

Mae camddatganiad yn codi lle nad yw gwybodaeth yn y cyfrifon yn unol â safonau cyfrifeg.

Camddatganiadau nas cywirwyd

Rydym yn nodi isod y camddatganiadau a adnabuwyd gennym yn y cyfrifon, a drafodwyd gyda'r rheolwyr ond sy'n dal heb eu cywiro. Gofynnwn i chi gywiro'r camddatganiadau hyn.

Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn i chi ddarparu eich rhesymau ar ein cyfer yn ysgrifenedig dros beidio â'u cywiro.

Mae ein profion archwilio wedi nodi 32 o asedau o fewn y Gofrestr Asedau Sefydlog sydd ar hyn o bryd yn dal balans credyd yn y Gronfa Ailbrisio ochr yn ochr â debyd cronrus i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau, sydd wedi'i drosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf (CAA).

O dan driniaeth gyfrifyddu briodol, dylid gwrthdroi unrhyw ddebyd cronrus o fewn y CAA ar enillion ailbrisio dilynol cyn credydu'r Gronfa Ailbrisio. Felly, ni ddylai ased gario y ddau balans ar yr un pryd. Felly, mae angen addasiad rhwng y Gronfa Ailbrisio a'r CAA mewn perthynas â'r asedau hyn o £1,561,000.

Mae'r Cyngor wedi dewis peidio â phrosesu'r addasiad hwn yn y datganiadau ariannol yn 2024-25, gan nodi ei effaith amherthnasol ar y cyfrifon.

Yn ogystal, bydd prosesu'r addasiad yn gofyn am adolygiad o gofnodion hanesyddol ar gyfer pob un o'r asedau yr effeithir arnynt, mewn rhai achosion, yn dyddio'n ôl i 2014-15. Byddai wedi bod yn anymarferol cwblhau'r adolygiad hwn cyn terfyn amser ardystio 31 Hydref.

Ar ben hynny, gan fod y camddatganiad wedi'i gyfyngu i ddwy gronfa wrth gefn na ellir eu defnyddio, nid yw'n cael unrhyw effaith ar Gronfa Gyffredinol y Cyngor ac nid yw'n effeithio ar y trethdalwr.

Mae'r Cyngor wedi nodi ei fwriad i wneud yr addasiad hwn o fewn datganiadau ariannol 2025-26.

Camddatganiadau a gywirwyd

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom rhai gamddatganiadau sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni.

Caiff y rhain eu nodi yn **Atodiad 2**.

Materion arwyddocaol eraill

Mae'r Safon Ryngwladol ar Gyfrifyddu 260 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni gyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Rhaid i ni roi gwybod i chi am ganfyddiadau arwyddocaol o'r archwiliad a materion eraill os ydynt yn arwyddocaol i'ch goruchwyliaeth chi ar broses adrodd ariannol Cyngor Sir Ynys Môn.

Nid chanfuwyd unrhyw faterion o'r fath yn ystod yr archwiliad.

Ystyriaethau pellach

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Cyngor a'r sector ehangach i adolygu ein huchelgais i ddwyn y dyddiad cau archwilio ymlaen i fis Medi 2026 fel rhan o broses archwilio cyfrifon 2025-26. Er mwyn cwrdd â'r dyddiadau cau hyn, bydd yn hanfodol:

- bod set o gyfrifon a datganiad llywodraethu blynyddol o ansawdd uchel yn cael eu derbyn ar amser;
- bod y cyfrifon yn cael eu cefnogi'n llawn, gyda'r holl bapurau gwaith ar gael a'i ansawdd wedi'u gwirio ar ddechrau'r archwiliad; a
- bod staff ar gael trwy gydol y ffenestr archwilio i sicrhau bod ymholiadau archwilio yn cael eu datrys mewn modd amserol.

Derbyniwyd y datganiadau ariannol drafft ar y dyddiad y cytunwyd arno ar 30 Mehefin 2025. Er bod y mwyafrif o'r papurau gwaith wedi'u paratoi gan y Cyngor yn barod ar gyfer dechrau'r broses archwilio eleni, roedd rhai yn dal i gael eu cwblhau ac nid oedd ar gael yn ystod wythnosau cyntaf y ffenestr archwilio. Yn benodol:

- nid oedd adroddiad y Prisiwr ar gael tan ganol Awst 2025; a
- Nid oedd papurau gwaith IFRS16 ar gael tan ganol mis Hydref 2025.

Dosbarthwyd y ddau faes uchod o'r archwiliad fel risg uchel oherwydd eu cymhlethdod. Mae archwilio meysydd risg uchel yn gynnar yn y broses yn hanfodol i sicrhau cwblhau'r archwiliad yn amserol, yn enwedig os nodir gwallau sy'n arwain at brofion estynedig.

Nid oedd yr oedi hyn yn effeithio ar ein gallu i gwblhau'r archwiliad erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno eleni. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y bydd y ffenestr archwilio cyfrifon yn fyrrach y flwyddyn nesaf, a gallai oedi tebyg beri risgiau i gwrdd â'r dyddiad cau ardystio diwygiedig o 30 Medi.

Nid ydym wedi codi argymhelliad mewn perthynas â'r mater hwn. Byddwn yn ei drafod fel rhan o'n dysgu archwilio ar ôl prosiect gyda swyddogion i asesu'r sefyllfa. Hoffem ddiolch i swyddogion am eu hymgysylltiad cadarnhaol â'r tîm archwilio drwy gydol yr archwiliad ac am ddarparu papurau gwaith o ansawdd da i ni i gefnogi'r datganiadau ariannol.

Barn archwilio arfaethedig

Barn archwilio

Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch chi wedi darparu Llythyr Sylwadau ar ein cyfer (gweler isod).

Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 3**.

Llythyr sylwadau

Llythyr ffurfiol yw Llythyr Sylwadau ac ynddo rydych yn cadarnhau wrthym ni bod yr wybodaeth a ddarparwyd ar ein cyfer yn ystod yr archwiliad yn gywir ac yn gyflawn. Mae peth o'r wybodaeth hon yn ofynnol yn ôl safonau archwilio; gall gwybodaeth arall ymwneud yn benodol â'ch archwiliad chi.

Mae'r llythyr yr ydym yn gofyn i chi ei lofnodi wedi'i gynnwys yn **Atodiad 4** ac mae ei gynnwys yn cynnwys sylwadau ychwanegol mewn perthynas â'r camddatganiad heb ei gywiro a nodir uchod.

Argymhellion

Bydd yr argymhellion sy'n codi o'n gwaith yn cael eu nodi mewn Memorandwm ar y Cyfrifon a fydd yn cael ei gyfleu i swyddogion maes o law.

Byddwn yn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf.

Tîm archwilio a chydymffurfio moesegol

Mae prif aelodau fy nhîm a wnaeth y gwaith archwilio, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1: fy nhîm archwilio lleol

Arweinydd Ymgysylltu

Matthew Edwards
matthew.edwards@archwilio.cymru

Rheolwr Archwilio

Rachel Freitag
rachel.freitag@archwilio.cymru

Arweinydd Archwilio

David Tomalin
david.tomalin@archwilio.cymru

Cydymffurfio â safonau moesegol

Rydym yn cadarnhau:

- ein bod wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol y mae'n ofynnol i ni eu dilyn wrth wneud ein gwaith;
- ein bod wedi aros yn annibynnol oddi arnoch chi;
- nad yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu; ac
- nad oes gennym unrhyw berthnasoedd a allai danseilio ein hannibyniaeth neu ein gwrthrychedd.

Atodiad 1 – Risgiau archwilio a'r canlyniadau

Roedd fy Nghynllun Archwilio'n nodi'r risgiau o gamddatganiad perthnasol ar gyfer yr archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn. Mae **Arddangosyn 2** yn rhestru'r risgiau archwilio hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad. Nid adnabuwyd unrhyw risgiau archwilio ychwanegol ers hynny y mae angen eu dwyn i'ch sylw.

Arddangosyn 2: risgiau archwilio a adroddwyd yn flaenorol, gwaith a wnaed a'r canlyniad

Risg archwilio	Gwaith a wnaed	Canlyniad
Risg o wrthwneud gan reolwyr Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.32-33].	Fe wnaeth y tîm archwilio: • brofi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol; • adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; a • gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes.	Nid adnabu fy ngwaith unrhyw achosion o wrthwneud rheolaethau gan reolwyr.

Prisio

gwarged/rhwymedigaeth net y gronfa bensiwn

Mae prisiad gwarged y gronfa bensiwn yn amcangyfrif perthnasol.

Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu ei fod yn destun gradd uchel o ansicrwydd amcangyfrif gan ei fod yn sensitif i addasiadau bach yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir yn ei gyfrifiad.

Mae risg felly bod y gwarged/rhwymedigaeth yn cael ei gam-ddatgan yn sylweddol.

Fe wnaeth y tîm archwilio

- gwerthuso'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan reolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actwari;
- asesu cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd yr actwari a gynhaliodd y prisiadau;
- asesu cywirdeb a chyflawnrwydd yr wybodaeth a ddarperir gan y Cyngor i'r actwari i amcangyfrif yr atebolrwydd;
- profi cywirdeb rhwymedigaeth a datgeliadau net y gronfa bensiwn yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwariad gan yr actwari;
- asesu pa mor rhesymol yw'r tybiaethau a wnaed gan yr actwari drwy adolygu adroddiad yr actwari ymgynghorol (arbenigwr yr archwilydd) a chynnal unrhyw weithdrefnau ychwanegol sy'n ofynnol;
- ac asesu a allai unrhyw achosion cyfreithiol gael effaith perthnasol ar y rhwymedigaeth

Nid oedd fy ngwaith archwilio yn nodi unrhyw broblemau gyda phrisio'r prisiad pensiwn.

gyffredinol net, ac os felly, cadarnhau bod hyn wedi'i gydnabod a'i ddatgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol.

Prisio tir ac adeiladau

Mae gwerth tir ac adeiladau a adlewyrchir yn y fantolen a nodiadau i'r cyfrifon yn amcangyfrifon perthnasol ac yn ddarostyngedig i lefel uchel o oddrychedd.

Mae risg y gallai gwerth cario asedau a adlewyrchir yn y cyfrifon fod yn sylweddol wahanol i werth cyfredol asedau ar 31 Mawrth 2025.

Fe wnaeth y tîm archwilio

- adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd i'r prisiwr i asesu ei chyflawnrwydd;
- gwerthuso cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd y prisiwr proffesiynol;
- profi sampl o asedau a ailbrisiwyd yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y sail prisio, y data allweddol a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y broses brisio yn rhesymol, a'r ailbrisiadau wedi'u hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol; a
- profi'r cysoni rhwng y cyfriflyfr ariannol a'r gofrestr asedau.

Gweler atodiad 2 am fanylion fy nghanfyddiadau mewn perthynas â phrisio tir ac adeiladau.

Gweithredu'r Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IFRS) 16 - Prydlesi Mae'n ofynnol i gyrff llywodraeth leol fabwysiadu Safon Gyfrifyddu Ryngwladol IFRS16 o 1 Ebrill 2024. Mae hyn yn newid yn sylweddol y driniaeth gyfrifyddu a'r datgeliadau sy'n ofynnol ar gyfer asedau ar brydles ac yn golygu y bydd y rhan fwyaf o brydlesi yn arwain at ased a rhwymedigaeth ar fantolenni. Mae risg nad yw gofynion y Safon Gyfrifyddu Ryngwladol yn cael eu mabwysiadu'n gywir ac o ganlyniad mae'r datganiadau ariannol yn cael eu cam-ddatgan yn sylweddol.	Fe wnaeth y tîm archwilio: • adolygu papurau gwaith y Cyngor i sicrhau bod yr holl brydlesi sy'n dod o fewn cwmphas y Safon wedi'u cynnwys mewn cyfrifiadau; • profi sampl o gyfrifiadau asedau a rhwymedigaethau i sicrhau bod y rhagdybiaethau yn rhesymol, a'r cyfrifiadau wedi'u paratoi'n gywir; a • cadarnhau fod gwerthoedd asedau a rhwymedigaethau wedi'u cyfrif a'u datgelu'n gywir yn y datganiadau ariannol.	Gweler atodiad 2 am fanylion fy nghanfyddiadau mewn perthynas â gweithredu'r Safon Gyfrifyddu Ryngwladol IFRS16 – Prydlesi.
Effaith Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 – Tystysgrifau Diogelwch Trydan Ym mis Tachwedd 2024, eglurodd yr Uchel Lys ofynion Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a'r rheoliadau cysylltiedig ynghylch rhwymedigaethau landlordiaid sy'n ymwneud â chwblhau arolygiadau ac adroddiadau diogelwch archwiliad trydan. Mae gan hyn oblygiadau posibl i gyrff a'u datganiadau ariannol ac mae'n debygol o fod yn destun ystyriaethau a heriau cyfreithiol pellach.	Adolygodd fy nhîm archwilio'r sefyllfa ddiweddaraf i sicrhau bod unrhyw effaith ar y datganiadau ariannol yn cael ei gydnabod a'i datgelu'n briodol.	Roedd angen mân newidiadau naratif i ddiweddarau'r datgeliad rhwymedigaeth wrth gefn mewn perthynas â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 oherwydd dyfarniad cyfreithiol ym mis Hydref 2025.

Datgeliadau partïon cysylltiedig

Mae rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu unrhyw berthynas partïon cysylltiedig ynghyd â'r trafodion a'r balansau rhwng y Cyngor a'r corff arall.

Mae gan y Cyngor lawer o berthnasau y gellid eu hystyried yn barti cysylltiedig. Mae llawer yn adnabyddus, er enghraifft, Llywodraeth Cymru fel ariannwr.

Pan fo perthnasoedd partïon cysylltiedig yn codi trwy berthnasoedd swyddogion unigol neu gynghorwyr, mae'n debygol y bydd llai o dryloywder ynghylch y perthnasoedd hyn. Mae'r trafodion o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd ac fe'u hystyrir yn faterol yn ôl eu natur.

Mae risg o gamddatganiadau perthnasol oherwydd datgeliadau anghyflawn neu anghywir, hyd yn oed pan fo'r rhain o werth cymharol isel.

Fe wnaeth y tîm archwilio:

- Adolygu proses y Cyngor ar gyfer nodi perthnasoedd partïon cysylltiedig a thrafodion a balansau cysylltiedig;
- Ymgymryd â gweithdrefnau i gadarnhau cwblhau perthnasoedd partïon cysylltiedig
- Sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â'r Cod Llywodraeth Leol.

Gweler atodiad 2 am fanylion fy nghanfyddiadau mewn perthynas â datgeliadau partïon cysylltiedig.

Porthladd Rhydd Ynys Môn

Ymgorfforwyd Porthladd Rhydd Ynys Môn yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25. Prif Swyddog Gweithredol y Cyngor yw'r unig gyfarwyddwr yn y swydd ar hyn o bryd, sy'n golygu y gallai perthynas grŵp rhwng y Cyngor a'r Porthladd Rhydd fodoli. Os oes perthynas grŵp yn bodoli, bydd angen i'r Cyngor gynhyrchu cyfrifon grŵp i gynnwys canlyniadau'r Porthladd Rhydd.

Fe wnaeth y tîm archwilio

- Adolygu asesiad y Cyngor ynghylch a oedd perthynas grŵp yn bodoli er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â chanllawiau CIPFA; a
- Lle bo'n berthnasol, sicrhau bod datgeliadau cyfrifon grŵp yn gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â'r Cod Llywodraeth Leol

Ar 31 Mawrth 2025, roedd y cwmni yn segur ac felly, nid oedd y gofynion i baratoi cyfrifon grŵp wedi'u bodloni.

Atodiad 2 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi'u cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni.

Gwerth y cywiriad	Maes yn y cyfrifon	Eglurhad
£3,410,000	Nodyn 13a – Asedau Anghyfredol Anheddau y Cyngor – Ailbrisio i'r Gronfa Ailbrisio: Gostyngiad o £3,410,000	I adlewyrchu sail brisio briodol anheddau cyngor gweithredol a fesurwyd yn flaenorol yn ôl y gost.
	Nodyn 9b – Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio Ailbrisio asedau nad ydynt wedi'u codi ar Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau: Gostyngiad o £3,410,000	
£2,463,000	Nodyn 21 – Lwfansau Safle Gwastraff Penhesgyn – Cynnydd/ (Gostyngiad) mewn darpariaethau yn ystod y flwyddyn: Gostyngiad o £2,463,000	I sicrhau bod y rhwymedigaeth darpariaethau yn y fantolen yn bodloni amodau IAS37.
	Darpariaethau Tymor Byr: Cynnydd o £87,000 Darpariaethau Tymor Hir: Gostyngiad o £2,550,000	

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Gwariant Gros – Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff: Gostwng £2,463,000 <i>Trosglwyddodd y Cyngor y balans hwn o'r Gronfa Gyffredinol i Gronfa Wrth Gefn wedi'i Glustnodi.</i>		
£1,349,000	Fantolen Grantiau tymor byr a dderbyniwyd ymlaen llaw: Gostyngiad o £1,349,000 Grantiau hirdymor a dderbyniwyd ymlaen llaw: Cynnydd o £1,349,000	I adlewyrchu'n gywir ddosbarthiad y grantiau a dderbynnir ymlaen llaw
£1,345,000	Nodyn 14 – Ymrwymadau Cyfalaf Sylweddol Contractau cynnal a chadw wedi'u cynllunio – HRA: Cynnydd o £1,345,000	I adlewyrchu ymrwymiad cyfalaf heb ei ddatgelu.
£1,090,000	Credydwy Symiau Taladwy Eraill: Gostyngiad o £1,089,000	Roedd dyledwyr a chredydwy wedi'u codi yn ymwneud â'i gilydd, yn arwain at y ddau balans yn cael eu gorddatgan. Cafodd y dyledwr net o £1,000 ei ddileu, gan nad oedd yn berthnasol mwyach.
(£1,000 o effaith ar y Gronfa Gyffredinol)	Dyledwyr Symiau Derbyniadwy Eraill: Gostyngiad o £1,090,000	
	Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Gwariant gros: Cynnydd o £1,000	
£1,080,000	Nodyn 13a – Asedau Anghyfredol	I adlewyrchu'n gywir brisiad ased a drosglwyddwyd i

	Asedau sy'n cael eu hadeiladu: Gostyngiad o £1,080,000 Nodyn 9b – Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio Ailbrisio asedau nad ydynt wedi'u codi i Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau: Gostyngiad o £655,000 Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Gwarged ar ailbrisio asedau anghyfredol: Gostyngiad o £425,000 Nodyn 25a – Incwm a Gwariant yn ôl Natur Gwariant Gwasanaethau Eraill: Gostyngiad o £425,000 <i>Bydd y mater hwn hefyd yn arwain at addasiad rhwng y gronfa gyffredinol a'r cyfrif addasu cyfalaf o £425,000, drwy'r addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a chyllid.</i>	Asedau sy'n cael eu hadeiladu, i'w ail-bwrpasu fel stoc Annedd y Cyngor yn y dyfodol.
£996,000	Nodyn 6 – Addasiadau rhwng Sail Cyfrifyddu a Chyllido o dan Reoliadau Gwariant refeniw a ariennir o gyfalaf o dan statud: Cynnydd o £996,000 Gwariant Cyfalaf a godwyd yn erbyn y Gronfa Gyffredinol: Cynyddwyd gan (£996,000)	i sicrhau bod Nodyn 6 yn cael ei nodi'n gywir ac yn gyson â meysydd eraill yn y datganiadau ariannol.

Nodyn 9a – Cyfrif Addasu Cyfalaf

Gwariant refeniw a ariennir o gyfalaf o dan statud: Cynyddwyd gan (£996,000)

Defnydd o'r gronfa gyfalaf wrth gefn: Cynyddu £966,000

£917,000

Nodyn 13a – Asedau Cyfredol

Tir ac Adeiladau – Cynnydd mewn Ailbrisio i'r Gronfa Ailbrisio: Cynnydd o £917,000

I gywiro prisiadau a oedd yn cynnwys gwallau o fewn y mewnbynnau cyfrifo.

Nodyn 9b – Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio

Ailbrisio asedau nad chodwyd ar Ddiffyg ar Ddarparu
Gwasanaethau: Cynnydd o £917,000

£829,000

Nodyn 13a – Asedau Anghyfredol

Tir ac Adeiladau – Ychwanegiadau (arall) Cynnydd o £352,000

I adlewyrchu'n gywir werth asedau sy'n eiddo i'r Cyngor, nad oeddent wedi'u cydnabod o'r blaen yn y fantolen.

Nodyn 16 - Eiddo Buddsoddi

Ychwanegiadau (arall): Cynnydd o £322,000

Asedau a ddelir i'w Gwerthu

Cynnydd o £155,000

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Trethiant ac Incwm Grant Penodol wedi'i gynyddu gan (£829,000)

*Bydd y mater hwn hefyd yn arwain at addasiad rhwng y **gronfa gyffredinol a'r cyfrif Addasu cyfalaf** o £829,000 drwy'r addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a chyllido.*

£712,000

Nodyn 13a – Asedau Anghyfredol

Tir ac Adeiladau: Gostyngiad o £712,000

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Gwarged ar ailbrisiu asedau anghyfredol: Gostyngiad o £712,000

I adlewyrchu asedau ar brydles a gydnabyddwyd yn flaenorol yn y fantolen. Bydd yr asedau hyn wedyn yn rhan o falans asedau 'Hawl i Ddefnyddio'.

£340,000

Nodyn 22 – Llif arian o Weithgareddau Gweithredu

Effaith yr isafswm darpariaeth refeniw ar brydlesi: Gostyngiad o (£340,000)

Nodyn 24 – Llif arian o Weithgareddau Ariannu

Ad-daliadau arian parod o rwymedigaethau prydles hawl i ddefnyddio: Cynnydd o (£340,000)

I adlewyrchu'r llif arian yn gywir mewn perthynas â phrydlesi IFRS16.

£110,000

Note 35b – Financial Liabilities Held by the Council

Benthycia SALIX Tymor Byr: Gostyngiad o £110,000
Benthycia SALIX tymor hir: Cynnydd o £110,000

I adlewyrchu dosbarthiad cywir benthyciadau SALIX.

£100,000	Nodyn 30 – Incwm Grant Wedi'i gredydu i Wasanaethau – Cronfa Lefelu i Fyny: Gostyngiad o £100,000 Wedi'i gredydu i Drethiant ac Incwm Grant Penodol – HRA (Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf): Cynyddwyd £100,000 Nodyn 22: Llif arian o Weithgareddau Gweithredu Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau a Dderbyniwyd: Gostyngiad o £100,000 Nodyn 23: Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a dderbyniwyd: Cynnydd o £100,000	Adlewyrchu'n gywir y sefyllfa ariannu cyfalaf mewn perthynas ag elfen o Incwm grant, yn gyson â datgeliadau ariannol eraill yn y datganiad cyfrifon.
£49,000	Nodyn 31 – Partïon Cysylltiedig Canolfan Ulchedre: Gwariant wedi cynyddu £19,000 Urdd Gobaith Cymru: Gwariant wedi cynyddu £30,000 Taliadau a wneir: Cynnydd o £49,000	Er mwyn adlewyrchu gwariant a nodwyd nad oedd wedi'i gynnwys o'r blaen yn y nodyn datgelu.
£22,499	Nodyn 27 – Cydnabyddiaeth Ariannol i Swyddogion (Uwch Swyddogion) Ffioedd a Lwfansau Cyflog (ar draws yr holl uwch swyddogion): Gostyngwyd gan cyfanswm o £22,499.	Adlewyrchu'r Cyflog, Ffioedd a'r Lwfansau cywir i Uwch swyddogion yn ystod y flwyddyn.

Various

Fantolen

Mae Asedau Hawl Defnyddio wedi cynyddu £550,000.

Mae rhwymedigaethau prydles tymor byr wedi gostwng £47,000.

Mae Rhwymedigaethau Prydles Hirdymor wedi cynyddu £155,000.

Nodyn 43a – Asedau Hawl i Ddefnyddio

Mae Asedau Hawl Defnyddio wedi cynyddu £550,000.

Nodiadau 43b a 43c

Mae'r nodiadau datgelu hyn wedi'u dileu oherwydd amherthnasedd.

Polisiau Cyfrifyddu

Mae Polisi Cyfrifyddu 18 wedi'i ddileu, o ganlyniad i gyflwyno Polisi Cyfrifyddu 28.

Sylwer – mae'r newid yng ngwerth asedau hawl i ddefnydd hefyd wedi effeithio ar ddibrisiant ac enillion mewn perthynas â chydabod asedau hawl i ddefnydd o dan chostau cyllid a lesioedd gwerth isel (peppercorn) yn ystod y flwyddyn. Mae'r newidiadau hyn hefyd wedi'u hadlewyrchu yn y cyfrifon diwygiedig, fodd bynnag, maent yn amherthnasol felly nid ydynt wedi'u datgelu ar wahân.

Fe wnaeth y Cyngor ein gwneud yn ymwybodol bod eu balansau a'u datgeliadau mewn perthynas ag IFRS16 yn anghyflawn ar ôl derbyn y cyfrifon drafft. Yn dilyn gwaith pellach gan y Cyngor ac adolygiad o'u gwaith, mae angen yr addasiadau rhestredig.

Amryw	Nodyn 27 – Cydnabyddiaeth Ariannol i Swyddogion (Tabl Bandio) Band Ysgolion - £60,000 i £64,999: Diweddarwyd o 34 i 31 o swyddogion.	I adlewyrchu'r nifer cywir o swyddogion sy'n dod o fewn y band taliadau.
Amryw	Adroddiad Naratif Gwnaed amryw o fân newidiadau.	Er mwyn bod yn gyson â'r datganiadau ariannol a'r ddogfennaeth sylfaenol ategol.

Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Sir Ynys Môn

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llifoedd Arian Parod, y Datganiad Symud ar y Cyfrif Refeniw Tai, Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasedd arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31 Mawrth 2025 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cyngor Sir Ynys Môn i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am Cyngor Sir Ynys Môn a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 9, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg ac sy'n cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu Cyngor Sir Ynys Môn i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog

cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Sir Ynys Môn sy'n ymwneud ag:
 - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cofnodi siwrnalau anarferol;
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cyngor Sir Ynys Môn, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith

uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Sir Ynys Môn.

- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymglyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Sir Ynys Môn, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru

30 Hydref 2025

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd, CF10 4BZ

Atodiad 4 – Llythyr sylwadau

Llythyr Sylwadau Terfynol

[Pennawd y corff a archwilir]

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd
CF10 4BZ

28 Hydref 2025

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2024-25

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth Ariannol sy'n cael ei harchwilio) Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 at ddiben mynegi barn ynglŷn â'u gwirionedd a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau'r rheolwyr

Cyfrifoldebau

Yr ydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg yn unol â hwy;
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:

- yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
- gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
- mynediad digyfngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Cyngor Sir Ynys Môn ac sy'n cynnwys:
 - rheolwyr;
 - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartion cysylltiedig a'r holl berthnasodd a thrafodion partion cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt;

Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghydestun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasodd a thrafodion partion cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau camddatganiadau nas cywirwyd a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unol ac ar y cyd, i'r datganiadau ariannol o'u cymryd yn eu cyfanrwydd.

Mae crynodeb o'r eitemau hyn wedi'i nodi isod:

Mae ein profion archwilio wedi nodi 32 o asedau o fewn y Gofrestr Asedau Sefydlog sydd ar hyn o bryd yn dal balans credyd yn y Gronfa Ailbrisio ochr yn ochr â debyd cronnus i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau, sydd wedi'i drosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf (CAA).

O dan driniaeth gyfrifyddu briodol, dylid gwrthdroi unrhyw ddebyd cronnus o fewn y CAA ar enillion ailbrisio dilynol cyn credydu'r Gronfa Ailbrisio.

Felly, ni ddylai ased gario y ddau balans ar yr un pryd. Felly, mae angen addasiad rhwng y Gronfa Ailbrisio a'r CAA mewn perthynas â'r asedau hyn o £1,561,000.

Nid ydym wedi diwygio datganiadau ariannol mewn perthynas â'r mater hwn oherwydd:

- Mae'r Cyngor wedi dewis peidio â phrosesu'r addasiad hwn yn y datganiadau ariannol yn 2024-25, gan nodi ei effaith amherthnasol ar y cyfrifon.
- Yn ogystal, bydd prosesu'r addasiad yn gofyn am adolygiad o gofnodion hanesyddol ar gyfer pob un o'r asedau yr effeithir arnynt, mewn rhai achosion, yn dyddio'n ôl i 2014-15. Byddai wedi bod yn anymarferol cwblhau'r adolygiad hwn cyn terfyn amser ardystio 31 Hydref.
- Ar ben hynny, gan fod y camddatganiad wedi'i gyfyngu i ddwy gronfa wrth gefn na ellir eu defnyddio, nid yw'n cael unrhyw effaith ar Gronfa Gyffredinol y Cyngor ac nid yw'n effeithio ar y trethdalwr.

Sylwadau gan Cyngor Sir Ynys Môn

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Cyngor Sir Ynys Môn ar 28 Hydref 2025.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Llofnodwyd gan:

Marc Jones
Cyfarwyddwr Swyddogaeth
(Adnoddau) – Swyddog Adran 151
Dyddiad: 28 Hydref 2025

Y Cyngorydd Gary Pritchard
Arweinydd, Cyngor Sir Ynys Môn
Dyddiad: 28 Hydref 2025

Ansawdd archwilio


Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru'n un llwyr. Rydym ni'n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â chael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlyn a goruchwyllo'r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel dolen gyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein [Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2024](#).




Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu



Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Platform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y problem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

Eich cefnogi chi

Mae gan Archwilio Cymru ystod o adnoddau i roi cymorth i graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

Ewch at ein gwefan i ganfod:



Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.



Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.



Offer data i'ch helpu i gael dealltwriaeth well am dueddiadau mewn gwariant cyhoeddus.



Manylion ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arfer a mewnwleidiadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.



Ein cylchlythyr sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.



Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd Cyngor Sir
Dyddiad:	Pwyllgor Gwaith/ Arweinydd - 17 Hydref 2025 Cyngor Sir – 28 Hydref 2025
Pwnc:	Ailstrwythuro'r Tîm Rheoli Corfforaethol
Aelod Portffolio:	Cyng. Gary Pritchard, Arweinydd Cyng. Robin Williams (Dirprwy Arweinydd) Cyllid, Busnes y Cyngor a Phrofiad y Cwsmer
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Dylan Williams, Prif Weithredwr
Awdur yr Adroddiad:	Dylan Williams, Prif Weithredwr
Aelodau Lleol:	Mae'n berthnasol i'r holl Aelodau

A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

Pwyllgor Gwaith / Arweinydd

I gefnogi'r argymhellion i'r Cyngor Sir fel y disgrifir yn baragraffau 1–3 isod.

Cyngor Sir

1. I ddileu swydd Pennaeth Proffesiwn (Gwasanaeth AD a Thrawsnewid) o strwythur Rheolaeth Corfforaethol y Cyngor
2. Creu dau Wasanaeth penodol newydd a Phenaethiaid Gwasanaeth fel a ganlyn:
 - Pennaeth Gwasanaeth (TG a Pherfformiad)
 - Pennaeth Gwasanaeth (Adnoddau Dynol a Chyfathrebu)
3. Yn amodol ar y penderfyniadau ym mharagraffau 1. a 2. uchod, awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i ddiwygio'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau uchod yn dilyn cymeradwyo'r disgrifiadau swyddi newydd gan y Pwyllgor Penodi.

Rhesymau

Bydd swydd bresennol Pennaeth y Proffesiwn (AD a'r Gwasanaeth Trawsnewid) yn dod yn wag yn fuan, gan greu cyfle i ailstrwythuro. Byddai'r argymhellion a ddisgrifir uchod, ym marn y Prif Weithredwr, yn rôl statudol Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, yn ehangu arweinyddiaeth strategol, gwydnwch a gallu'r Cyngor i esblygu ac addasu'n barhaus i amgylchedd cyfreithiol a digidol sy'n newid yn barhaus. Bwriad y strwythur newydd arfaethedig hefyd yw gwella'r rhagolygon ar gyfer recriwtio a chadw staff yn y meysydd corfforaethol allweddol hyn sydd â dylanwad sylweddol ar ddarparu holl Wasanaethau'r Cyngor yn llwyddiannus.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Opsiwn 1: Dim Newid Gwrthodwyd hyn, gan ei fod yn methu â lliniaru risgiau yn y dyfodol, yn methu â gwella gwydnwch a gallu mewn arweinyddiaeth strategol, ac nad oedd cyfle i adolygu'r strwythur presennol.

Opsiwn 3: Ailstrwythuro Swyddogaethau'r Cyngor Cyfan (dosbarthu elfennau o'r Gwasanaeth presennol i rannau eraill o'r sefydliad). O bosib, byddai hyn yn cael effaith negyddol ar staff/deiliaid swyddi eraill a byddai gweithredu'r broses yn gofyn am brosesau hirfaith a chymhleth. Gall hyn amharu ar waith, morâl staff, perfformiad ac ewyllys da.

Opsiwn 4: Cyfle Effeithlonrwydd (dileu'r swydd bresennol). Gwrthodir hyn oherwydd y risgiau a achosir pe na bai ganddyn nhw weithiwr proffesiynol AD digon profiadol i arwain ar strategaeth a pholisi AD o fewn y Cyngor.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Penderfyniad i'r Cyngor Llawn yw hwn wrth iddo ddiwygio'r Strwythur Rheoli (Rhan 7 o'r Cyfansoddiad) a'r Cynllun Dirprwyo (Rhan 3 o'r Cyfansoddiad). Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gael cyfle i fynegi barn ar gyfer pob newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad (paragraff 2.15.2.1).

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydy

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Disgwylir y bydd goblygiadau ariannol y newid oddeutu £35,000 (y flwyddyn). Mae opsiynau'n cael eu hadolygu er mwyn gwybod a ellir bodloni'r costau hyn gyda chyllidebau presennol.

Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys?

/

2. A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar y Cyngor yn y dyfodol? Os felly, sut?

/

3. A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, gyda phwy?

/

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut.

/

5. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

/

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

/

7. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

/

E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori a beth oedd eu sylwadau?

1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol)	Rhannwyd yr adroddiad gyda'r Tîm Arweinyddiaeth ac mae adborth wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.
2. Swyddog Cyllid / 151	Fel rhan o'r Tîm Arweinyddiaeth
3. Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Fel rhan o'r Tîm Arweinyddiaeth
4. AD	Rhannwyd yr adroddiad gyda'r Pennaeth Gwasanaeth.
5. Eiddo	Amherthnasol
6. TG	Amherthnasol
7. Caffael	Amherthnasol
8. Sgriwtini	Amherthnasol
9. Aelodau Lleol	

F - Atodiadau

Atodiad A – Cyflwyniad
 Atodiad B - Swydd Ddisgrifiad Bresennol
 Atodiad C - Strwythur y Tîm Rheoli Gwasanaeth (Gwasanaeth Trawsnewid)
 Atodiad D - Prif ddyletswyddau a phwysigrwydd y rôl i effeithiolrwydd, moderneiddio, cydymffurfiaeth a rheoli risg y Cyngor.
 Atodiad E - Strwythur Newydd Arfaethedig

Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach)

Atodiad A

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r papur hwn yn diffinio ac yn ystyried yr opsiynau posibl mewn perthynas ag ymddiswyddiad diweddar y deilydd swydd presennol fel Pennaeth Gwasanaeth Trawsnewid / Pennaeth Swyddogaeth Adnoddau Dynol (AD). Cafodd y swydd hon ei chreu fis Mawrth 2018, pan benodwyd y deilydd swydd presennol. Bydd ei chyflogaeth gyda Chyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn dod i ben ddiwedd fis Rhagfyr 2025.
- 1.2 Mae hon yn uwch swyddog gritigol sy'n effeithio ac yn dylanwadu ar y Cyngor cyfan. Defnyddir yr arfarniad opsiynau er mwyn ystyried a chytuno ar y ffordd ymlaen.
- 1.3 Mae'r broses wedi cynnwys trafodaeth anffurfiol gydag aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth, rhoi ystyriaeth i strwythurau mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, y cyfrifoldebau ynghlwm â'r swydd, gofynion presennol, cyfleoedd posibl, heriau a risgiau (i foderneiddio, gwella a chynnal effeithiolrwydd), ac arfarniad opsiynau yn erbyn meini prawf allweddol. Mae hyn wedi arwain at gasgliad clir ar argymhelliad ar y ffordd ymlaen.

2.0 Y Rôl - Pennaeth Gwasanaeth Trawsnewid / Pennaeth Swyddogaeth AD

- 2.1 Mae dyletswyddau penodol y swydd wedi'u hamlinellu yn adran 3.4.3.9 cyfansoddiad y Cyngor, a gellir eu crynhoi fel a ganlyn (mae'r swydd ddisgrifiad bresennol ar gael yn **Atodiad B**):
- 2.2 *Darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer yr ystod amrywiol ganlynol o wasanaethau, prosiectau a mentrau sy'n canolbwyntio adnoddau ar ddatblygu sefydliad effeithiol ac effeithlon (nis yw hon yn rhestr gynhwysfawr) :*
- *Trawsnewid / Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau*
 - *AD/Strategaeth Pobl (gan gynnwys y Gweithlu Gofal Cymdeithasol)*
 - *Strategaeth Cwsmer/ymgysylltu â dinasyddion*
 - *Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus*
 - *Perfformiad*
 - *Cynllunio Corfforaethol*
 - *Comisiynu Datblygiadau*
 - *TGCH*
- 2.3 Mae strwythur y Tîm Rheoli Gwasanaeth (Gwasanaeth Trawsnewid) wedi ei atodi yn **Atodiad C**.

3.0 Cyd-destun

- 3.1 Mae prif ddyletswyddau'r rôl a'i phwysigrwydd mewn perthynas â gallu'r Cyngor i foderneiddio, cydymffurfio, rheoli risgiau a swyddogaeth yn effeithiol ac effeithlon wedi'u crynhoi yn **Atodiad D**.

3.2 Asesiad o'r Sefyllfa

- 3.2.1 Bydd un uwch swydd o fewn strwythur staff y Cyngor yn wag - swydd Pennaeth Gwasanaeth Trawsnewid, sy'n ymgorffori dyletswyddau proffesiynol Pennaeth Swyddogaeth AD.

- 3.2.2 Graddfa cyflog y swydd ydi CLIL graddfa 2, ac mae lefel y cyflog wedi ei gyhoeddi yn y Datganiad Polisi Tal ar wefan y Cyngor - [Datganiad polisi tâl 2025](#).
- 3.2.3 Mae'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau yn cael effaith uniongyrchol ar berfformiad y Cyngor cyfan, ei allu i weithredu a chydymffurfio gyda pholisïau a deddfwriaeth.
- 3.2.4 Mae'r dyletswyddau hefyd yn dylanwadu ac yn effeithio ar ddiwylliant sefydliadol, ei allu i weithredu, newid a moderneiddio.
- 3.2.5 O ganlyniad i'r swydd hon yn dod yn wag, mae cyfle yma i adnewyddu, ac argymhellir fod y term 'trawsnewid' yn cael ei newid gyda 'perfformiad'.
- 3.2.6 Mae Tîm Rheoli ac Arweinyddiaeth y Cyngor yn gyfrifol am risgiau strategol y sefydliad cyfan, ond mae cysylltiad agos yma i ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd fydd yn dod yn wag:
- TG ac ymosodiadau seibr
 - Recriwtio
 - Blaen Gynllunio Gwasanaeth
 - Llywodraethu a chydymffurfiaeth (mewn meysydd perthnasol)
 - Cynllunio Olyniaeth:
- 3.2.7 Cafodd y dyletswyddau ei cyfuno i un swydd ym mis Mawrth 2018, pan benodwyd y deilydd swydd presennol. Ar ôl cael ei phenodi, gwnaed penderfyniad ffurfiol i ddileu'r swydd Pennaeth Swyddogaeth AD o'r strwythur staff.
- 3.2.8 Rhaid recriwtio gweithiwr AD strategol arbenigol i arwain ar y dyletswyddau/cyfrifoldebau hyn i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i weithredu'n effeithiol (i'r swydd gyfredol neu swydd/strwythur wedi ei ddiwygio).
- 3.2.9 Mae nifer o gyfrifoldebau, cymhlethdodau, risgiau a chyfleoedd ynghlwm â gwasanaethau TG a digidol, ac maent wedi datblygu'n sylweddol ers penodi'r deilydd swydd gyntaf yn 2018, a byddant yn parhau i newid dros y blynyddoedd i ddod.
- 3.2.10 Mae hefyd risg, pa bynnag opsiwn a ddewisir, y bydd y Cyngor yn methu a recriwtio unigolyn profiadol a chymwys addas i arwain ar faterion AD strategol.
- 3.2.11 Y Prif Weithredwr yr rheolwr llinell y deilydd swydd presennol; mae 8 unigolyn yn atebol i'r swydd hon (gweler [Atodiad C](#)):
- Prif Swyddog Digidol
 - Rheolwr Perfformiad a Thrawsnewid
 - Swyddog Cyfathrebu
 - 5 swydd yn y swyddogaeth AD

4.0 Opsiynau

- 4.1 Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau anffurfiol gydag aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth, gellir crynhoi'r prif opsiwn fel (nb. mewn perthynas â'r tri opsiwn cyntaf, rhaid recriwtio gweithiwr proffesiynol AD strategol):
- 4.2 **Opsiwn 1: Dim newid:** diweddarau'r swydd ddisgrifiad a dilyn proses recriwtio
- 4.3 **Opsiwn 2: Creu dau Wasanaeth penodol:** Pennaeth Gwasanaeth TG a Pherfformiad, a Phennaeth Gwasanaeth Swyddogaeth AD a Gwasanaeth Cwsmer
- 4.4 **Opsiwn 3: Aildrefnu Swyddogaethau'r Cyngor Cyfan:** Opsiwn 2, ond drwy alinio swyddogaethau sy'n effeithio ar y Cyngor cyfan ymhellach i Gyfarwyddiaeth newydd.

4.5 **Opsiwn 4: Cyfle Effeithlonrwydd:** dileu swydd a Gwasanaeth, ailddyrannu swyddogaethau/ cyfrifoldebau.

5.0 Arfarniad Opsiynau

5.1 Defnyddiwyd y meini prawf canlynol i ystyried effeithiau bob opsiwn a nodwyd uchod:

1. Risgiau - effaith ar recriwtio, perfformiad a chydymffurfiaeth i'r Cyngor yn y dyfodol
2. Cadw arweinydd AD strategol proffesiynol
3. Capasiti, gwydnwch a gallu arweinyddiaeth strategol
4. Goblygiadau Ariannol (fforddiadwyedd a gwerth am arian)
5. Dylanwad ar allu'r Cyngor i foderneiddio, addasu a chyflawni newid yn y dyfodol
6. Amhariad posibl (strategol/ gweithredol/ swyddi eraill)

5.2 Mae'r Arfarniad Opsiynau wedi'i grynhoi yn **Nhabl 1** ar y dudalen nesaf.

Tabl 1: Arfarniad Opsiynau ar gyfer Swydd Wag Pennaeth Gwasanaeth Trawsnewid (Medi 2025)

Meini Prawf Allweddol							
Opsiynau	Risgiau - effaith ar recriwtio, perfformiad a chydymffurfiaeth	Cadw arweinydd AD strategol proffesiynol	Capasiti, gwydnwch a gallu arweinyddiaeth strategol	Goblygiadau Ariannol	Dylanwad ar allu'r Cyngor i foderneiddio, addasu a chyflawni newid yn y dyfodol	Amhariad posibl (strategol/ gweithredol/ swyddi eraill)	Sgôr
Opsiwn 1 - Dim Newid	5	5	5	10	5	10	40
Opsiwn 2 - Creu dau Wasanaeth penodol	10	10	10	5	10	5	50
Opsiwn 3 - Aildrefnu Swyddogaethau'r Cyngor Cyfan	10	10	10	5	10	0	45
Opsiwn 4 - Cyfle Effeithlonrwydd	0	0	0	5	0	0	5

Tudalen 183

Sgorio	
Effaith Cadarnhaol/ Isel	10
Ychydig o Effaith / Effaith dibwys	5
Effaith Negyddol / Uchel	0

6.0 Crynodeb a Chasgliad

- 6.1 Cafwyd cyfle i sefyll yn ôl ac adolygu'r holl opsiynau o ganlyniad i'r swydd hon yn dod yn wag. Yn ychwanegol at yr arfarniad opsiynau, cafwyd cyfle i ystyried anghenion a gofynion posibl, a chymharu strwythurau a chyfrifoldebau gyda Chynghorau cyfagos.
- 6.2 Sefydlwyd y strwythur yn 2018, gyda nifer o swyddi Penaethiaid Gwasanaeth lle nad oedd gan y deilydd swydd gefnogi proffesiynol / gallu mewn rhai o'r meysydd cyfrifoldeb ac atebolrwydd.
- 6.3 Rhaid recriwtio gweithiwr AD strategol arbenigol i arwain ar y dyletswyddau/ cyfrifoldebau hyn i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i weithredu'n effeithiol (i'r swydd gyfredol neu swydd/strwythur wedi ei ddiwygio).
- 6.4 Mae nifer o gyfrifoldebau, cymhlethdodau, risgiau a chyfleoedd ynghlwm â gwasanaethau TG a digidol, ac maent wedi datblygu'n sylweddol ers penodi'r deilydd swydd gyntaf yn 2018, a byddant yn parhau i newid dros y blynyddoedd i ddod.
- 6.5 O ran yr Opsiynau, mae 3 cyntaf yn realistig, gydag opsiwn 4 yn cael ei anwybyddu:
- 6.5.1 **Opsiwn 1: Dim newid:** diweddarau'r swydd ddisgrifiad a dilyn proses recriwtio ar gyfer ymgeiswyr gyda chefnidir a phrofiad proffesiynol yn y maes AD. Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol, a bydd yr amhariad posibl yn esgeulusadwy.
- 6.5.2 **Opsiwn 2: Creu dau Wasanaeth penodol:** Bydd Pennaeth Gwasanaeth TG a Pherfformiad a Phennaeth Gwasanaeth AD a Chyfathrebu yn gwella arweinyddiaeth strategol, gwydnwch a gallu'r Cyngor i foderneiddio ac addasu. Bydd recriwtio a chadw staff gyda'r ddwy swydd yn cael ei gryfhau.
- 6.5.3 **Opsiwn 3: Aildrefnu Swyddogaethau'r Cyngor Cyfan:** symud Opsiwn 2 yn ei flaen a'i ddatblygu, drwy alinio swyddogaethau sy'n effeithio ar y Cyngor cyfan ymhellach i Gyfarwyddiaeth newydd (o bosib dan y Dirprwy Brif Weithredwr). Fodd bynnag, mae sawl effaith posibl, yn enwedig ar staff/ deilyddion swydd eraill, a phrosesau cymhleth. Mae posib i hyn effeithio ar swyddogion, morâl, perfformiad ac ewyllys da.
- 6.5.4 **Opsiwn 4: Cyfle Effeithlonrwydd:** ni chredir bod dileu'r swydd a'r Gwasanaeth, ailddyrannu swyddogaethau / cyfrifoldebau yn opsiwn hyfwrdd oherwydd y risgiau sy'n cael eu creu drwy beidio a chael gweithiwr AD proffesiynol strategol i arwain ar gyfrifoldebau o fewn y Cyngor.
- 6.6 O ganlyniad i'r dadansoddiad eang a wnaed a'r arfarniad opsiynau, i liniaru risgiau pellach, gwella gwydnwch a gallu arweinyddiaeth strategol, cynigir parhau'r â'r cyfle i adolygu'r strwythur (ym maes cyfrifoldeb swydd y Pennaeth Gwasanaeth Trawsnewid). Ystyrir bod AD a TG o bwysigrwydd allweddol i allu'r Cyngor i weithredu heddiw ac yn y dyfodol, yn enwedig o ystyried effaith y chwyldro digidol ar y gweithle, moderneiddio a ffyrdd gwahanol o ddarparu gwasanaethau. Oherwydd hyn, credir bod cyfle yma i greu dau faes Gwasanaeth unigryw.
- 6.7 Disgwylir y bydd goblygiadau ariannol y newid oddeutu £35,000 (y flwyddyn). Mae opsiynau'n cael eu hadolygu er mwyn gwybod a ellir bodloni'r costau hyn gyda chyllidebau presennol. Byddai'r cyllid yn cael ei ychwanegu i gynyddu cyflog gradd 10 o fewn y gwasanaeth i swydd Pennaeth Gwasanaeth. Y Pwyllgor Penodi fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol, gan ddilyn y broses recriwtio arferol. Os penodi'r Pennaeth Gwasanaeth yn fewnol, byddai swydd sefydledig yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei dileu.

7.0 Argymhellion

- 7.1 Y cefnogir Opsiwn 2 (yn amodol ar ddilyn proses ffurfiol), gyda dau faes gwasanaeth penodol yn cael eu creu er mwyn gwella gwydnwch a gallu'r Cyngor i ymdopi'n effeithiol ac effeithiol â heriau, cyfleoedd a risgiau yn y dyfodol - Pennaeth Gwasanaeth TG a Pherfformiad a Phennaeth Gwasanaeth AD a Gwasanaeth Cwsmer. Amlinellir y strwythur arfaethedig newydd yn Atodiad E.**

Swydd Ddisgrifiad

TEITL Y SWYDD: PENNAETH TRAWSNEWID CORFFORAETHOL

Yn Adrodd i (Teitl Swydd): Prif Weithredwr

DIBEN Y SWYDD

Yn gyfrifol am arwain a chyflawni rhaglen drawsnewid y Cyngor, gan weithio ar draws yr holl Adrannau i gyflawni a gyrru nifer o ffrydiau gwaith i yrru perfformiad, rhoi sylw i broblemau a gwendidau y gwyddys amdanynt ac integreiddio rhaglen drawsnewid uchelgeisiol.

Goruchwylio prosiectau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phrosiectau trawsnewid hollbwysig (e.e. Addysg/Llyfrgelloedd, Cyllid, Gofal Cymdeithasol, Asedau), yn ogystal â bod yn berchen ar weithdrefnau rheoli rhaglenni a pherfformiad, y Cynllun Corfforaethol, cyfathrebu ac ymgysylltu gyda'r cwsmer, Technoleg Gwybodaeth ac AD (lle mae gweithrediadau, y Strategaeth Pobl a'r Strategaeth TG yn gyfryngau allweddol ar gyfer newid).

Bydd y rôl yn cefnogi blaenoriaethau'r Cyngor trwy gyfrannu at ddatblygu strategaeth ar lefel gorfforaethol, yn ogystal â chydweithio ar draws y Cyngor a chyda phartneriaid.

PRIF GYFRIFOLDEBAU

Cyfrifoldebau Corfforaethol Craidd ac Arweinyddiaeth Strategol

Cyfrannu'n uniongyrchol tuag at ddatblygu a darparu'r rhaglen strategol gorfforaethol trwy ddarparu gweledigaeth glir, gyrru ffyrdd newydd o weithio a chydweithio.

Fel rhan o'r Tîm Arweinyddiaeth ehangach, sicrhau cydlyniad strategol a blaenoriaethu effeithiol pan yn cyflawni uchelgeisiau strategol y Cyngor.

Arwain gyda datblygu a gweithredu polisïau, strategaethau a chydweithio corfforaethol i gefnogi arbedion effeithlonrwydd, trawsnewid, newid a gwelliant parhaus.

Cyfrifoldebau Arweinyddiaeth Weithredol

Darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer yr ystod amrywiol ganlynol o wasanaethau, prosiectau a mentrau sy'n canolbwyntio adnoddau ar ddatblygu sefydliad effeithiol ac effeithlon:

- Trawsnewid/Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau (Addysg/Llyfrgelloedd/Gofal Cymdeithasol/Asedau)
- AD/Strategaeth Pobl (gan gynnwys y Gweithlu Gofal Cymdeithasol)

TEITL Y SWYDD: PENNAETH TRAWSNEWID CORFFORAETHOL

- Strategaeth Cwsmer/ymgysylltu â dinasyddion
- Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus
- Perfformiad
- Cynllunio Corfforaethol
- TGCh/ Strategaeth TGCh

Arwain trawsnewid ar draws ystod eang o raglenni a phrosiectau i gyflawni gweledigaeth y Cyngor i gwrdd â heriau allanol sylweddol.

Cefnogi a gyrru'r Cyngor ymlaen o ran sicrhau canlyniadau, datblygu perthynas y Cyngor gyda phobl leol, gan ymgysylltu gyda'n gweithwyr a'u grymuso, a hynny mewn sefydliad sydd wedi ei alinio'n well ac sy'n perfformio'n well.

Hyrwyddo, ymgysylltu a dal eraill yn atebol wrth gydlyn rhaglen o waith i drawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, a chefnogi eraill i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio.

Arwain ar faterion perfformiad a chynllunio corfforaethol, gan gefnogi'r awdurdod i fonitro, cynllunio, datblygu a dal gwasanaethau a rheolwyr yn atebol am safonau uchel o ran perfformio a chyflawni.

Datblygu Strategaeth TGCh y cyngor a rheoli'r Gwasanaeth TGCh.

Goruchwylio'r Tîm Adnoddau Dynol a'r Strategaeth Pobl, rheoli'r Pennaeth Proffesiwn i ddarparu gwasanaeth Adnoddau Dynol gweithredol ynghyd ag alinio a datblygu Strategaeth Pobl sy'n datblygu ac yn cynllunio ar gyfer gweithlu effeithiol sy'n medru cwrdd ag anghenion y sefydliad. Rhaid i'r swydd hon sicrhau fod gwaith sy'n gysylltiedig â'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn galluogi'r Cyfarwyddwr Cymuned i gyflawni cyfrifoldebau'r swydd honno'n effeithiol.

Arwain ar faterion strategaethau cwsmeriaid, cyfathrebu ac ymgysylltu cyhoeddus er mwyn darparu'r math a'r lefel briodol o ymgysylltiad gyda dinasyddion, yn ogystal â hyrwyddo canlyniadau a materion y Cyngor yn y gymuned.

Gan arwain drwy esiampl bydd deilydd y swydd yn gweithredu fel model rôl ar gyfer gwerthoedd y Cyngor ac ymddygiad arweinwyr i yrru newid ymddygiadol mewn eraill.

Arwain, yn ysgogi a dal uwch reolwyr i gyfrif am berfformiad, gan arddangos gwerthoedd a safonau'r Cyngor yn gyson, a chan sicrhau bod targedau perfformiad yn cael eu cyflawni o fewn cyfnodau amser cytunedig a chyllidebau pendant.

Sicrhau bod gwasanaethau wedi eu cynllunio a'u bod yn cael eu darparu mewn ffordd gydlynol a chydweithredol ac mewn ffordd fydd yn cydymffurfio â pholisïau, safonau, deddfwriaeth a sgrïwtini cytunedig a phrosesau gwella parhaol.

Mynd ati'n rhagweithiol i geisio cyfleon i sefydlu, adeiladu a chynnal perthnasau llwyddiannus gyda phartneriaid, rhanddeiliaid ac asiantaethau yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat er mwyn nodi cyfleon i ddarparu gwasanaethau gweithredol mewn ffordd arloesol (gan gynnwys comisiynu gwasanaethau).

TEITL Y SWYDD: PENNAETH TRAWSNEWID CORFFORAETHOL

Arwain, annog a datblygu uwch reolwyr a staff i sicrhau y ceir gweithlu cymwys, ymrwymedig, medrus sydd wedi'i ysgogi i fodloni amcanion y Cyngor ac anghenion y dinesydd.

Arwain ar raglenni newid a thrawsnewid o fewn ac ar draws swyddogaethau, gan gefnogi rheolwyr i ddarparu ffyrdd newydd, gwell a mwy effeithiol o weithio.

Sefydlu a chynnal perthnasau gweithio cryf gydag aelodau etholedig, a darparu cyngor a chefnogaeth ar lefel uchel i gynnal a gwella perfformiad y Cyngor.

MANYLEB PERSON:

Gofynion Dwyieithog (Cymraeg a Saesneg):Hanfodol ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Cymwysterau

Hanfodol:

Addysg i lefel gradd, gorau oll gyda chymwysterau proffesiynol perthnasol sy'n ymwneud ag un o'r gwasanaethau neu'r meysydd proffesiynol a reolir.

Tystiolaeth o ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol pellach, gorau oll yn y maes trawsnewid, newid neu wella perfformiad.

Gwybodaeth/Profiad

Profiad sylweddol o reoli mewn sefydliad mawr a chymhleth.

Tystiolaeth o hanes lwyddiannus o reoli gwaith i ddatblygu, newid, ail-ddylunio neu drawsnewid gwasanaeth.

Hanes o lwyddiant o ran rhedeg ystod o swyddogaethau gwahanol.

Hanes o gyflawni o ran datblygu a darparu amcanion gwasanaeth a chynlluniau i lefelau uchel o berfformiad, o fewn fframwaith cyllidebol tynn.

Profiad o arwain ar weithredu targedau ac amcanion sefydliadol mewn amgylchedd cymhleth, deinamig a heriol.

Dealltwriaeth o ddulliau eraill o ddarparu gwasanaeth, yn cynnwys comisiynu.

Llwyddiant o ran datblygu perthnasau gweithio hynod effeithiol o fewn y Cyngor a'r tu draw iddo er mwyn cydweithio, gweithio mewn partneriaeth a darparu gwasanaethau.

Profiad o yrru blaenoriaethau corfforaethol trawstoriadol a phrosiectau strategol a pherchenogaeth ohonynt.

Profiad o fod wedi gweithio'n effeithiol ar lefel uchel mewn amgylchedd gwleidyddol, gyda sgiliau mewn perthynas â deall ac ymateb i safbwyntiau gwahanol.

Dealltwriaeth fanwl o'r sector cyhoeddus, blaenoriaethau ehangach y llywodraeth a'r cyd-destun cymdeithasol ac economaidd sy'n newid.

TEITL Y SWYDD: PENNAETH TRAWSNEWID CORFFORAETHOL

Sgiliau

Y gallu i feddwl, i gynllunio a gweithredu yn strategol.

Arweinydd cryf a gweithiwr/wraig c/gorfforaethol sy'n ddygn, yn gadarn ac wedi ymrwymo i'r safonau proffesiynol uchaf.

Y gallu i addasu strategaethau sefydliadol / corfforaethol yn gynlluniau gweithredol effeithiol.

Y gallu i gyfathrebu gweledigaeth rymus i randdeiliaid allweddol yn allanol yn ogystal â rheolwyr a staff mewnol i sicrhau perfformiad gweithredol.

Sgiliau dylanwadu rhagorol ar draws amrywiaeth o sefydliadau a rhanddeiliaid gwahanol, yn arbennig o ran ysgogi, trafod a darbwyllo eraill.

Dealltwriaeth wleidyddol hynod ddatblygedig, hygredded a statws sy'n ymgysylltu ac yn ennyn hyder aelodau, staff, y gymuned a rhanddeiliaid amrywiol.

Addasrwydd a hyblygrwydd o ran cyflawni perfformiad corfforaethol a gweithredol mewn amgylchedd sy'n newid yn ogystal â gallu i chwilio am ddulliau eraill o gyflawni a gweithredu.

Lefel uchel o ddealltwriaeth ariannol a masnachol.

Y gallu i ddadansoddi gwybodaeth, sefyllfaoedd a materion cymhleth, defnyddio sgiliau datrys problemau o'r radd flaenaf a gwneud penderfyniadau fydd yn cael effaith sylweddol.

YMDYGIADAU

Yn arwain ac yn ymgysylltu - Yn darparu cyfeiriad, cefnogaeth ac eglurder i eraill i'w galluogi hwy i gyflawni'n effeithiol. Yn creu'r hinsawdd gywir i bobl wneud eu gwaith gorau, gan sicrhau diwylliant o barch at ei gilydd, cefnogaeth, gonestrwydd, dysgu a herio adeiladol.

Yn rheoli perfformiad i sicrhau canlyniadau - Yn darparu atebolrwydd, disgwyliadau, safonau ac amcanion clir i weithwyr, partneriaid neu ddarparwyr sydd wirioneddol yn mynd at wraidd yr hyn fydd yn cael effaith ar ganlyniadau. Mae hyn yn ymwneud â sicrhau perfformiad da a chymryd camau adeiladol os nad ydyw'n dda, boed hynny gyda gweithwyr, partneriaid, darparwyr neu gymheiriaid.

Yn canolbwyntio ar y gymuned - Gyda ffocws parhaol ar ganlyniadau i gymunedau lleol. Fe'i hadeiladwyd ar synnwyr cryf o bwrpas moesol ond mae'n mynd y tu hwnt i 'fod eisiau gwneud y peth iawn' i gymunedau i ymgysylltu'n wirioneddol gyda nhw, deall eu hanghenion a'u helpu i wneud penderfyniadau am y gwasanaethau y maent eu heisiau a'u hangen.

Creu cyfleon - Yn gweithredu i fynd i'r afael â materion, yn manteisio ar gyfleon gan ragweld unrhyw newidiadau yn y dyfodol (yn arbennig trwy bartneriaeth). Annog syniadau

TEITL Y SWYDD: PENNAETH TRAWSNEWID CORFFORAETHOL


arloesol a chreadigol ac atebion gan edrych y tu hwnt i'r sefydliad i geisio datrysiadau uchelgeisiol. Yn gweld a hefyd yn barod i fanteisio ar unrhyw gyfle i wella gwasanaethau neu ddatblygu ffrydiau ariannu newydd, gyda ffocws strategol sy'n meddwl ymlaen i sicrhau bod gwasanaethau mewn sefyllfa i fod yn llwyddiannus yn awr ac yn y dyfodol.

Yn meddwl yn strategol ac yn creu eglurder - Y gallu i feddwl yn systematig ac i weld cysylltiadau a chyfleon i gysylltu. Mae'n sylfaenol i gapasiti arweinydd i symleiddio cymhlethdod, creu eglurder a chanolbwyntio a meddwl yn greadigol.

Yn cefnogi dysgu ac arloesed parhaol - Ymrwymiad i ddatblygu a galluogi eraill. Cefnogir hyn gan gred sylfaenol yng ngallu eraill i gyflawni ac ymrwymiad i'w grymuso hwy i wneud hynny.

Yn hyderus ac yn ddewr - Mae hyn yn golygu bod ag agwedd optimistaidd a hyder i gyflawni a darparu, i herio ac i ddyfalbarhau hyd yn oed pan fo pethau'n galed neu yn wyneb gwrthwynebiad. Mae hunanymwybyddiaeth gref yn sylfaenol i hyn.

Trawsnewid Corfforaethol ac Adnoddau Dynol



Atodiad D ¹

1.0 Mae prif ddyletswyddau'r rôl a'i phwysigrwydd mewn perthynas â gallu'r Cyngor i foderneiddio, cydymffurfio, rheoli risgiau a swyddogaeth yn effeithiol ac effeithlon wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

2.0 Trawsnewid (moderneiddio)

2.1 Mae moderneiddio yn hanfodol fel bo awdurdodau lleol yn bodloni gofynion twf, gweithredu'n gynaliadwy, ac yn gwasanaethu cymunedau'n well mewn byd sy'n parhau i newid. Mae'n golygu trawsnewid y ffordd mae cyngorau'n meddwl, cynllunio a gweithredu i adeiladu sector cyhoeddus mwy cynaliadwy sy'n ymateb yn well. Dyma pam ei fod yn bwysig:

2.2 Ymateb i Alw a Gofynion

- Costau'n codi: Mae cyngorau'n wynebu pwysau ariannol sylweddol o ganlyniad i chwyddiant, cynnydd mewn cyflogau a'r galw am wasanaethau cymdeithasol. Mae moderneiddio yn helpu i symleiddio gweithrediadau a lleihau costau.
- Galw am Wasanaethau: Gyda mwy o alw mewn meysydd megis tai, addysg a gofal cymdeithasol, mae systemau modern yn galluogi cyngorau i gynnig gwasanaethau'n fwy effeithlon a theg.
- Cynaliadwyedd Strategol
- Paratoi at y Dyfodol: Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn pwysleisio nad yw'r model presennol yn gynaliadwy. Mae moderneiddio yn allweddol ar gyfer adeiladu cyngorau gwydn sy'n gallu addasu.
- Grymuso Drwy Ddeddfwriaeth
- Pwerau Newydd: Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn rhoi pwerau ehangach i gyngorau, sy'n annog arloesedd a hyblygrwydd yn y ffordd maen nhw'n gweithio.
- Ymgysylltu â'r Gymuned a Hyder
- Tryloywder a Chynhwysiant: Mae cyfarpar digidol modern yn helpu cyngorau i ymgysylltu'n fwy effeithiol gyda phreswylwyr, meithrin hyder a sicrhau bod gwasanaethau ar gael i bawb.
- Effaith Amgylcheddol a Chymdeithasol
- Datblygu Cynaliadwy: Mae moderneiddio seilwaith ac arferion yn cefnogi amcanion hinsawdd ac yn helpu cyngorau i alinio gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

3.0 AD a Phobl

3.1 Mae adnoddau dynol a phobl wrth wraidd llwyddiant awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n fwy na swyddogaeth gefnogol - dyma sy'n gyrru'r gwaith o ddarparu gwasanaethau, arloesedd ac effaith ar y gymuned. Dyma pam:

3.2 Pŵer Pobl: Canolbwynt Gwasanaethau Cyhoeddus

- Maint y Gweithlu: Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn cyflogi miloedd o bobl ar draws sectorau hollbwysig fel addysg, gofal cymdeithasol, tai a gwasanaethau amgylcheddol.
- Sgiliau a Doniau: Mae gweithlu medrus a brwdfrydig yn cynnig gwasanaethau o ansawdd. Mae timau AD yn helpu i recriwtio, cadw a datblygu hyn.
- Arweinyddiaeth a Datblygu Strategol

¹ Paratowyd gyda chefnogaeth gan MS Copilot

- Datblygu Arweinyddiaeth: Mae cyngorau yng Nghymru yn buddsoddi mewn arweinyddiaeth a rheoli doniau er mwyn adeiladu timau gwydn a blaengar.
- Cynllunio Olyniaeth: Mae AD yn cynnal parhad drwy baratoi arweinwyr y dyfodol a rheoli newidiadau'n effeithiol.

3.3 Addasu i Newid

- Moderneiddio ac Ailstrwythuro: Wrth i gynghorau wynebu pwysau ariannol ac anghenion cymunedol amrywiol, mae AD yn chwarae rôl allweddol o ran ailstrwythuro gwasanaethau a chefnogi staff drwy newid.
- Pwerau Newydd: Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn rhoi pwerau ehangach i gynghorau, ac felly rhaid i AD gefnogi cymwyseddau a modelau llywodraethu newydd.
- Cynhwysiant, Llesiant ac Ymgysylltu
- Llesiant Gweithwyr: Mae AD yn hyrwyddo iechyd meddwl, gweithio hyblyg, ac arferion cynhwysol - hanfodol ar gyfer cynnal gweithlu iach a gweithgar.
- Iaith Gymraeg a Diwylliant: Mae AD yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau dwyieithog ac ymwybyddiaeth diwylliannol, gan alinio gyda gwerthoedd cenedlaethol.
- Cydymffurfiaeth a Rheoli Risg
- Polisi a Llywodraethu: Mae AD yn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol, rheoli risg a safonau moesol ar draws y sefydliad.

4.0 **Perfformiad**

4.1 Mae perfformiad yn hollbwysig o awdurdodai lleol yng Nghymru am ei fod yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol, yn atebol ac yn parhau i wella. Dyma pam ei fod yn bwysig:

4.2 Fframwaith Cyfreithiol a Strategol

- Dyletswydd Statudol: Dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, rhaid i gynghorau asesu eu perfformiad yn rheolaidd er mwyn darparu gwasanaethau'n effeithiol, gan ddefnyddio adnoddau'n effeithlon, a chynnal mesurau llywodraethu llym.
- Adroddiad Hunan-asesu: Gofynnir i bob cyngor gyhoeddi adroddiadau blynyddol yn gwerthuso i ba raddau maen nhw'n bodloni gofynion perfformiad, meithrin tryloywder ac atebolrwydd.
- Gwellu Gwasanaeth ac Atebolrwydd
- Rheolaeth yn Seiliedig ar Ganlyniadau: Mae fframweithiau perfformio yn helpu cynghorau i ganolbwyntio ar ganlyniadau - fel gwella canlyniadau addysg neu gymorth tai cynt - yn hytrach na phrosesau'n unig.
- Hyder y Cyhoedd: Mae adrodd yn dryloyw ar berfformiad yn meithrin hyder gyda phreswylwyr ac yn dangos bod cynghorau'n ymateb i anghenion y gymuned.
- Gyrru Arloesedd a Effeithiolrwydd
- Penderfyniadau'n Seiliedig ar Wybodaeth: Mae data perfformiad yn hwyluso cynllunio, cyllidebu a'r broses o wneud penderfyniadau, gan helpu cynghorau i addasu i ofynion sy'n parhau i newid.

- Gwelliant Parhaus: Gall cynghorau adnabod meysydd o wendid a gweithredu gwelliannau penodol, gan sicrhau bod gwasanaethau'n datblygu yn ôl disgwyliadau cyhoeddus.
- Cydweithio a Dysgu
- Arferion Gorau a Rennir: Mae rheoli perfformiad yn annog cydweithio ar draws gynghorau a sectorau, a'u galluogi i ddysgu gan y naill a'r llall a mabwysiadu strategaethau sy'n gweithio.

5.0 TGCH/ Digidol

5.1 Mae technoleg gwybodaeth a gwasanaethau digidol yn hollbwysig i awdurdodau lleol yng Nghymru am eu bod yn helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn fwy cynhwysol ac effeithlon. Dyma sut maen nhw'n gwneud gwahaniaeth:

5.2 Trawsnewid Strategol

- Strategaeth Ddigidol Cymru: Mae strategaeth Llywodraeth Cymru'n amlinellu sut data, digidol a thechnoleg wella bywydau, cryfhau gwasanaethau cyhoeddus a chefnogi busnesau. Mae'n fwy na chyfarpar - rhaid meddwl sut mae gwasanaethau'n cael eu dylunio a'u darparu.
- Safon Gwasanaeth Digidol: Mae'r fframwaith hwn yn helpu cynghorau i ddylunio gwasanaethau dwyieithog, yn canolbwyntio ar y defnyddiwr ac sydd ar gael i bawb, sy'n bodloni anghenion pob preswlydd.
- Effeithlonrwydd a Gwerth am Arian
- Canfyddiadau Archwilio Cymru: Mae technoleg ddigidol yn cynnig cyfleoedd eang i wella gwasanaethau a rheoli pwysau ariannol. Fodd bynnag, rhaid i gynghorau wella effeithlonrwydd a sicrhau eu bod yn cyflawni gwerth am arian wrth fuddsoddi mewn cyfarpar digidol.
- Cynhwysiant a Hygyrchedd
- Cenhadaeth Cynhwysiant Digidol Mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod yr holl breswylwyr - yn enwedig y rheiny mewn ardaloedd gwledig neu dan anfantais - yn gallu manteisio ar wasanaethau digidol. Mae hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant, cysylltedd, a chefnogaeth ar gyfer y rheiny sy'n llai hyddysg yn ddigidol.
- Sgiliau ac Adeiladu Capasiti
- Cynghorau Tref a Chymuned: Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio cynllun gweithredu i wella gallu digidol ar draws gynghorau, gan ganolbwyntio ar seilwaith, hyfforddiant a newid diwylliannol.
- Diogelwch a Gwydnwch
- Seiberddiogelwch a Pharhad: Wrth i gynghorau ddibynnu'n fwy ar lwyfannau digidol, mae diogelu data dinasyddion a sicrhau gwydnwch systemau yn brif flaenoriaeth.

6.0 Cyfathrebu

6.1 Mae cyfathrebu a cysylltiadau cyhoeddus yn hollbwysig i awdurdodau lleol yng Nghymru am eu bod yn helpu i feithrin hyder, ymgysylltu â chymunedau, a sicrhau tryloywder mewn gwasanaethau cyhoeddus. Dyma pam eu bod yn bwysig:

6.1 Negeseuon Clir ac Effeithiol

- Cod Cyhoeddus: Mae Cod ar yr Arferion a Argymhellir o ran Cyhoeddusrwydd gan Awdurdodau Lleol Llywodraeth Cymru yn cynghori cynghorau ar sut i gyfathrebu'n gyfrifol,

yn enwedig mewn perthynas ag etholiadau, cyfarfodydd cyhoeddus a newidiadau i wasanaeth.

- Mynediad at Wybodaeth: Mae cyfathrebu da yn sicrhau bod preswylwyr yn deall penderfyniadau'r cyngor, gwasanaethau a chyfleoedd - yn enwedig yn Gymraeg a Saesneg.
- Dylanwad Strategol ac Eiriolaeth
- Materion Cyhoeddus: Mae cynghorau'n defnyddio materion cyhoeddus i ddylanwadu ar bolisi, lobio ar gyfer cyllid, ac alinio blaenoriaethau lleol gydag agendâu cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys ymwneud ag ASau, gweinidogion, a gweithwyr sifil.
- Ymgysylltu â'r Gymuned a Chynhwysiant
- Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu Cyhoeddus: Mae'r egwyddorion hyn yn hyrwyddo ymgysylltiad cyson o ansawdd ledled Cymru, gan helpu cynghorau i gynnwys preswylwyr mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Cyfryngau Lleol a Llwyfannau Cymdeithasol: Mae cynghorau'n defnyddio newyddlenni, gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd cynulleidfaoedd amrywiol, gan gynnwys y rheiny sy'n anoddach i'w cyrraedd yn draddodiadol.
- Tryloywder ac Atebolrwydd
- Trafod yn Agored: Mae cyfathrebu'n helpu cynghorau i egluro camau, rhannu data am berfformiad, ac ymateb i bryderon y cyhoedd, gan faethu atebolrwydd.
- Cyfathrebu mewn Argyfwng: Yn ystod argyfyngau neu amhariadau i wasanaeth, mae angen negeseuon clir i hysbysu cymunedau a'u cadw'n ddiogel.
- Cynrychiolaeth Diwylliannol ac Ieithyddol
- Yr Iaith Gymraeg: Mae'n rhaid i gyfathrebiadau adlewyrchu diwylliant dwyieithog Cymru, a sicrhau cynhwysiant a chydymffurfiaeth gyda safonau iaith.

Atodiad E - Strwythur Rheoli Arfaethedig

